Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Gwasanaethau Gofal yng Nghymru

## Adroddiad Blynyddol

2006-2007



G/377/07-08
ISBN 978 0 7504 4342 5

Ionawr
CMK-22-11-025

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2008

# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| PENNOD UN - GWASANAETHAU I BLANT | 3 |
| Cartrefi plant | 4 |
| Gwasanaethau maethu | 19 |
| Gwasanaethau gofal dydd i blant | 28 |
| Gwarchodwyr plant | 39 |
| Gofal dydd llawn | 41 |
| Gofal dydd sesiynol | 43 |
| Gofal y tu allan i'r ysgol | 45 |
| Crèches | 46 |
| Darpariaeth chwarae mynediad agored | 47 |
| Ysgolion a cholegau | 48 |
| Ysgolion arbennig preswyl | 49 |
| PENNOD DAU - GWASANAETHAU I OEDOLION | 57 |
| Cartrefi gofal i oedolion | 58 |
| Gofal cartref | 73 |
| Cynlluniau lleoli oedolion | 83 |
| Asiantaethau nyrsys | 87 |
| PENNOD TRI - SUT Y BODLONODD ASGC EI HAMCANION YN 2006-07 | 89 |

# RHAGAIR

Ar 1 Ebrill 2007, cyfunwyd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) a'u priod swyddogaethau a phwerau i ffurfio Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mae'r Adroddiad Blynyddol AGGCC hwn ar gyfer 2006-07 yn cyfuno adroddiadau'r arolygiaethau ASGC ac AGCC blaenorol mewn dwy ddogfen ar wahân, ynghyd â throsolwg cynhwysfawr y Prif Arolygydd o'u swyddogaethau a'u canfyddiadau unigol.

Mae AGGCC yn darparu gwasanaeth rheoleiddio ac arolygu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Ein nod yw cefnogi'r broses o wella gofal, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru drwy godi safonau, gwella ansawdd gwasanaethau a hyrwyddo arfer gorau drwy waith rheoleiddio, arolygu a datblygu.

Mae'r arolygiaeth newydd yn gweithredu o'r un lleoliadau ledled Cymru ag yr oedd ei rhagflaenwyr.

# PENNOD UN

## GWASANAETHAU I BLANT



Mae ASGC yn rheoleiddio'r gwasanaethau canlynol i blant:

- Cartrefi plant gan gynnwys llety diogel
- Gwasanaethau gofal dydd i blant gan gynnwys gwarchodwyr plant, gofal dydd llawn, gofal sesiynol, gofal y tu allan i'r ysgol, crèches a chwarae mynediad agored
- Gwasanaethau maethu y sector cyhoeddus ac annibynnol
- Gwasanaethau mabwysiadu y sector cyhoeddus a gwirfoddol
- Ysgolion sy'n darparu llety i ddisgyblion, gan gynnwys ysgolion arbennig preswyl, ysgolion preswyl a cholegau addysg bellach sy'n lletya myfyrwyr dan 18 mlwydd oed
- Canolfannau preswyl i deuluoedd

Gwasanaethau plant sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o waith ASGC. Mae ystod eang o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol sydd ar gael i blant mewn unrhyw ardal awdurdod lleol yn dod o fewn y cylch gwaith hwn. Mae'r rhain yn amrywio o wasanaethau gofal dydd i blant iau a'u rhieni i ysgolion preswyl y brif ffrwd. Maent hefyd yn cynnwys gwasanaethau mwy arbenigol megis y rheiny i blant ag anghenion penodol, e.e. y rheiny sy'n 'derbyn gofal' gan awdurdodau lleol.

# CARTREFI PLANT

## TROSOLWG



Mae'r tueddiad o gynnydd bychan o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y cartrefi plant a'r lleoedd yng Nghymru wedi parhau eleni. Roedd rhai o'r cartrefi newydd mewn rhannau mwy trefol o Gymru, gan arwain at ddarpariaeth ychydig yn fwy cyfartal ar draws yr ardaloedd hyn a'r ardaloedd gwledig. Y sector annibynnol yw'r prif ddarparwr o hyd, ac mae 70% o'r cartrefi yn cael eu rheoli gan gwmnïau preifat. Defnyddir nifer sylweddol o'r lleoedd ar gyfer plant sy'n dod o ardaloedd y tu allan i Gymru.

Mae rhai agweddau ar y gofal a ddarperir yn gyson dda ym mhob cartref:

- Bodloni anghenion personol
- Rhai agweddau ar ddiogelu - prosesau cwyno, rheoli bwlio a phlant sy'n mynd ar goll
- Hyrwyddo cysylltiadau pan fo'r hyn sydd ei angen yn eglur

Ceir tystiolaeth o wella rhai meysydd a amlygwyd y llynedd:

- Cartrefi yn annog ac yn darparu cyfleusterau digonol i wneud gwaith cartref ac astudio
- Cartrefi yn cynnal adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal a ddarperir

Caiff y ddau fater uchod eu gwrthbwyso gan rai meysydd allweddol lle mae pryderon sylweddol yn parhau i fodoli. Y rhai pwysicaf o'r rhain yw:


- Goruchwylio gan reolwyr a phrosesau ar gyfer gwelliant parhaus
- Staffio - recriwtio ac addasrwydd, cefnogaeth a hyfforddiant parhaus, a lefelau staffio
- Cynllunio lleoliadau
- Agweddau ar ofal - rheoli ymddygiad a rheoli meddyginiaeth
- Datganiadau o ddiben
- Cadw cofnodion

Mae nifer y cwynion yn parhau i fod yn gymharol isel, ond mae nifer yr hysbysiadau amddiffyn plant wedi cynyddu.

## Proffil y sector

Ar 31 Mawrth 2007 roedd 128 o gartrefi plant cofrestredig yng Nghymru, yn darparu 530 o leoedd. Mae hyn yn gynnydd net o ddau gartref gan ennill 14 o leoedd, sy'n gynnydd o 3% yn y lleoedd sydd ar gael ers adroddiad diwethaf ASGC. Felly, mae'r tueddiad o gynnydd bychan mewn cartrefi bob blwyddyn yn parhau. Ceir lleoedd ychwanegol yn yr unig gartref diogel i blant a reolir gan awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r siart ganlynol yn dangos y newid yn nifer y cartrefi plant cofrestredig a'r lleoedd ers mis Mawrth 2003.




Er mai dim ond cynnydd net bychan a geir yn y niferoedd a'r lleoedd, ceir symud sylweddol yn y sector:

- Rhoddodd ddeuddeg cartref y gorau i weithredu;
- Gwnaed newidiadau i'r gwasanaeth a gynigir gan eraill, gyda dros 70 o geisiadau i amrywio amodau'r cofrestriad, a nifer ohonynt yn ymwneud â materion gweithredu penodol e.e. ystod oedran neu niferoedd;
- Roedd 28 o geisiadau newydd ar gyfer rheolwyr a darparwyr, rhai ar gyfer cartrefi newydd ac eraill ar gyfer rhai oedd yn bodoli eisoes.

Ar 31 Mawrth 2007, roedd cartrefi plant wedi'u dosbarthu ledled Cymru fel y nodir yn y tabl canlynol.

| Rhanbarth/ awdurdod lleol | Nifer y cartrefi plant cofrestredig | Cyfran yr holl gartrefi plant cofrestredig | Nifer y lleoedd cofrestredig | Cyfran yr holl leoedd cofrestredig |
|---|---|---|---|---|
| **Gogledd-orllewin** | **16** | **13%** | **70** | **13%** |
| Conwy | 3 | 2% | 7 | 1% |
| Gwynedd | 9 | 7% | 48 | 9% |
| Ynys Môn | 4 | 4% | 15 | 3% |
| **Gogledd-ddwyrain** | **27** | **21%** | **82** | **16%** |
| Sir Ddinbych | 3 | 2% | 14 | 3% |
| Sir y Fflint | 5 | 4% | 14 | 3% |
| Wrecsam | 19 | 15% | 54 | 10% |
| **Y Canolbarth** | **25** | **20%** | **114** | **22%** |
| Powys | 25 | 20% | 114 | 22% |
| Ceredigion | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **De-ddwyrain** | **16** | **13%** | **56** | **11%** |
| Blaenau Gwent | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Caerffili | 3 | 3% | 13 | 2% |
| Sir Fynwy | 6 | 5% | 17 | 4% |
| Casnewydd | 7 | 5% | 26 | 5% |
| Tor-faen | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Caerdydd** | **8** | **6%** | **36** | **6%** |
| **Y Fro a'r Cymoedd** | **11** | **8%** | **49** | **9%** |
| Merthyr Tudful | 1 | 1% | 4 | 1% |
| Rhondda Cynon Taf | 7 | 5% | 37 | 6% |
| Bro Morgannwg | 3 | 2% | 8 | 2% |
| **De-orllewin** | **11** | **8%** | **70** | **13%** |
| Castedd-nedd Port Talbot | 2 | 1% | 22 | 4% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4 | 2% | 25 | 5% |
| Abertawe | 5 | 5% | 23 | 4% |
| **Gorllewin** | **14** | **11%** | **53** | **10%** |
| Sir Benfro | 8 | 6% | 34 | 6% |
| Sir Gaerfyrddin | 6 | 5% | 19 | 4% |
| **CYFANSWM** | **128** | **100%** | **530** | **100%** |


- Cafwyd colledion net sylweddol o gartrefi a/neu leoedd yn rhanbarthau Gogledd-orllewin Cymru (Gwynedd, Conwy, Ynys Môn) a De-ddwyrain Cymru (Casnewydd a Chaerffili). Collwyd y nifer mwyaf o leoedd yng Nghaerffili ac Ynys Môn, sef deg ac wyth o leoedd yn ôl eu trefn.
- Gwelwyd cynnydd net sylweddol mewn cartrefi yn rhanbarthau Canolbarth Cymru (Powys), Y Fro a'r Cymoedd (Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg) a De-orllewin Cymru (Castell-nedd Port Talbot). Agorwyd cartref newydd ym mhob un o'r rhain gan gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael. Cafwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y lleoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot gyda 25 lle ychwanegol, ac yna ym Mhowys gyda naw. Er y bu cynnydd yn y boblogaeth y 'gofelir amdanynt' yn yr awdurdodau lleol hyn, ni fyddai proffil y cynnydd yn awgrymu bod angen lleoliadau preswyl ar bob un o'r plant hyn.
- Yn flaenorol, y tueddiad a welwyd oedd bod mwy o leoedd ar gael mewn ardaloedd gwledig. Yr un yw'r sefyllfa o hyd, gyda 22% o'r holl leoedd ym Mhowys, ond ceir 16% arall ar draws Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint, a 13% yr un ar draws Ynys Môn, Conwy, Gwynedd, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae 45% o'r lleoedd yn parhau i fod yn yr ardaloedd mwy gwledig.

Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael (Mawrth 2006) yn awgrymu bod ychydig dros 200 o blant Cymru mewn gofal preswyl, gyda thua hanner ohonynt y tu allan i ffin yr awdurdod lleoli. Hyd yn oed pe byddai pob un o'r lleoliadau hyn sydd y tu allan i'r ardal mewn rhannau eraill o Gymru, sy'n annhebygol, caiff nifer sylweddol o leoedd mewn cartrefi plant Cymru eu cymryd gan blant a leolir gan awdurdodau nad ydynt yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli tua 60% o leoedd yn ôl ffigurau presennol. Mae hyn yn darparu peth tystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r pryderon a fu'n codi ynglŷn â'r ffaith nad yw rhai cartrefi yn bodloni anghenion ardal benodol a'r effaith anghyfartal y mae hyn yn ei chael ar wasanaethau lleol.

Ceir tystiolaeth hefyd fod lleoedd gwag ar gael mewn cartrefi plant. Mae'r data a ddarparwyd gan yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant yn awgrymu hyn, ac mae profiad ASGC yn cadarnhau mai dyma yw'r achos. Yn benodol, mae rhai cartrefi yn cynyddu'r gymhareb staff: plant drwy gadw lleoedd gwag, sy'n caniatáu iddynt reoli plant ag anghenion mwy cymhleth.

Parhau y mae'r tueddiad o gynnydd bychan o flwyddyn i flwyddyn yng nghartrefi plant y sector annibynnol, ac mae cwmnïau mwy yn cymryd yr awenau mewn rhai cartrefi llai. Gwelwyd y patrwm hwn yn hanner rhanbarthau ASGC. Mewn rhai rhanbarthau, mae hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar sefydlogrwydd a dilyniant y gwasanaeth a brofir gan y plant, gyda'r rheolwyr a grwpiau staff yn newid o ganlyniad i'r trosfeddiannu.

> *"Cadarnhaodd y bobl ifanc eu bod yn hapus yn byw yn y cartref a'u bod yn gwerthfawrogi'r berthynas gadarnhaol a oedd ganddynt gydag aelodau o'r staff."*
>
> *Arolygydd, cartref plant*




Mae perchenogaeth breifat ar gartrefi plant yn parhau i fod yn flaenllaw. Bu cynnydd pellach o 2% mewn perchenogaeth annibynnol, gyda 74% o'r cartrefi plant yng Nghymru bellach yn cael eu rhedeg gan y sector annibynnol. O fewn y ganran hon, mae'r sector preifat wedi cynyddu ei gyfran i 70%, tra bod y sector gwirfoddol wedi lleihau 1% ymhellach i 4%. Caiff y 26% o gartrefi plant sy'n weddill eu rheoli gan awdurdodau lleol.

Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau a llunio polisïau barhau i fonitro goblygiadau dosbarthiad y cartrefi a'r newid mewn patrymau perchenogaeth i'r plant a leolir a chynllunio'r gwasanaeth.

## Cofrestriad

Wrth gofrestru cartref newydd, gellir gosod amodau i sicrhau bod y cartref yn cael ei reoli mewn ffordd benodol neu roi sylw i faterion penodol. Roedd yr amodau a osodwyd amlaf ar gofrestriadau newydd yn ymwneud â nifer ac ystod oedran y plant sy'n derbyn llety.

Gwelwyd trosiant uchel o ran rheolwyr mewn cartrefi presennol mewn rhai ardaloedd. Mae hyn yn gysylltiedig â throsfeddiannu perchenogaeth, a gallai hefyd adlewyrchu natur y swyddogaethau ac apêl gyrfa hirdymor mewn swyddi o'r fath i'r gweithlu gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, ceir goblygiadau ynglŷn â dilyniant y gwasanaeth a'r sefydlogrwydd a ddarperir i'r plant yn y cartrefi dan sylw.

Dim ond rhywfaint o welliant a welwyd yn nifer y rheolwyr newydd sy'n derbyn swyddi gyda'r cymwysterau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru h.y. NVQ lefel 4 mewn gofal a rheoli neu gymhwyster cyfwerth. Eleni, nid oedd gan 38% o'r sampl y cymwysterau hyn o'i

gymharu â 42% o sampl o faint tebyg y llynedd. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r rheolwyr hyn wedi'u cofrestru ar gyrsiau.

Mae'r newidiadau i reoliadau cartrefi plant o ganlyniad i bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007), yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

## Ansawdd y gwasanaeth

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar sampl o 77% o gartrefi plant yng Nghymru.

Mae'n ofynnol i bob cartref plant weithredu o fewn y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol sy'n cwmpasu'r ystod eang o faterion sy'n angenrheidiol i redeg cartref plant da. Mae'r rhain yn darparu'r seilwaith er mwyn i'r gwasanaethau fod o ansawdd digonol, a dylent eu galluogi i greu profiadau cadarnhaol a chanlyniadau da i blant. Mae'r rhain wedi'u rhannu i'r categorïau canlynol at ddibenion yr adroddiad hwn:

- Materion sy'n ymwneud ag **ansawdd gofal a hyrwyddo lles plant** e.e. cynllunio ar gyfer anghenion unigol, ansawdd bywyd, gofal a thriniaeth, ymdrin â phryderon, cwynion ac amddiffyn plant.
- Materion sy'n ymwneud â **rhedeg y gwasanaeth** e.e. datganiad o ddiben, staffio, yr amgylchedd ffisegol, cynnal a rheoli'r gwasanaeth a sicrhau ansawdd.

Er y nodwyd meysydd i'w gwella, mae llawer o gartrefi yn cynnig gwasanaeth o ansawdd da ar y cyfan, ac nid yw adroddiadau arolygu nifer ohonynt yn cynnwys unrhyw ofynion. Nid yw eraill mor gyson, ond er hynny maent yn arddangos rhai agweddau da ar eu gwasanaeth.

### *Ansawdd gofal a hyrwyddo lles plant*

Mae rheoliadau sy'n hyrwyddo lles plant yn hanfodol i ddarparu gofal preswyl o ansawdd da. Maent yn cynnwys darparu'n briodol ar gyfer y gofal, yr addysg, yr oruchwyliaeth a'r cymorth y gall fod eu hangen ar blant a phobl ifanc, yn ogystal â sicrhau y perchir eu preifatrwydd a'u hurddas ac y bodlonir eu hanghenion unigol. Nodwyd gofynion mewn perthynas â'r ddyletswydd gyffredinol hon neu rai o'r materion penodol sy'n sail iddi ar gyfer 32% o'r sampl o'i gymharu â 21% y llynedd. Gwelwyd gwelliant mewn rhai agweddau ar ansawdd, ond mae'r gwelliant yn anghyson, ac mae tipyn o waith i'w wneud o hyd.

## GOFAL A CHYNLLUNIO O ANSAWDD DA

> *Mae'r cartref yn darparu diwylliant ac amgylchedd cadarnhaol i'r bobl ifanc ddatblygu, ac mae'r staff a'r rheolwr yn dangos yn glir eu hymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd da*
>
> *Arolygydd, cartref plant hirdymor*

Mae'r dadansoddiad yn dangos bod yr agweddau canlynol ar wasanaethau yn dda ar y cyfan ledled Cymru:

- Caiff cysylltiad â theulu a ffrindiau ei hyrwyddo a'i reoli'n dda gan fwy nag 85% o gartrefi;
- Caiff anghenion plant a phobl ifanc o ran cael dillad, arian poced a mân bethau personol eraill eu bodloni'n dda ymron bob cartref;
- Gwelwyd gwelliant sylweddol yn nifer y cartrefi sy'n annog ac yn darparu cyfleusterau i wneud gwaith cartref ac astudio, a chynhaliwyd cysylltiadau da gydag ysgolion a phrosiectau arbennig sy'n cefnogi addysg plant a phobl ifanc. Mae angen gwneud mwy o waith i alluogi plant a phobl ifanc i wneud y defnydd gorau o'r systemau cymorth hyn;
- Mae bron pob cartref yn tueddu i annog eu preswylwyr i ddatblygu neu barhau â'u diddordebau hamdden ac yn darparu cyfleoedd uniongyrchol ar gyfer hyn;
- Caiff anghenion iechyd eu rheoli'n dda ar y cyfan mewn 85% o gartrefi, er y ceir pryderon o hyd ynglŷn â hybu iechyd, mynediad at gymorth arbenigol a rheoli meddyginiaeth. Cafwyd pryderon mewn 27% o'r sampl ynglŷn â rheoli meddyginiaeth, sy'n golygu bod pryderon y tair blynedd diwethaf yn parhau. Mae'r cynnydd yn y defnydd a wneir o feddyginiaeth reoledig yn cyd-fynd â'r cynnydd mewn anghenion cymhleth y plant mewn gofal preswyl. Mae angen i gyfran o gartrefi wella'r ffordd y maent yn storio meddyginiaeth ac yn cadw cofnodion ohonynt.

Mae cynllunio eglur a chyson ar gyfer plant unigol yn hanfodol os ydynt am elwa ar leoliadau a chael canlyniadau cadarnhaol o'u profiad. Yr awdurdod lleol sy'n lleoli'r plentyn sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer hyn yn ei gynllun gofal. Yna mae'n ofynnol i gartrefi lunio cynllun lleoli penodol sy'n manylu ar sut y cyflawnir nodau'r cynllun gofal drwy ofal y plentyn o ddydd i ddydd.

Gwelwyd diffygion mewn cynllunio lleoliad ar gyfer y plant yn y ffigur sylweddol o 57% o'r sampl. Mae perfformiad o ran y mater hwn wedi parhau i ddirywio yn ystod y tair blynedd diwethaf, sy'n peri pryder. Mae'r pryderon yn ymwneud yn bennaf â'r wybodaeth a gynhwysir mewn cynlluniau lleoli a'r broses o'u datblygu.

- Nid oedd 37% o'r cynlluniau yn cynnwys digon o fanylion am iechyd neu anghenion addysgol y plentyn, ac roedd dros chwarter yn aneglur ynglŷn â chysylltiadau;

- Nid oedd 17% yn gyson â chynllun yr awdurdod lleol, ac nid oedd 13% yn adlewyrchu'n ddigonol safbwynt na chyfranogiad y plentyn yn y broses;
- Nid oedd 40% ohonynt yn cael eu hadolygu fel sy'n ofynnol.

Nid oedd rhai cynlluniau yn canolbwyntio'n ddigonol ar y camau penodol sydd eu hangen er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r canlyniadau dymunol ar gyfer y plentyn. Mewn cynlluniau eraill, roedd gwybodaeth gan yr awdurdod lleoli ar goll neu o ansawdd gwael, er bod y cartrefi yn ceisio ei chael, gan effeithio ar allu'r cartref i ddatblygu cynlluniau lleoli manwl. Roedd cynllunio ar gyfer y trawsnewid i fod yn oedolyn yn faes a oedd angen ei wella'n benodol.

Mae datblygu arfer yn y maes hwn yn allweddol er mwyn cyflawni gwelliannau i'r canlyniadau ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal. Unwaith eto, dylai'r newidiadau a gynhwysir ym mholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell* gefnogi'r gwelliant hwn.

## AMDDIFFYN PLANT, PRYDERON A CHWYNION

Mae'n hanfodol bod cartrefi plant yn darparu amgylchedd diogel i'r plant a'r bobl ifanc sy'n byw ynddynt. Er mwyn cyflawni hyn, dylai cartrefi sefydlu polisïau a gweithdrefnau eglur ynglŷn ag amddiffyn plant, bwlio, absenoldebau, cwynion a sylwadau. Dylai'r rhain fod yn eglur ar gyfer y plant a'r staff a bod yn rhan annatod o'r ffordd y mae'r cartref yn gweithredu. Cafwyd gwelliannau sylweddol i'r agwedd hon ar ofal.

- Mae gan 84% o gartrefi bolisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant sy'n cydymffurfio â'r gofynion, sy'n welliant ers y llynedd. Y gweithdrefnau gweithredol a chadw cofnodion yw'r prif wendidau yn y gweddill ohonynt;
- Mae gan 95% o gartrefi brosesau cwynion digonol sydd ar gael i'r plant a'r bobl ifanc eu defnyddio;
- Mae polisïau eglur wedi'u sefydlu i reoli bwlio;
- Mae'r trefniadau ar gyfer plant sy'n mynd ar goll wedi'u datblygu'n dda.

Dylai plant a phobl ifanc hefyd allu disgwyl i'r amgylchedd a'r gweithgareddau gael eu rheoli mewn ffordd sy'n lleihau niwed posibl, heb gyfyngu ar ddatblygu angenrheidiol.

Bu gwelliant sylweddol yn nifer y cartrefi sy'n cynnal asesiadau risg o ymddygiad plant a phobl ifanc a'u strategaethau rheoli gydag asiantaethau lleol fel mater o drefn. Mae hyn bellach yn digwydd mewn 69% o gartrefi. Yn y gweddill ohonynt, roedd y pryderon yn ymwneud â rheoli derbyniadau a'r adnoddau sydd ar gael mewn asiantaethau lleol i gefnogi'r cartref pan fo angen.

## RHEOLI YMDDYGIAD

Gall y ffordd y caiff ymddygiad y plant a'r bobl ifanc eu hunain ac ymddygiad eraill ei reoli, effeithio'n sylweddol ar ansawdd bywyd plant a phobl ifanc. Mae disgwyliadau eglur o ran ymddwyn yn briodol a chanlyniadau ymddygiad gwael yn bwysig i'r plant a'r staff. Bydd plant yn ffynnu orau mewn amgylchedd lle y mae'r rhain yn bodoli ochr yn ochr â diwylliant agored, cefnogol a pharchus.

Caiff ymddygiad ei reoli'n dda, gan fodloni gofynion y rheoliadau mewn 62% o gartrefi. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnal y sefyllfa a welwyd y llynedd pan oedd 75% o gartrefi yn gwneud hynny. Y prif feysydd sy'n peri pryder yw:

- Bodolaeth polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli ymddygiad;
- Cadw cofnodion yn unol â'r gofynion cyfreithiol;
- Ystod ac effeithiolrwydd y camau rheoli/disgyblu a ddefnyddir.

# *Rhedeg y gwasanaeth*

## DATGANIAD O DDIBEN

Mae'n ofynnol i bob cartref plant gael datganiad o ddiben sy'n nodi manylion y gwasanaeth a ddarperir. Dogfen graidd yw hon sy'n amlinellu nodau ac amcanion y cartref ac yn caniatáu i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau cychwynnol ynglŷn â pha un a fydd cartref penodol yn bodloni anghenion unigol unrhyw blentyn neu berson ifanc. Mae'n ofynnol i gartrefi hefyd gynhyrchu'r wybodaeth a gynhwysir yn y ddogfen hon ar ffurf canllaw plant mewn fformat sy'n addas i blant a phobl ifanc.

- Nid oedd datganiad o ddiben na chanllaw plant 55% o'r sampl yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, sef cynnydd o 11% ers y llynedd. Roedd cynnwys y canllaw plant yn brif faes a oedd yn peri pryder, ac nid oedd llawer ohonynt yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, gwybodaeth am gwynion a manylion am gysylltiadau allweddol eraill megis Comisiynydd Plant Cymru;
- Nid oedd 18% yn cael eu hadolygu fel sy'n ofynnol, o'i gymharu â 10% y llynedd.

Mae hwn yn fater sy'n peri pryder. Mae ASGC wedi nodi hyn fel bod yn gyson wael ers 2003. Mae'r rhain yn ddogfennau craidd, ac er y cydnabyddir y bydd natur ddeinamig y sector, e.e. newidiadau mewn perchenogaeth a'r gwasanaeth a ddarperir, yn golygu y bydd yn rhaid gwneud newidiadau iddynt, mae'n faes y mae'n rhaid i ddarparwyr roi sylw iddo.

## CYNNAL A RHEOLI'R GWASANAETH

Mae arweinyddiaeth gadarn gan reolwyr hyderus a chymwysedig yn rhan allweddol o sicrhau y darperir gwasanaeth o ansawdd da i blant a phobl ifanc. Bydd hyn yn deillio oddi wrth y

darparwr, ond mae'r rheolwr cofrestredig yn allweddol er mwyn sicrhau y gwelir hyn o ddydd i ddydd ym mhob cartref.

Bu gwelliant sylweddol eleni yn nifer y cartrefi sy'n cynnal eu hadolygiadau eu hunain o ansawdd gofal.

Roedd 92% o'r cartrefi wedi adolygu eu hansawdd gofal. Mae hyn yn welliant o 30%, sy'n galonogol, yn enwedig cyn yr atgyfnerthu rheoliadau a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2007. Mae'n llwyfan da i ddatblygu'r gofynion ychwanegol, e.e. cryfhau'r gofyniad i ymgynghori â phreswylwyr a gwella ansawdd yr adolygiadau a lunnir.

Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, ceir pryderon o hyd ynglŷn ag agweddau ar sicrhau ansawdd mewnol parhaus. Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig ymweld â'r cartref yn ddirybudd, o leiaf unwaith y mis, i fonitro nifer o agweddau ar ofal, siarad ag unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n bresennol a chyflwyno adroddiad ar yr ymweliad. Dylai'r gweithgaredd hwn gysylltu â chynllunio ar gyfer datblygiad a gwelliant yn barhaus.

Nid yw 21% o gartrefi yn cyflawni hyn fel sy'n ofynnol, sy'n dangos dirywiad parhaus yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'n amlwg bod system wedi'i sefydlu i wneud hyn yn y rhan fwyaf o gartrefi, ond mae angen rhoi sylw i gysondeb, cynnwys, dulliau cofnodi a chysylltiadau â gwella'r gwasanaeth.

Yn ogystal, bu dirywiad pellach mewn cadw cofnodion priodol. Gwelwyd pryderon mewn 44% o'r sampl, sy'n adlewyrchu cynnydd o 16% ers y llynedd.

Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y pryderon ynglŷn â chadw cofnodion yn amrywio o ba gofnodion a gedwir ac am ba mor hir, i'r pryderon yn ymwneud â'u bod ddim ar gael, sut y cânt eu storio, eu cadw'n ddiogel a chael gafael arnynt yn rhwydd.

## RHEOLI, CEFNOGI A DATBLYGU STAFF

Yn ogystal â rheolaeth dda, mae darparu gofal o ansawdd da i blant a phobl ifanc yn dibynnu ar grŵp o staff craidd sydd â'r cymwysterau, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Mae cefnogaeth a hyfforddiant parhaus hefyd yn hanfodol i sicrhau bod yr aelodau staff hyn wedi'u hyfforddi ar gyfer y swyddogaeth llawn boddhad ond heriol hon. Mae llawer o gartrefi'n gweithredu'n dda yn y cyd-destun hwn.

> *Roedd tystiolaeth fod y staff yn dilyn cyfnod o hyfforddiant sefydlu a drefnwyd yn dda, pan oedd yn rhaid dilyn hyfforddiant craidd er mwyn cwblhau'r cyfnod prawf*
>
> *Arolygydd, cartref plant*

Fodd bynnag, roedd rhai materion o bwys i'w nodi:

- Gwelwyd dirywiad pellach o ran lefelau staffio digonol. Teimlwyd nad oedd digon o staff mewn 44% o gartrefi, gan barhau gyda'r gostyngiad bychan ond graddol o flwyddyn i flwyddyn.
- Cafwyd pryderon parhaus hefyd ynglŷn â phrosesau recriwtio ac addasrwydd y staff, ac roedd gofynion yn ymwneud â hyn mewn 49% o gartrefi, o'i gymharu â 33% y llynedd.

Roedd materion penodol yn canolbwyntio ar:

- Bryderon ynglŷn â'r dystiolaeth sydd ar gael i ddangos arfer recriwtio diogel a phriodol;
- Diffyg cymwysterau, sgiliau a phrofiad priodol o ran y staff gofal i wneud y swydd. Nid yw grwpiau staff mewn ychydig o dan 40% o gartrefi yng Nghymru yn bodloni'r safonau cymhwyster a bennwyd gan y safonau gofynnol cenedlaethol h.y. 80% gyda NVQ lefel 3 mewn gofal neu gymhwyster cyfwerth;
- Roedd gwelliant bychan yn y gefnogaeth sydd ar gael i'r staff e.e. goruchwyliaeth a gwerthusiad ar gael a chymorth i ddilyn hyfforddiant parhaus. Roedd 48% o'r cartrefi yn bodloni'r gofynion hyn, sef cynnydd o 2%. Mae'r tueddiad bychan ond graddol o welliant yn parhau, ond mae'n faes allweddol sydd angen sylw parhaus.

Mae'r gofynion newydd i gartrefi plant a gynhwysir yn *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell* hefyd yn berthnasol i'r staff, a dylent fod yn gyfrwng i weld gwelliant sylweddol yn y maes hwn dros gyfnod. Mae'r darpariaethau yn cynnwys gofyniad ychwanegol i reolwyr a darparwyr gefnogi'r staff i gyflawni'r cymwysterau craidd.

### YR AMGYLCHEDD FFISEGOL A RISG I IECHYD A DIOGELWCH

Fel y llynedd, mae dwy ran o dair o gartrefi yn bodloni'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd ffisegol a diogelwch rhag tân, sef bod y safle mewn cyflwr ffisegol da, yn lân, wedi'i addurno'n ddymunol, gyda dodrefn a chyfarpar addas, ac yn bodloni'r gofynion diogelwch rhag tân. Yn y 33% o'r cartrefi sy'n weddill, ceir pryderon o hyd ynglŷn ag ansawdd y safle neu'r dodrefn a'r gosodiadau. Mae'r pryderon ynglŷn â'r trefniadau diogelwch rhag tân yn ymwneud â hyfforddiant staff yn bennaf.

## Amddiffyn plant a chwynion

### AMDDIFFYN PLANT


Mae amddiffyn plant mewn cartrefi plant yn faes allweddol y mae ASGC yn canolbwyntio arno. Mae angen ystyried tor-rheoliadau posibl wrth ymdrin ag unrhyw bryder amddiffyn plant mewn cartref plant. Gweithiodd ASGC o fewn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan sydd wedi'u mabwysiadu gan bob Bwrdd Lleol Diogelu Plant yng Nghymru. Pe canfyddir

pryderon yn ystod arolygiad, cânt eu hatgyfeirio i'r asiantaethau statudol, yr awdurdodau lleol a'r heddlu i ymchwilio iddynt.

Ochr yn ochr â'r asiantaethau statudol, swyddogaeth ASGC yn yr ymchwiliadau hyn yw ymdrin yn benodol ag unrhyw faterion rheoleiddio sy'n codi.

Rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2007, hysbyswyd ASGC am 112 o bryderon amddiffyn plant a oedd yn ymwneud â thros 128 o blant a phobl ifanc mewn cartrefi plant. Mae hyn yn gynnydd ar y pryderon yr hysbyswyd amdanynt yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac mae'n ymddangos bod hyn yn adlewyrchu gwell arfer o ran hysbysu.

Cyfran y pryderon amddiffyn plant yn 2006-07 yn ôl categori




Mae'r siart flaenorol yn dangos ystod y pryderon y tynnwyd sylw ASGC atynt, ac mae'r rhai mwyaf cyffredin o'r rhain yn deillio'n bennaf o:

- Ymddygiad tuag at neu gan blant sy'n eu rhoi hwy neu eraill, gan gynnwys plant eraill, mewn perygl. Gallai hyn fod yn gorfforol, yn rhywiol neu o ganlyniad i gysylltiad ag oedolion eraill yn y gymuned a allai achosi perygl;
- Honiadau sy'n deillio o reoli ymddygiad, gan gynnwys ataliad corfforol;
- Pryderon ynglŷn ag agwedd neu ymddygiad y staff a'r rheolwyr.

Nid yw rhai o'r pryderon yr hysbyswyd amdanynt yn ymwneud â'r gwasanaeth a ddarperir, ac felly nid oes angen i ASGC gymryd unrhyw gamau. Fodd bynnag, roedd ASGC yn weithgar mewn 69 o'r materion yr hysbyswyd amdanynt, gan gymryd camau dilynol yn sgil rhai ohonynt. Roedd hyn yn cynnwys dilyniant ffurfiol gyda darparwyr a rheolwyr dan brosesau gorfodi a oedd yn cynnwys cyflwyno gofynion i sicrhau bod newidiadau yn cael eu gwneud.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos gwelliant pellach mewn atgyfeirio materion sy'n peri pryder i'r rheoleiddiwr, fel sy'n ofynnol. Bydd awdurdodau lleol ac AGGCC yn parhau i gydweithio i sicrhau bod trefniadau cadarn wedi'u sefydlu, o fewn y cylch gwaith a bennwyd gan y canllawiau newydd ar gyfer Byrddau Lleol Diogelu Plant.

## *Cwynion*

Derbyniodd ASGC 15 cŵyn ynglŷn â chartrefi plant cofrestredig, gyda rhai ohonynt yn ymwneud â mwy nag un agwedd. Mae hyn yn unol â lefelau y llynedd i raddau helaeth. Roedd y materion yn cynnwys:

- Y gofal a dderbyniwyd - ymatebolrwydd y gwasanaeth, goruchwyliaeth, defnyddio asesiad risg;
- Staffio - niferoedd, agwedd, hyfforddiant;
- Rheolaeth - damweiniau a digwyddiadau, diffyg trefn dda.

Yn unol â'r newidiadau i'r rheoliadau ar gyfer cwynion a oedd yn cryfhau swyddogaeth datrys cŵyn yn lleol, atgyfeiriwyd naw o'r rhain i'r darparwr er mwyn iddo roi sylw iddynt. Ymdriniodd ASGC â'r chwech a oedd yn weddill.

Unwaith eto eleni, er bod y niferoedd yn fychan ac nad oes cydberthynas benodol rhyngddynt, ceir rhywfaint o gyfatebiaeth rhwng y cwynion a wnaed a rhai o'r pryderon a amlygwyd yn y dadansoddiad cyffredinol o ansawdd gwasanaeth.

### ASTUDIAETH ACHOS - CYDWEITHIO I GYFLAWNI NEWID

*Roedd yr arolygydd yn pryderu am y diffyg gwelliant mewn cartref plant, lle nad oedd gofynion a wnaed yn yr adroddiadau arolygu wedi'u bodloni dros gyfnod o ddwy flynedd. Roedd y cartref yn adnodd arbenigol i blant ag anableddau difrifol ac yn rhan bwysig o'r ystod o wasanaethau a gynigir.*

*Dywedwyd wrth y darparwr a'r rheolwr yn ffurfiol bod y diffyg gwelliant yn codi cwestiynau ynglŷn â'u haddasrwydd i ddarparu'r gwasanaeth. Cytunwyd ar gynllun cydymffurfio a oedd yn nodi'r camau angenrheidiol a'r amserlenni. Cafwyd rhaglen o gyfarfodydd bob tri mis yn dilyn hyn, lle'r oedd yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn cyfarfod â'r arolygydd i gyflwyno adroddiad ar y camau yr oeddynt wedi'u cymryd. Cytunwyd ar gamau angenrheidiol pellach ac amserlenni eglur yn y cyfarfodydd hyn. Cynhaliodd yr arolygydd ymweliad dirybudd ar ôl pob cyfarfod i fonitro a chael adborth pellach.*

*Gwnaed cynnydd sylweddol erbyn diwedd y broses. Roedd yr arolygydd yn teimlo, er y bu'r broses yn anodd ar adegau, ei bod wedi gweithio'n dda er mwyn symbylu ac ysgogi'r darparwr a'r rheolwr i barhau i ddatblygu'r gwasanaeth.*

## Goblygiadau

Mae'r dadansoddiad yn dangos er y ceir agweddau da ar y gofal a ddarperir mewn cartrefi plant ac agweddau eraill sydd wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ceir rhai meysydd allweddol o hyd sy'n peri pryder sylweddol. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf ag arwain a rheoli cartrefi, cynllunio ar gyfer unigolion a rhai agweddau ar arfer gofal. Mae rhai o'r cartrefi yn dda, ond mae tipyn o waith i'w wneud o hyd er mwyn i bob gwasanaeth fod yn dderbyniol ac i'r profiad preswyl fod o ansawdd sy'n gyson dda i'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn ledled Cymru.

Mae cyflwyno'r rheoliadau newydd a'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer cartrefi plant yng Nghymru yn 2002 wedi bod yn sail i'r gwelliannau i'r gwasanaeth ac wedi galluogi'r arolygiaeth a'r rhai sy'n llunio polisïau, darparwyr a rhan-ddeiliaid eraill i ddeall pa gamau pellach sy'n ofynnol.

Cadarnhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y flaenoriaeth i wella bywyd plant a phobl ifanc mewn gofal preswyl pan mai hynny yw'r dewis priodol o leoliad ar eu cyfer.

Bydd yr arolygiaeth yn parhau i gyfrannu drwy sicrhau bod ei gwaith yn gymesur ac wedi'i dargedu'n briodol. Bu newidiadau sylweddol i arfer rheoleiddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, gyda newidiadau allweddol i'r gofynion cyfreithiol ar gyfer darparwyr yn cefnogi rhai ohonynt. Roedd y rhain yn cynnwys atgyfnerthu cyfrifoldeb y darparwyr dros ansawdd gwasanaeth drwy roi mwy o bwyslais ar hunanasesu a sicrhau ansawdd. Mae'r rhain yn cael eu sefydlu, ond byddant yn cael mwy o effaith yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf. Mae'r arolygiaeth hefyd yn ymrwymedig i barhau i ddatblygu ei phrosesau rheoleiddio.

Mae'r polisi *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007) yn darparu elfennau ychwanegol pwysig i'r fframwaith y mae'n rhaid i gartrefi plant weithredu oddi mewn iddo. Mae'r Mesur Plant sydd ar ddod a Deddf Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfleoedd i wneud newidiadau pellach i'r fframwaith hwn, ac ar gyfer plant 'sy'n derbyn gofal' yn gyffredinol, o fewn cyd-destun y strategaeth *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007) a'r strategaeth benodol ar gyfer gwasanaethau plant a fydd yn dilyn. Mae'n bwysig bod cydweithwyr polisi yn parhau i drafod gyda phob rhan-ddeiliad er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd hyn.

Effaith gyfyngedig fydd i'r newidiadau polisi, y disgwyliadau cyfreithiol a'r rheoleiddio mwy penodol. Y darparwyr a'r comisiynwyr sydd mewn sefyllfa ganolog i wella ansawdd gwasanaethau preswyl i blant yng Nghymru.

Bydd y sector ei hunan yn dymuno ystyried sut y gall gyfrannu orau at wella ansawdd a chysondeb yn ogystal â datblygu a rhannu arfer gorau mewn ffordd barhaus. Nid oes gan Gymru grŵp cyfeirio cadarn, ar draws pob sector ar gyfer gofal preswyl i blant, a gallai hyn fod yn un ffordd o gefnogi hyn. Gellir gwella'r trafod rhwng y llywodraeth â'r arolygiaeth yn sylweddol os datblygir llais cryf o ran darparwyr gofal preswyl i blant yng Nghymru.

Mae comisiynu gwasanaethau plant yn parhau i ddatblygu. Sefydlwyd yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant, a thros gyfnod bydd ei swyddogaeth yn datblygu o gefnogi llunio lleoliadau unigol i swyddogaeth fwy strategol. Mae'r ffaith fod cyfran sylweddol o leoliadau mewn cartrefi plant Cymru yn cael eu comisiynu gan awdurdodau lleol nad ydynt yng Nghymru yn ychwanegu elfen bellach, a bydd angen ymchwilio yn llawn i oblygiadau hyn.

# GWASANAETHAU MAETHU



## TROSOLWG

Hon yw'r drydedd flwyddyn i ni gyflwyno adroddiad ar wasanaethau maethu yng Nghymru.

Mae nifer y gwasanaethau maethu a chyfansoddiad y sector yn parhau i fod fwy neu lai yr un fath, gyda chyfanswm o 46 gwasanaeth maethu yng Nghymru, gyda 24 ohonynt yn y sector annibynnol.

Canfu'r dadansoddiad welliant mewn ystod o feysydd gan gynnwys:

- Datganiadau o ddiben a chanllawiau plant
- Hyfforddi, goruchwylio a gwerthuso staff
- Diogelu a hyrwyddo lles y plant a leolir
- Addasrwydd gofalwyr
- Cefnogaeth i ofalwyr er mwyn cynnal lleoliadau
- Trefniadau diogelwch ar gyfer cadw cofnodion

Mae'r meysydd sydd angen eu gwella'n sylweddol yn cynnwys:

- Y broses ar gyfer recriwtio a dewis staff
- Cytundebau gofal maeth rhwng y gwasanaeth a'u gofalwyr
- Cytundebau lleoliad maeth rhwng awdurdodau lleoli a gofalwyr
- Adolygu addasrwydd gofalwyr maeth
- Hyfforddiant i ofalwyr
- Cofnodion achos gofalwyr maeth

Archwiliodd ASGC rai agweddau ar weithgareddau lleoli am y tro cyntaf.

Mae nifer y pryderon amddiffyn plant yr hysbyswyd ASGC amdanynt wedi cynyddu, sy'n adlewyrchu gwell trefniadau hysbysu. Mae nifer y cwynion wedi cynyddu rhywfaint hefyd.

Prin fu'r camau gorfodi ffurfiol. Mae ASGC wedi parhau i rannu gwybodaeth gydag Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) ynglŷn â gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, a bu iddynt gydweithio mewn un gwasanaeth awdurdod lleol.

> *Mae'r gwasanaeth maethu hwn..... yn sefydliad llawn dychymyg a blaengar, sy'n ystyried bod lles y plant a'r bobl ifanc y mae'n gofalu amdanynt yn hollbwysig. Roedd y sefydliad yn parhau i gael ei redeg yn effeithiol ac yn effeithlon, ac roedd wedi'i drefnu'n dda.*
>
> *Arolygydd, gwasanaeth maethu*


## Proffil y sector

Mae ASGC wedi rheoleiddio gwasanaethau maethu awdurdodau lleol a gwasanaethau maethu annibynnol ers 2003. Mewn amgylchiadau penodol, rhaid cofrestru ac arolygu swyddfeydd ar wahân o fewn yr un gwasanaeth maethu yn unigol, sy'n golygu bod cyfanswm nifer y gwasanaethau rheoledig yn fwy na chyfanswm nifer y gwasanaethau maethu yng Nghymru.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2007, roedd 46 gwasanaeth maethu yng Nghymru, sef un yn llai na'r flwyddyn flaenorol gan fod un gwasanaeth awdurdod lleol arbenigol wedi'i gynnwys yng ngwasanaeth maethu prif ffrwd yr awdurdod. Mae gan bob awdurdod lleol ei wasanaeth 'mewnol' ei hunan. Mae prif swyddfa nifer sylweddol o'r asiantaethau maethu annibynnol (AMA) yng Nghymru ar hyd coridor yr M4, ond mae eu gofalwyr wedi eu gwasgaru ar hyd a lled Cymru.

Mae'r siart ganlynol yn dangos cyfansoddiad y sector:

Cyfansoddiad y sector maethu o 2005-07



Mae Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Cymru 2003 a'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Maethu yn darparu'r fframwaith ar gyfer cynnal gwasanaethau maethu. Mae'r un fframwaith yn berthnasol i wasanaethau awdurdodau lleol a'r rhai a ddarperir gan y sector gwirfoddol neu'r sector preifat.

Hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r trefniadau ar gyfer lleoli plant mewn gwasanaethau maethu gael eu harolygu gan ASGC. Mae hyn yn galluogi canolbwyntio'n benodol ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol a'u pwerau i ddirprwyo rhai o'r cyfrifoldebau hyn i asiantaethau maethu annibynnol.

Caiff y rhan fwyaf o blant 'sy'n derbyn gofal' eu lleoli mewn gofal maeth ar ryw adeg, ac mae'n hanfodol bod y gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae ystod o leoliadau ar gael gan gynnwys gofal hirdymor a byr dymor, lleoedd i fam a'i phlentyn, grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd, gwasanaethau seibiant byr, lleoedd i bobl ifanc ar remand, a lleoli gyda theulu a ffrindiau.

## *Arolygiaethau yn cydweithio*

Roedd ASGC ac AGCC yn cydweithio i arolygu gwasanaethau maethu yn ystod 2006-07, pan oedd hynny'n briodol.

> *"Cynhaliwyd gwaith llwyddiannus mewn partneriaeth â'r tîm cydadolygiadau a'r cyngor bwrdeistref sirol. Roedd hyn yn cynnwys cynllunio a chyfleoedd gwerthuso, adborth dros dro, trafodaethau a safbwyntiau a rennir ar ansawdd y gwasanaethau a oedd yn cael eu harolygu. Mynychodd arolygwyr gyfarfodydd perthnasol gyda'i gilydd ar draws y ddarpariaeth gwasanaeth, a threfnu cyfarfod grŵp gyda phobl ifanc."*
>
> *Arolygydd, gwasanaethau plant*

Drwy gyfuno i greu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o fis Ebrill 2007 ymlaen, ceir cyfleoedd i ymestyn a datblygu'r arfer hwn. Mae'n debygol y bydd gwasanaethau maethu yn un o'r meysydd lle cychwynnir mwy o waith integredig yn gynnar.

## Ansawdd y gwasanaeth

Mae canfyddiadau eleni yn seiliedig ar ddadansoddi 87% o'r holl wasanaethau maethu yng Nghymru, ac mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan ddefnyddio'r prif feysydd arolygu.

Mae gwasanaethau maethu yn parhau i gael eu rhedeg yn dda gan fwyaf, a gwelwyd gwelliannau mewn rhai meysydd. Mae angen datblygu meysydd eraill o hyd;
mae'r dadansoddiad yn amlinellu'r meysydd allweddol hyn ac yn darparu enghreifftiau o'r arfer da a welwyd.

## *Datganiad o ddiben a chanllaw plant*

Mae'n ofynnol i bob gwasanaeth maethu ddarparu datganiad eglur a chyfredol o'i nodau, a chanllaw plant mewn fformat priodol. Bydd y canllaw yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben a gwybodaeth berthnasol arall e.e. sut y gall plant gwyno neu ddefnyddio eiriolwr annibynnol.

- Roedd gan 90% o'r gwasanaethau ddatganiad o ddiben a oedd yn bodloni'r rheoliadau, sef gwelliant o 13% ers y llynedd;
- Roedd gan 80% o'r gwasanaethau ganllawiau plant cyfredol, sef gwelliant o 11%. Gwelodd yr arolygwyr nifer o enghreifftiau o ganllawiau plant creadigol a oedd wedi'u datblygu mewn gwahanol fformatau a chan ddefnyddio gwahanol gyfryngau e.e. CD Rom, symbolau 'widgit' a darluniadau sy'n apelio at yr ystod eang o blant mewn lleoliadau maeth.

Pan nad oedd y dogfennau hyn yn bodloni'r hyn sy'n ofynnol yn llawn, roedd hyn yn ymwneud â'r dogfennau oedd ar gael a/neu eu cywirdeb, neu'r ffaith eu bod mewn fformat drafft neu fod angen eu hadolygu.

## *Rheoli a staffio*

Rhaid i'r bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth maethu neu ar ei ran fod yn addas i weithio gyda phlant a phobl ifanc, a dylid eu rheoli, eu hyfforddi a'u cefnogi i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant mewn gofal maeth. Rhaid cydweddu nifer y staff ac ystod eu cymwysterau a'u profiad gyda bwriad a swyddogaeth benodedig y gwasanaeth yn ogystal.

- Roedd gan bob rheolwr presennol gymhwyster addas e.e. mewn gwaith cymdeithasol, ac roedd gan 50% hefyd y cymwysterau rheoli angenrheidiol. Yn debyg i'r llynedd, roedd angen i 23% o wasanaethau wella'r hyfforddiant sydd ar gael i'w rheolwyr er mwyn iddynt allu datblygu/cynnal y sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu tasgau rheoli;
- Dywedwyd bod gan 90% o wasanaethau maethu lefelau staffio digonol, sef cynnydd o 5%;
- Roedd gan bron pob gwasanaeth ddisgrifiadau swydd perthnasol ar gyfer y staff, cyfnodau prawf priodol a gweithdrefnau disgyblu;
- Roedd 85% o'r gwasanaethau yn darparu hyfforddiant, goruchwyliaeth a gwerthusiad priodol i'r staff, sy'n dangos gwelliant o 20% ers y llynedd;
- Ni welwyd gwelliant yn nifer y gwasanaethau sy'n cwblhau'r holl archwiliadau gofynnol i brofi addasrwydd person i weithio gyda phlant a phobl ifanc. Mewn 37% o wasanaethau, ni ellid gweld tystiolaeth o brosesau recriwtio boddhaol megis tystlythyrau nac archwiliadau SCT cyfredol. Un broblem benodol a oedd yn parhau i beri pryder oedd methiant rhai adrannau adnoddau dynol awdurdodau lleol i ddeall y gofynion penodol ar gyfer penodi staff, a gynhwysir yn y rheoliadau maethu.

## *Adolygu ansawdd gofal*

Hyd at fis Ionawr 2007, roedd y sail gyfreithiol ar gyfer adolygu ansawdd gofal yn wahanol rhwng gwasanaethau'r sector cyhoeddus a gwasanaethau annibynnol, gyda gorfodaeth gyfreithiol ar wasanaethau'r sector annibynnol yn unig i gael system. Ers hynny, mae'n ofynnol i bob gwasanaeth maethu adolygu ei ansawdd gofal yn flynyddol.

- Roedd 65% o'r holl wasanaethau wedi datblygu neu'n gwneud cynnydd da wrth ddatblygu systemau effeithiol i adolygu eu gwasanaeth. Gwelwyd ymagwedd greadigol ac ymrwymiad rhagorol gan rai i ymgynghori'n effeithiol â'r plant a leolir, gofalwyr maeth a phlant y gofalwyr maeth eu hunain;
- O fewn hyn, roedd gan 78% o wasanaethau annibynnol a 58% o awdurdodau lleol systemau digonol. Mae'r ddau yn welliant ar y blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn darparu gwaelodlin dda, ac un y gall y sector statudol yn arbennig, ei datblygu i fodloni ei rhwymedigaethau newydd.

Mae'r newid i'r sail gyfreithiol ar gyfer adolygu ansawdd gofal yn gosod gofyniad ychwanegol ar y ddau sector e.e. i ymgynghori'n effeithiol a chyflwyno adroddiad yn flynyddol. Byddwn yn monitro sut y bydd hyn yn datblygu.

## *Diogelu a hyrwyddo lles plant a leolir*

Prif ddiben gwasanaethau maethu yw diogelu a hyrwyddo lles y plant a leolir gyda gofalwyr, gan eu cadw'n ddiogel a'u galluogi i barhau i ddatblygu a chyflawni eu potensial. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod gan wasanaethau maethu, yn gyffredinol, ymrwymiad eglur i gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo lles plant, a'u bod wedi gwella trefniadau iechyd ac addysg.

Amlygwyd nifer o enghreifftiau o arfer da mewn adroddiadau arolygu, a oedd yn cynnwys:

- Mentrau ymgynghori a oedd yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc a leolir i fynegi eu safbwyntiau ar ansawdd y gofal y maent yn ei dderbyn a'r gwasanaeth a ddarperir e.e. diwrnodau gweithgareddau, grwpiau cyfranogiad, cylchlythyrau. Roedd hyn hefyd yn cynnwys datblygu adnoddau priodol i ganfod safbwyntiau plant iau a'r rhai ag anghenion ychwanegol;
- Datblygu prosesau asesu risg ar gyfer cartrefi gofalwyr maeth, o ran trefniadau cyswllt ac anghenion plant unigol;
- Grwpiau cymorth i blant gofalwyr maeth eu hunain;
- Paratoi i fod yn oedolyn a chysylltiadau da gyda thimau 'gadael gofal';
- Yr ystod eang o gyfleoedd hamdden a ddarperir i blant a leolwyd.

Gwelwyd gwelliannau mewn trefniadau iechyd ac addysg, gan fodloni'r rheoliadau mewn 87% a 92% o wasanaethau yn y drefn honno.

- Ceir enghreifftiau o ganlyniadau iechyd cadarnhaol i blant, yn enwedig mewn gwasanaethau sydd â nyrsys 'plant sy'n derbyn gofal' (LAC) ar gael;
- Gwelwyd gwell canlyniadau o ran addysg plant, yn enwedig pan fo gweithiwr addysg penodedig wedi'i benodi yn y gwasanaeth a/neu pan fo cysylltiadau cryf â'r cydgysylltydd addysg LAC.

Mae gofalwyr maeth yn parhau i fod yn rhan ganolog o alluogi plant i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, pan fo hyn er lles gorau'r plentyn.

- Mae 92% o wasanaethau yn cyflawni'r ymrwymiad hwn yn dda.

Mae trefniadau amddiffyn plant mewn gwasanaethau maethu wedi gwella rhywfaint, gydag 87% o wasanaethau yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol erbyn hyn.

- Gwelwyd gwelliannau mewn cadw cofnodion amddiffyn plant; darparu canllawiau gofalu diogel i ofalwyr, a'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar gael o ran rheoli ymddygiad, bwlio a phlant sy'n mynd ar goll;
- Mae angen gwella hyfforddiant amddiffyn plant i ofalwyr maeth mewn 13% o wasanaethau, yn enwedig hyfforddiant sydd ar gael ar adegau ac mewn ffordd sy'n briodol i'r gofalwyr.

Mae gan blant, rhieni, gofalwyr, staff ac eraill sy'n rhan o'r gwasanaeth maethu yr hawl i wneud sylwadau neu gwynion. Mae'r rheoliadau newydd a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2007 wedi diwygio'r hyn sy'n ofynnol, a bydd yn rhaid i wasanaethau ddiweddaru eu gweithdrefnau i ystyried y rhain.

- Mae gan bob gwasanaeth weithdrefn gwyno;
- Nid oedd gan 10% o wasanaethau system gadarn ar gyfer cofnodi cwynion a'u canlyniadau.

## *Darparu a chefnogi gofalwyr*

Ni chaiff gwasanaethau maethu weithredu oni bai eu bod yn recriwtio ac yn cymeradwyo gofalwyr maeth. Bydd prosesau asesu cadarn yn sicrhau bod y bobl hynny y maent yn eu cymeradwyo yn addas i weithio gyda phlant a bod ganddynt y sgiliau i fodloni anghenion amrywiol plant a phobl ifanc.

- Mae 95% o wasanaethau bellach yn cadw'r gofrestr ofynnol o ofalwyr maeth, sy'n welliant o 10% ers y llynedd;
- Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn parhau i ddefnyddio'r asesiad safonol yn seiliedig ar gymhwyster ar gyfer darpar ofalwyr yn ogystal â'r hyfforddiant 'Sgiliau i Faethu' cyn eu cymeradwyo;
- Mae'r trefniadau i archwilio addasrwydd gofalydd wedi gwella ers y llynedd, er bod angen i 15% o wasanaethau wneud mwy o waith er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau. Mae angen i'r gwasanaethau hyn wella'r ffordd o ddangos eu bod yn cynnal yr holl archwiliadau priodol, gan gynnwys archwiliadau'r SCT, fel sy'n ofynnol;

- Cynhelir cyfarfodydd paneli maethu ar wahanol gyfnodau, yn dibynnu ar faint y gwasanaeth(au) sy'n eu defnyddio. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gweithredu'n effeithiol iawn, er bod angen i 13% newid neu adolygu aelodaeth eu panel;
- Dylid cyflwyno hysbysiadau ysgrifenedig i ofalwyr ar ôl eu cymeradwyo a'u hadolygu; mae hyn wedi gwella ers y llynedd, gyda 92% o'r gwasanaethau yn cydymffurfio â hyn;
- Contract cyffredinol rhwng y gwasanaeth maethu â'r gofalydd yw'r cytundeb gofal maeth. Yn debyg i'r llynedd, roedd angen i 33% o'r gwasanaethau wella'r trefniadau hyn, yn bennaf er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol gan gynnwys llofnod y gofalwyr;
- Gallai 18% o wasanaethau wella'r wybodaeth a ddarperir i ofalwyr, naill ai parthed plant penodol neu bolisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth;
- Cafwyd pryderon mewn 33% o wasanaethau ynglŷn â'r broses o adolygu cymeradwyaeth gofalwyr maeth; y pryder mwyaf cyffredin oedd na chynhelir yr adolygiadau yn flynyddol fel sy'n ofynnol, ac roedd angen gwella'r ymgynghori a gynhelir i gyfrannu at lunio'r adolygiad;
- Dywedodd y gofalwyr maeth yn y rhan fwyaf o wasanaethau eu bod yn fodlon â'r gefnogaeth a ddarperir gan y gwasanaeth; ystyriwyd bod angen gwelliannau mewn 15% o'r gwasanaethau, yn arbennig o ran y gefnogaeth a ddarperir y tu allan i oriau arferol. Roedd amlder ymweliadau goruchwylio yn amrywio'n sylweddol rhwng gwasanaethau;
- Roedd adroddiadau'n datgan bod 50% o wasanaethau yn ymrwymo i ddarparu hyfforddiant NVQ i ofalwyr. Yn gyffredinol, roedd angen datblygu hyfforddiant mewn 30% o'r gwasanaethau, yn arbennig yr angen i sicrhau bod pob gofalydd maeth yn mynychu hyfforddiant craidd.

## *Teulu a ffrindiau yn ofalwyr*

Roedd ffrindiau a theulu wedi'u cymeradwyo fel gofalwyr ar gyfer plant penodedig mewn dros 50% o'r gwasanaethau, a gwasanaethau maethu awdurdodau lleol oedd y rhan fwyaf o'r rhain. Dywedodd nifer o awdurdodau lleol fod y maes hwn yn tyfu, ond dywedodd eraill y bu gostyngiad yn y niferoedd oherwydd cynnydd yn y defnydd a wneir o orchmynion preswylio.

- Roedd enghreifftiau o arfer da yn cynnwys cyflogi aelodau staff penodedig i gefnogi gofalwyr sy'n ffrindiau a theulu; digwyddiadau hyfforddi penodol, a datblygu llawlyfr gofalydd a chanllaw plant penodol mewn un gwasanaeth;
- Yn ystod y chwe mis o archwilio'r trefniadau penodol hyn, nododd cyfran uchel o wasanaethau awdurdod lleol eu bod yn ei chael yn anodd bodloni'r cyfnod asesu gofynnol o chwe wythnos ar gyfer gofalwyr sy'n ffrindiau a theulu.

## *Gwasanaethau seibiant byr*

Math penodol o wasanaeth maethu yw seibiannau byr, lle y mae'r plentyn yn parhau i fod dan ofal ei deulu, gyda'r gwasanaeth yn darparu seibiant a chymorth sylweddol. Mae teuluoedd sydd â phlant ag anghenion ychwanegol yn defnyddio'r math hwn o wasanaeth yn helaeth.

Mae naw asiantaeth maethu annibynnol wedi'u cofrestru'n benodol i ddarparu gwasanaethau maethu seibiant byr i blant ag anableddau. Mae'r rhain yn cynrychioli bron i 20% o'r holl wasanaethau maethu yng Nghymru. Yn ogystal, mae gan bob awdurdod lleol drefniadau i ddarparu gwasanaethau seibiant byr, er bod y rhain yn amrywio'n sylweddol o ran maint, a bod gan rai gytundeb ag asiantaethau annibynnol i ddarparu gwasanaethau o'r fath.

- Roedd enghreifftiau o arfer da yn y gwasanaethau hyn yn cynnwys asesiadau therapi galwedigaethol o gartrefi gofalwyr, darparu addasiadau a chyfarpar i fodloni anghenion canfyddedig plant, hyfforddiant arbenigol a staff cymorth penodedig.

## Safle a chofnodion

Fel y gwelwyd y llynedd, roedd 90% o safleoedd swyddfa gwasanaethau maethu yn addas i'w dibenion. Pan nad oedd hyn yn wir, roedd y rhesymau'n cynnwys gorlenwi, mynediad gwael neu ddiffyg cyfleusterau i gadw ffeiliau. Roedd y trefniadau diogelwch o ran cadw cofnodion wedi gwella'n sylweddol ym mhob gwasanaeth.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer cadw cofnodion yn rhan hanfodol o wasanaeth diogel o ansawdd da, ac mae'n ofynnol i wasanaethau maethu gadw ystod o gofnodion rhagnodedig. Roedd y dadansoddiad yn dangos gwelliannau cyffredinol mewn cadw cofnodion ers y llynedd, er ei bod yn ofynnol gwella'r canlynol o hyd:

- Cofnodion achos gofalwyr maeth mewn mwy na chwarter y gwasanaethau;
- Cofnodion cwynion mewn 10% o wasanaethau.

## Lleoliadau

Mae rhan V o Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 yn ymwneud â lleoli plant, ac arolygwyd hyn gan ASGC am y tro cyntaf yn ystod ail hanner blwyddyn arolygu 2006-07. Mae'r arsylwadau canlynol yn seiliedig ar y canfyddiadau o'r gwasanaethau maethu lle yr arolygwyd hyn h.y. mewn ychydig dan hanner yr holl wasanaethau.

- Roedd pob awdurdod lleol wedi trefnu lleoliadau gyda gofalwyr maeth cymeradwy, ar wahân i'r rhai a oedd yn rhan o'r trefniadau ar gyfer lleoliadau mewn argyfwng neu ar unwaith. Gwelwyd tystiolaeth gychwynnol o wneud rhai lleoliadau y tu allan i delerau cymeradwyo'r gofalydd neu baru gwael a arweiniodd at derfynu lleoliadau;
- Mae'n ofynnol i awdurdodau lleoli roi gwybodaeth lawn i ofalwyr ynglŷn â phlentyn cyn ei leoli er mwyn iddynt allu bodloni anghenion canfyddedig y plant a chadw plant eraill yn y cartref yn ddiogel. Ceir tystiolaeth fod gwasanaethau wedi fod yn rhagweithiol wrth geisio datblygu systemau i sicrhau hyn, a gwelwyd gwelliannau yn ansawdd y 'cytundebau lleoliad maeth' a'r nifer ohonynt sydd ar gael. Fodd bynnag, mae angen gwella hyn o hyd mewn 37% o wasanaethau;

- Pan fo angen lleoli plentyn mewn argyfwng neu ar unwaith gyda gofalydd cymeradwy neu berson sy'n berthynas neu'n ffrind i'r plentyn, rhaid llunio cytundeb ysgrifenedig penodol gyda'r awdurdod lleol. Nid oedd nifer o wasanaethau maethu awdurdodau lleol wedi sefydlu'r cytundebau hyn;
- Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleoli ymweld â phlentyn mewn lleoliad maeth fel a bennir yn y rheoliadau maethu. Dylid gweld y plentyn ar ei ben ei hun ac ysgrifennu adroddiad yn dilyn hynny. Canfu'r dadansoddiad cychwynnol na chynhelir ymweliadau â phlant a leolir fel sy'n ofynnol mewn 28% o'r gwasanaethau, gan gynnwys plant sy'n defnyddio gwasanaethau seibiant byr a lleoliadau mewn argyfwng neu ar unwaith;
- Pan fo awdurdodau lleol yn lleoli plant gyda darparwr gwasanaeth maethu annibynnol (AMA) mae'n rhaid iddynt gael cytundeb ysgrifenedig gyda'r gwasanaeth hwnnw. Mae hon yn ddogfen gyfreithiol sy'n galluogi'r awdurdod i leoli plentyn gyda rhieni maeth a gymeradwywyd gan yr AMA. Nid oedd nifer o'r gwasanaethau maethu wedi sefydlu'r cytundeb gofynnol;
- Yn yr un modd, rhaid cael cytundeb unigol (contract) rhyngddynt sy'n manylu ar y trefniadau ar gyfer bob lleoliad. Nid oedd nifer sylweddol o'r gwasanaethau maethu yn gallu dangos bod trefniadau o'r fath wedi'u sefydlu.

## Amddiffyn plant a chwynion

Gwasanaethau maethu'r sector annibynnol yn unig sy'n gorfod hysbysu ASGC am ddigwyddiadau a chwynion amddiffyn plant, er bod rhai gwasanaethau maethu statudol wedi dewis gwneud hynny hefyd.

Hysbyswyd ASGC gan 11 o'r 22 o ardaloedd awdurdodau lleoli am 64 o ddigwyddiadau amddiffyn plant yn ystod 2006-07. O'r rhain, roedd dwy ran o dair ohonynt yn ymwneud â phryderon ynghylch camdriniaeth gorfforol. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers y flwyddyn flaenorol, sy'n fwy tebygol o adlewyrchu gwell trefniadau hysbysu na chynnydd mewn pryderon amddiffyn plant. Dim ond cyfran fechan iawn ohonynt yr oedd angen i ASGC gymryd camau dilynol yn eu cylch, gan nad oedd y pryderon yn ymwneud â rheoli na gweithredu'r gwasanaeth.

Yn ogystal, tynnwyd ein sylw at saith cŵyn yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â chwech yn ystod y flwyddyn flaenorol. Nid oedd hanner rhanbarthau ASGC wedi derbyn unrhyw gwynion ynglŷn â'r gwasanaethau maethu yn eu hardaloedd.

# GWASANAETHAU GOFAL DYDD I BLANT

Mae gofal dydd plant wedi'i gofrestru o fewn y categorïau gwasanaeth canlynol:

- Gwarchodwyr plant
- Gofal dydd llawn
- Gofal dydd sesiynol
- Gofal y tu allan i'r ysgol
- Crèches
- Chwarae mynediad agored

Mae'r un rheoliadau yn sail i bob un o'r meysydd gwasanaeth, ac mae gan bob un ohonynt eu cyfres eu hunain o safonau gofynnol cenedlaethol.

## TROSOLWG

Gwelwyd cynnydd cyffredinol bychan o 11 lleoliad yn y ddarpariaeth gofal dydd cofrestredig, ond roedd gostyngiad yn nifer y lleoedd oedd ar gael. Gwelwyd twf ym meysydd gwarchod plant a gofal dydd llawn, ond gostyngiad mewn gofal sesiynol, gofal y tu allan i'r ysgol, crèches a darpariaeth mynediad agored.

Yn gyffredinol, mae'r gwelliannau sylweddol a welwyd mewn ansawdd gwasanaethau gofal dydd mewn blynyddoedd blaenorol wedi parhau: mae ansawdd gwarchod plant, gofal dydd llawn, gwasanaethau sesiynol a'r tu allan i'r ysgol yn dda, ond nid yw ansawdd crèches a darpariaeth mynediad agored yr un mor gyson. Cafwyd effaith gadarnhaol iawn ar ansawdd gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn sgil cyflwyno'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol yn 2002.

Gwelwyd gwelliannau yn ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, yn enwedig o ran:

- Darparwyr yn hyrwyddo lles plant
- Prosesau cwyno effeithiol
- Systemau amddiffyn plant - heblaw am gynlluniau mynediad agored

Ar draws pob maes gwasanaeth, nodwyd mai'r meysydd cyffredin i'w gwella oedd:

- Rheoli risgiau
- Pan gyflogir staff: rheoli staff a chadw cofnodion, yn enwedig pan reolir lleoliadau yn wirfoddol.

Gwelwyd gostyngiad bychan pellach eleni yn nifer y cwynion a'r pryderon amddiffyn plant yr hysbyswyd ASGC amdanynt.

Parhaodd ASGC ac Estyn i gydweithio tuag at ymagwedd gydweithredol, gan geisio lleihau'r baich arolygu mewn lleoliadau cofrestredig nas cynhelir sy'n derbyn arian ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.

## Proffil y sector

Mae rhieni a gofalwyr plant dan wyth mlwydd oed yn defnyddio gwasanaethau gofal dydd am resymau amrywiol, efallai er mwyn hyfforddi neu fynd i'r gwaith, neu i ddatblygu profiadau cymdeithasol ac addysgol ar gyfer eu plant. Caiff plant dreulio naill ai gyfnodau byr neu ddiwrnod llawn mewn lleoliad. Dim ond gwasanaethau sy'n gweithredu am fwy na dwy awr ar y tro sy'n gorfod cofrestru.

Mae strategaeth gofal plant Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio sicrhau bod gofal plant:

- Yn cefnogi anghenion datblygu'r plant;
- Ar gael yn eang ac yn fforddiadwy, er mwyn galluogi rhieni i hyfforddi a gweithio;
- Yn rhoi hyblygrwydd a dewis i deuluoedd wrth gydbwyso ymrwymiadau teuluol, gwaith ac eraill, ar yr un pryd â hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yn y gweithle.

Gwarchod plant yw is-adran fwyaf gofal plant cofrestredig, ac mae'n cael ei ddarparu fel arfer gan berson unigol sy'n gweithredu mewn safle domestig. Gallai meithrinfeydd dydd fod yn fusnesau preifat, lleoliadau wedi'u rheoli yn y gymuned neu gan awdurdod lleol sy'n amrywio mewn maint rhwng 12 a 100 o leoedd gofal plant. Caiff y rhan fwyaf o leoliadau grŵp, sef gofal sesiynol neu ofal y tu allan i'r ysgol gan fwyaf, eu rheoli gan bwyllgorau rheoli gwirfoddol. Mae cynlluniau chwarae mynediad agored, a crèches i ryw raddau, yn wahanol, ac ni chânt eu defnyddio fel arfer yn yr un ffordd ar gyfer gofal plant. Yn hytrach fe'u defnyddir fel cymorth ychwanegol i deuluoedd e.e. crèche mewn canolfan hamdden/canolfan siopa neu chwarae strwythuredig yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae ystod y gwasanaethau yn rhoi dewis i rieni ynglŷn â'r gofal y maent yn dymuno ei gael ar gyfer eu plant i fodloni anghenion penodol y plentyn neu amgylchiadau teuluol, er mewn gwirionedd, ceir peth tystiolaeth i awgrymu y gall y dewis fod yn gyfyngedig i'r hyn sydd ar gael yn yr ardal lle mae pobl yn byw ac yn gweithio.

> *"O safbwynt darparwr y gwasanaeth, mae bob amser yn ddefnyddiol cael dadansoddiad gwrthrychol o ba mor dda y mae'r lleoliad yn bodloni'r safonau cenedlaethol. Roeddem yn teimlo bod ymagwedd yr arolygydd yn cefnogi hyn."*
>
> *Perchennog, meithrinfa ddydd*

Nifer y lleoliadau a'r lleoedd gofal dydd i blant 2003-07

| | 31/03/03 | 31/03/04 | 31/03/05 | 31/03/06 | 31/03/07 |
|---|---|---|---|---|---|
| Lleoliadau | 4494 | 4292 | 4306 | 4381 | 4392 |
| Lleoedd | 69710 | 71383 | 72856 | 72894 | 70681 |

Mae'r tabl yn dangos bod y golled wreiddiol o ran lleoliadau cofrestredig rhwng 2003 a 2004 yn parhau i gael ei gwrthbwyso gan welliant graddol yn nifer y lleoliadau. Fodd bynnag, nid yw'r twf cynyddol yn nifer y lleoedd wedi parhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cafwyd colled gyffredinol o 2,213 o leoedd cofrestredig neu 3%.

Mae mwy na 60% o'r colledion hyn mewn chwarae mynediad agored a crèches, ac fel yr amlinellir uchod, mae'r rhain yn chwarae rhan wahanol mewn cefnogi teuluoedd. Mae'r gwasanaethau hyn wedi'u cofrestru, ac mae'r un mor bwysig eu bod yn bodloni'r rheoliadau a'r safonau, ond nid yw natur y gwasanaeth yn canolbwyntio cymaint ar ddarparu gofal o ddydd i ddydd i blant. Ceir y colledion sy'n weddill mewn gofal y tu allan i'r ysgol a gofal sesiynol, ond mewn cyferbyniad â hyn, gwelwyd cynnydd yn nifer y lleoedd sydd ar gael gan warchodwyr plant ac mewn gofal dydd llawn.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y newidiadau yn nifer y lleoliadau a'r lleoedd gofal dydd i blant o gymharu 31 Mawrth 2006 â 31 Mawrth 2007 mewn meysydd gwasanaeth unigol.

| | Nifer y lleoliadau | | | Nifer y lleoedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 31/03/06 | 31/03/07 | Newid | 31/03/06 | 31/03/07 | Newid |
| Gwarchodwyr plant | 2324 | 2405 | 81 | 11592 | 11958 | 366 |
| Gofal dydd llawn | 461 | 495 | 34 | 18083 | 19323 | 1240 |
| Gofal dydd sesiynol | 824 | 806 | -18 | 17408 | 17116 | -292 |
| Gofal y tu allan i'r ysgol | 579 | 554 | -25 | 19242 | 18100 | -1142 |
| Is-gyfanswm heb gynnwys crèches a mynediad agored | 4188 | 4260 | 72 | 66352 | 66497 | 172 |
| Crèches | 79 | 67 | -12 | 1386 | 1197 | -189 |
| Mynediad agored | 114 | 65 | -49 | 5183 | 2987 | -2196 |
| **CYFANSWM** | **4381** | **4392** | **11** | **72894** | **70681** | **-2213** |

Heb gyfrif y ffigurau ar gyfer mynediad agored a crèches, ceir cynnydd net o 72 o leoliadau a 172 o leoedd, sy'n dangos cynnydd parhaus o ran bodloni polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu gofal plant.

Ceir tystiolaeth eglur o weithgaredd cofrestru ym mhob maes gwasanaeth yn ogystal â datgofrestru a newidiadau i gategorïau cyfreithiol.

- Mae'r cynnydd yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yn parhau. Er bod pethau yn gwella, ceir tystiolaeth i awgrymu bod gofynion yn cael eu cymhwyso yn anghyson ar draws ac o fewn rhai awdurdodau cynllunio lleol, a bod hynny'n parhau i effeithio ar leoedd gwarchod plant.
- Cynyddodd nifer y lleoliadau gofal dydd llawn yn sylweddol yn ystod blwyddyn yr adroddiad. Gallai hyn fod yn rhannol am fod rhai lleoliadau sesiynol cofrestredig (cylchoedd chwarae) wedi cynyddu eu horiau gweithredu ac felly wedi newid eu statws cyfreithiol. Ceir tystiolaeth i awgrymu bod y gweithlu gofal dydd llawn yn parhau i fod yn sefydlog, gydag ychydig iawn o drosiant staff a newidiadau mewn perchenogaeth.
- Mae gofal dydd sesiynol wedi lleihau yn gyffredinol. Mae rhai o'r colledion o ganlyniad i leoliadau yn newid eu categori cyfreithiol e.e. i ofal dydd llawn. Yn ogystal, roedd lleoliadau sesiynol yn datgofrestru i bob pwrpas oherwydd eu bod yn newid safle, ac nid ydynt wedi ailgofrestru hyd yn hyn. Ceir tystiolaeth hefyd i awgrymu bod darparwyr gofal dydd sesiynol wedi'i chael yn anodd cadw personau cofrestredig a chael rhai newydd yn eu lle ar gyfer eu grwpiau a reolir yn wirfoddol, ac felly maent wedi dewis datgofrestru a gweithredu am ddwy awr neu lai.
- Bob blwyddyn, ceir nifer o gynlluniau chwarae gwyliau'r haf tymor byr sy'n datgofrestru ac yn ailgyflwyno cais i ddefnyddio safle gwahanol. Yn ystod blwyddyn yr adroddiad, roedd mwy na hanner yr holl achosion o gau lleoliadau gofal y tu allan i'r ysgol a mynediad agored yn rhanbarthau de-orllewin Cymru a'r Fro a'r Cymoedd. Roedd yr awdurdodau lleol hyn yn gweithredu gwahanol strategaeth ar gyfer darparu gwasanaeth, a oedd yn gysylltiedig yn rhannol â meini prawf ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac nid oedd y gwasanaethau a ddeilliodd o hynny'n gymwys i'w cofrestru. Caewyd naw lleoliad mynediad agored yn y Fro a'r Cymoedd yn sgil ymddiswyddiad un darparwr cofrestredig, er y disgwylir y bydd y lleoliadau hyn a rhai lleoliadau eraill yn ailgyflwyno cais i gofrestru yn y dyfodol. Ceir tystiolaeth i awgrymu y gallai'r gofyniad i bob arweinydd fod wedi'i gymhwyso hyd at NVQ lefel 3 erbyn mis Ebrill 2008 fod yn fwy heriol ar gyfer lleoliadau gofal y tu allan i'r ysgol a mynediad agored nag ar gyfer lleoliadau gofal sesiynol.
- Er bod rhai crèches yn gweithredu'n barhaol, mae nifer ohonynt yn gweithredu am gyfnod byr er mwyn bodloni angen lleol penodol. Mae'n anodd asesu unrhyw dueddiadau realistig ar gyfer y ddarpariaeth crèche, er y gall ariannu olygu bod nifer y crèches sydd ar gael yn amrywio mewn unrhyw flwyddyn adrodd.

Mae strategaeth gofal plant Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i gynyddu gofal plant er mwyn cynorthwyo rhieni. Mae'r ffigurau yn dangos peth cynnydd calonogol tuag at hyn. Bydd y rhai sy'n llunio polisïau yn dymuno monitro'r ddarpariaeth gofal y tu allan i'r ysgol a gofal sesiynol, o gofio eu swyddogaeth wrth sicrhau bod ystod briodol o wasanaethau ar gael, a chymorth i rieni penodol e.e. y rhai gyda phlant o oedran ysgol neu batrwm gweithio sy'n cyd-fynd â gofal sesiynol.

Disgwylir i Ddeddf Gofal Plant 2006 ddod i rym o fis Ebrill 2008 ymlaen, ac mae'n rhoi mwy o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio gofal plant a darparu ar ei gyfer. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o gyflawni'r strategaeth yn barhaus.

Lleoliadau a lleoedd gofal dydd i blant ar 31/03/07

| Gofal dydd i blant | Gwarchodwyr plant | | Crèches | | Gofal dydd llawn | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lleoliadau | Lleoedd | Lleoliadau | Lleoedd | Lleoliadau | Lleoedd |
| **Gogledd-orllewin** | **252** | **1316** | **6** | **108** | **57** | **2176** |
| Conwy | 81 | 436 | 2 | 55 | 31 | 1211 |
| Gwynedd | 107 | 542 | 1 | 16 | 19 | 693 |
| Ynys Môn | 64 | 338 | 3 | 37 | 7 | 272 |
| **Gogledd-ddwyrain** | **287** | **1461** | **8** | **198** | **87** | **3926** |
| Sir Ddinbych | 63 | 339 | 0 | 0 | 26 | 1319 |
| Sir y Fflint | 141 | 713 | 4 | 107 | 26 | 1207 |
| Wrecsam | 83 | 409 | 4 | 91 | 35 | 1400 |
| **Y Canolbarth** | **167** | **709** | **1** | **12** | **36** | **984** |
| Powys | 59 | 450 | 0 | 0 | 25 | 616 |
| Ceredigion | 108 | 259 | 1 | 12 | 11 | 368 |
| **De-ddwyrain** | **513** | **2031** | **17** | **311** | **89** | **3605** |
| Blaenau Gwent | 45 | 144 | 2 | 42 | 4 | 123 |
| Caerffili | 169 | 732 | 4 | 90 | 19 | 797 |
| Sir Fynwy | 100 | 380 | 2 | 17 | 13 | 651 |
| Casnewydd | 119 | 445 | 5 | 106 | 29 | 1243 |
| Tor-faen | 80 | 330 | 4 | 56 | 24 | 791 |
| **Caerdydd** | **324** | **1753** | **16** | **335** | **55** | **2325** |
| **Y Fro a'r Cymoedd** | **362** | **1941** | **11** | **128** | **49** | **1854** |
| Merthyr Tudful | 19 | 71 | 2 | 22 | 7 | 253 |
| Rhondda Cynon Taf | 150 | 809 | 4 | 38 | 25 | 919 |
| Bro Morgannwg | 193 | 1061 | 5 | 68 | 17 | 682 |
| **De-orllewin** | **328** | **1795** | **4** | **44** | **79** | **2999** |
| Castell-Nedd Port Talbot | 74 | 404 | 0 | 0 | 13 | 450 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 120 | 679 | 2 | 28 | 24 | 878 |
| Abertawe | 134 | 712 | 2 | 16 | 42 | 1671 |
| **Gorllewin** | **172** | **952** | **4** | **61** | **43** | **1454** |
| Sir Benfro | 71 | 580 | 3 | 51 | 16 | 536 |
| Sir Gaerfyrddin | 101 | 372 | 1 | 10 | 27 | 918 |
| **CYFANSWM** | **2405** | **11958** | **67** | **1197** | **495** | **19323** |

| Mynediad agored | | Gofal y tu allan i'r ysgol | | Gofal dydd sesiynol | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleoliadau | Lleoedd | Lleoliadau | Lleoedd | Lleoliadau | Lleoedd | Lleoliadau | Lleoedd |
| **29** | **1093** | **56** | **1461** | **158** | **3141** | **558** | **9295** |
| 29 | 1093 | 26 | 706 | 49 | 1118 | 218 | 4619 |
| 0 | 0 | 15 | 468 | 66 | 1228 | 208 | 2947 |
| 0 | 0 | 15 | 287 | 43 | 795 | 132 | 1729 |
| **3** | **165** | **135** | **4459** | **155** | **3549** | **675** | **13758** |
| 1 | 120 | 35 | 1123 | 38 | 841 | 163 | 3742 |
| 1 | 13 | 52 | 1740 | 54 | 1262 | 278 | 5042 |
| 1 | 32 | 48 | 1596 | 63 | 1446 | 234 | 4974 |
| **0** | **0** | **40** | **1050** | **86** | **1518** | **330** | **4273** |
| 0 | 0 | 25 | 670 | 53 | 997 | 162 | 2733 |
| 0 | 0 | 15 | 380 | 33 | 521 | 168 | 1540 |
| **2** | **88** | **76** | **2949** | **103** | **2340** | **800** | **11324** |
| 0 | 0 | 4 | 80 | 7 | 137 | 62 | 526 |
| 1 | 68 | 24 | 643 | 29 | 662 | 246 | 2992 |
| 0 | 0 | 10 | 274 | 27 | 633 | 152 | 1955 |
| 1 | 20 | 13 | 375 | 25 | 574 | 192 | 2763 |
| 0 | 0 | 25 | 1577 | 15 | 334 | 148 | 3088 |
| **7** | **495** | **52** | **2378** | **52** | **1295** | **506** | **8581** |
| **17** | **803** | **56** | **1569** | **74** | **1694** | **569** | **7989** |
| 3 | 99 | 9 | 321 | 15 | 294 | 55 | 1060 |
| 12 | 608 | 23 | 599 | 32 | 709 | 246 | 3682 |
| 2 | 96 | 24 | 649 | 27 | 691 | 268 | 3247 |
| **7** | **343** | **57** | **1914** | **70** | **1431** | **545** | **8526** |
| 2 | 110 | 13 | 580 | 13 | 220 | 115 | 1764 |
| 0 | 0 | 12 | 328 | 23 | 575 | 181 | 2488 |
| 5 | 233 | 32 | 1006 | 34 | 636 | 249 | 4274 |
| **0** | **0** | **82** | **2320** | **108** | **2148** | **409** | **6935** |
| 0 | 0 | 30 | 762 | 44 | 969 | 164 | 2898 |
| 0 | 0 | 52 | 1558 | 64 | 1179 | 245 | 4037 |
| **65** | **2987** | **554** | **18100** | **806** | **17116** | **4392** | **70681** |

- Mae darpariaeth gwarchod plant, gofal dydd llawn, gofal sesiynol a gofal y tu allan i'r ysgol ar gael ym mhob awdurdod lleol. Nid oes darpariaeth crèche neu gynlluniau mynediad agored ar gael mewn nifer o awdurdodau, ond dim ond Powys sydd heb yr un ohonynt;
- Caerdydd sy'n parhau i fod â'r nifer fwyaf o warchodwyr plant, gyda 13% o'r lleoliadau a 15% o'r lleoedd sydd ar gael;
- Mae gan Gaerdydd hefyd 11% o'r holl leoliadau gofal dydd llawn, ac mae gan Abertawe 8%; nid yw'r sefyllfa wedi newid ers y llynedd;
- Wrecsam sydd â'r nifer fwyaf o leoliadau gofal sesiynol, gydag 8% o leoliadau a lleoedd;
- Mae gan Gaerdydd, Sir Gaerfyrddin a Sir y Fflint 9% yr un o leoliadau gofal y tu allan i'r ysgol, ond mae mwy o leoedd ar gael mewn lleoliadau yng Nghaerdydd.

O gymharu cyfanswm y ffigurau gofal dydd â'r flwyddyn flaenorol, ni cheir unrhyw newidiadau sylweddol yn nosbarthiad y ddarpariaeth. Mae nifer y lleoliadau neu'r lleoedd wedi newid mewn rhai awdurdodau lleol, ond nid yw'r rhain yn newidiadau sylweddol, ac nid ydynt yn dangos unrhyw batrwm penodol ar hyn o bryd.

Dosbarthiad gwasanaethau gofal dydd i blant yn ôl rhanbarth ac awdurdod lleol ar 31/03/06 a 31/03/07

| Rhanbarth/ awdurdod lleol | Lleoliadau cofrestredig | | Lleoedd cofrestredig | |
|---|---|---|---|---|
| | 31/03/06 | 31/03/07 | 31/03/06 | 31/03/07 |
| **Gogledd-orllewin** | **566** | **558** | **9167** | **9295** |
| Conwy | 218 | 218 | 4505 | 4619 |
| Gwynedd | 213 | 208 | 2997 | 2947 |
| Ynys Môn | 135 | 132 | 1665 | 1729 |
| **Gogledd-ddwyrain** | **693** | **675** | **14114** | **13758** |
| Sir Ddinbych | 175 | 163 | 3927 | 3742 |
| Sir y Fflint | 287 | 278 | 5280 | 5042 |
| Wrecsam | 231 | 234 | 4907 | 4974 |
| **Y Canolbarth** | **315** | **330** | **4129** | **4273** |
| Powys | 189 | 211 | 2479 | 2733 |
| Ceredigion | 126 | 119 | 1650 | 1540 |
| **De-ddwyrain** | **762** | **800** | **11812** | **11324** |
| Blaenau Gwent | 57 | 62 | 527 | 526 |
| Caerffili | 232 | 246 | 2755 | 2992 |
| Sir Fynwy | 150 | 152 | 2859 | 1955 |
| Casnewydd | 175 | 192 | 2443 | 2763 |
| Tor-faen | 148 | 148 | 3228 | 3088 |
| **Caerdydd** | **495** | **506** | **8301** | **8581** |
| **Y Fro a'r Cymoedd** | **578** | **569** | **8645** | **7989** |
| Merthyr Tudful | 46 | 55 | 924 | 1060 |
| Rhondda Cynon Taf | 272 | 246 | 4702 | 3682 |
| Bro Morgannwg | 260 | 268 | 3019 | 3247 |
| **De-orllewin** | **573** | **545** | **9763** | **8526** |
| Castell-Nedd Port Talbot | 141 | 115 | 2802 | 1764 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 185 | 181 | 2625 | 2488 |
| Abertawe | 247 | 249 | 4336 | 4274 |
| **Gorllewin** | **400** | **409** | **6963** | **6935** |
| Sir Benfro | 175 | 194 | 2739 | 2898 |
| Sir Gaerfyrddin | 225 | 215 | 4224 | 4037 |
| **CYFANSWM** | **4382** | **4392** | **72894** | **70681** |

## Ansawdd y gwasanaeth - ystyried y chwe maes gwasanaeth gyda'i gilydd

Rhaid i ddarparwyr gofal dydd i blant dan wyth mlwydd oed weithredu o fewn y rheoliadau sy'n cwmpasu darpariaeth gofal dydd llawn a'r safonau gofynnol cenedlaethol sy'n benodol i bob maes gwasanaeth. Yr ymrwymiad i welliant parhaus sy'n codi'r safonau ac yn sicrhau canlyniadau o ansawdd i blant a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Eleni, mae ASGC wedi dadansoddi canfyddiadau arolygiadau i ddangos y tueddiadau ar draws gofal dydd yn gyffredinol yn ogystal â meysydd gwasanaeth unigol a ddisgrifir yn ddiweddarach. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r meysydd cyffredin wedi'u rhannu fel a ganlyn:

- Materion sy'n ymwneud ag **ansawdd gofal a hyrwyddo lles plant** megis cynllunio ar gyfer anghenion unigol, ansawdd gofal, ymdrin â phryderon, cwynion ac amddiffyn plant.
- Materion sy'n ymwneud â **rhedeg y gwasanaeth** e.e. datganiad o ddiben, staffio a rheoli staff, yr amgylchedd ffisegol, cynnal a rheoli'r gwasanaeth a sicrhau ansawdd.

## *Ansawdd gofal a hyrwyddo lles plant*

Mae hyrwyddo lles yn rhan annatod o'r rheoliadau sy'n cwmpasu agweddau ar ofal y gall plant ddisgwyl eu derbyn mewn lleoliad. Bydd y rhain yn cefnogi, yn ysgogi ac yn hyrwyddo eu datblygiad fel unigolion ac fel grŵp o blant yn ystod yr amser y byddant yn ei dreulio yno.

Mae'r negeseuon allweddol o'r dadansoddiad yn dangos:

- Fod tystiolaeth eglur fod lles y plant yn cael ei hyrwyddo'n rhagweithiol mewn ychydig dros 75% o wasanaethau, ond nid oedd mor amlwg yn y gweddill ohonynt. Yn y gwasanaethau sy'n perfformio'n well, mae hyn yn cynnwys darparu'n briodol ar gyfer gofalu am y plant a'u goruchwylio, bodloni anghenion unigol, ac ystyried dymuniadau a theimladau cymaint ag sy'n bosibl. Yn y lleoliadau hyn, gallai plant ddisgwyl i'w hurddas a'u preifatrwydd gael eu parchu, a bod ystyriaeth briodol o'u cefndir diwylliannol;
- Yn gyffredinol, bod plant yn cael bwyd a diod iach a oedd yn bodloni eu hanghenion;
- Bod darparwyr yn rheoli materion amddiffyn plant yn dda ar y cyfan, er ei bod yn ofynnol i 10% ohonynt wella eu trefniadau, ac mae hwn yn faes allweddol sydd angen sylw. Roedd materion penodol mewn lleoliadau mynediad agored, a chofnodir y rhain yn y maes gwasanaeth penodol;
- Mae'n ymddangos y caiff ymddygiad ei reoli'n dda ar draws y gwasanaethau, gan ddangos bod y plant yn cael gweithgareddau priodol i gymryd rhan ynddynt ac i hyrwyddo eu datblygiad;
- Ceir tystiolaeth i awgrymu bod hyrwyddo chwarae y tu allan, sy'n rhan annatod o'r Cyfnod Sylfaen, wedi gwella ansawdd yr agwedd hon ar ddarparu gofal.

## *Rheoli'r gwasanaethau*

Mae gweithio'n gadarnhaol o fewn y rheoliadau yn rhan allweddol o reoli gwasanaeth sy'n darparu canlyniadau o ansawdd da i blant, y rhieni a'r staff.

### DARPARU GWYBODAETH I DDEFNYDDWYR GWASANAETH

- Dangosodd ychydig dan 70% o'r adroddiadau yr edrychwyd arnynt fod digon o wybodaeth ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth yn y datganiad o ddiben. Rhaid i ddarparwyr roi sylw i'r manylion a gynhwysir yn y datganiad o ddiben er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth a allai ddatblygu a newid dros gyfnod o amser.

### RHEOLI STAFF YN EFFEITHIOL

- Mae recriwtio, hyfforddi a goruchwylio'r staff yn gadarn yn rhan hanfodol o systemau rheoli llwyddiannus. Ar y cyfan, roedd pob maes gwasanaeth yn bodloni'r rheoliadau o ran darparu digon o aelodau staff a chanddynt gymwysterau, medrau a phrofiad addas;
- Gwnaed nifer sylweddol o ofynion i bersonau cofrestredig gadw gwybodaeth neu ddogfennau llawn a boddhaol am eu staff. Ac eithrio gwarchodwyr plant (sy'n tueddu i gyflogi dim ond ychydig o staff), dangosodd yr adroddiadau yr edrychwyd arnynt fod rhaid i tua hanner y nifer o leoliadau gofal dydd sesiynol, crèches, gofal dydd llawn a gofal y tu allan i'r ysgol, a thraean o'r lleoliadau mynediad agored, roi sylw i'r gofyniad hwn. Mae hyn yn dangos yr her barhaus i ddarparwyr cofrestredig fodloni'r rheoliad hwn o flwyddyn i flwyddyn. Rhaid rhoi sylw penodol i hyn yn ystod y flwyddyn i ddod;
- Mae angen amser ac ymrwymiad i fynd i'r afael â swyddogaeth reoli mewn lleoliad. Pan fo hyn yn cael ei wneud gan wirfoddolwyr a allai newid dros gyfnod o amser, mae'n hanfodol bod y broses o drosglwyddo cyfrifoldeb yn cael ei rheoli'n dda i sicrhau sefydlogrwydd safonau'r ddarpariaeth a'r canlyniadau i blant. Yn ogystal, mae goruchwylio, hyfforddi a gwerthuso'r staff yn briodol yn hanfodol i gynnal a chodi safonau mewn lleoliad gofal. Roedd angen i rwng 20% a 49% o wasanaethau ar draws y sector gofal dydd ddatblygu'r gefnogaeth i staff. Nid oedd y mater hwn yn berthnasol i warchodwyr plant oherwydd natur eu busnes;
- Mae systemau cwynion a sicrhau ansawdd effeithiol yn amddiffyn plant ac yn hyrwyddo eu lles. Roedd yn amlwg bod systemau wedi'u sefydlu yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau ar draws y sector gofal dydd. Adroddir ar effaith y rheoliadau newydd o ran cwynion a sicrhau ansawdd a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2007, yn y dyfodol.

### RHEOLI RISGIAU

- Roedd y mater o ddiffyg darparu asesiad risg ysgrifenedig digonol i ganfod a dileu risgiau posibl i iechyd a diogelwch plant yn parhau i gynyddu. Hwn oedd un o'r diffygion mwyaf ar draws y sector, ac fe'i canfuwyd mewn rhwng 20% a 50% o bob math o wasanaethau.

## YR AMGYLCHEDD FFISEGOL

- Dylai'r plant a'r rhieni ddisgwyl i'r safle fod yn addas i fodloni anghenion y plant yn ogystal â nodau ac amcanion y gwasanaeth. Dangosodd y dadansoddiad fod y gofyniad hwn wedi'i fodloni. Roedd tystiolaeth benodol ar gael yn dangos bod ansawdd y safleoedd a ddefnyddir ar gyfer gofal sesiynol wedi gwella yn gyffredinol;
- Roedd tystiolaeth i awgrymu bod personau cofrestredig mewn lleoliadau gofal dydd yn rheoli diogelwch rhag tân yn dda yn gyffredinol.

## DARPARU GWYBODAETH I ASGC

- Cyfrifoldeb y darparwr cofrestredig yw hysbysu ASGC am unrhyw newidiadau o ran darparu'r gwasanaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae hyd at 75% o wasanaethau yn cydymffurfio â hyn.

# Gwarchodwyr plant

## ANSAWDD Y GWASANAETH



Gwarchodwyr plant oedd un o'r gwasanaethau cyntaf i gael profiad o'r dulliau arolygu newydd dan y rhaglen ddiwygio. Ar y cyfan, maent wedi croesawu'r ymagwedd gymesur at arolygu, sy'n golygu eu bod yn derbyn arolygiad dirybudd bob dwy flynedd.

O'r rhai a arolygwyd, dadansoddwyd sampl o 54% o adroddiadau.

- Dangosodd 97% o'r adroddiadau yr edrychwyd arnynt fod plant yn derbyn gofal gan warchodwyr plant sy'n darparu gofal digonol, a bod ganddynt y gallu a'r sgiliau i fodloni anghenion eu swyddogaeth, er bod angen i chwarter ohonynt sicrhau bod eu cymhwyster cymorth cyntaf yn gyfredol;
- Gwelwyd trefniadau da ar gyfer amddiffyn plant yn y sampl yn gyffredinol, ond roedd yn ofynnol i 9% wneud gwelliannau penodol i'r polisi a'r weithdrefn;
- Ceir tystiolaeth i ddangos bod plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd heb unrhyw risgiau y gellir eu hosgoi ar y cyfan, a'u bod gan fwyaf yn derbyn gofal mewn safle domestig sydd heb unrhyw beryglon. Mewn 50% o'r sampl, nodwyd yr angen i warchodwyr plant wella eu trefniadau asesu/rheoli risgiau;
- Dangosodd 84% o'r adroddiadau yr edrychwyd arnynt y darperir gwybodaeth i ASGC mewn ffordd sy'n bodloni'r rheoliadau.

## AMDDIFFYN PLANT A CHWYNION

Hysbyswyd ASGC am 15 o faterion amddiffyn plant. Atgyfeiriwyd un gŵyn at yr Ysgrifennydd Gwladol i'w chynnwys ar restr y Ddeddf Amddiffyn Plant.

Derbyniwyd 38 o gwynion. Datryswyd chwech o'r rhain yn lleol gan y darparwr. Roeddynt yn cynnwys y canlynol:

- Honiad o ymddwyn yn amhroffesiynol;
- Hylendid;
- Arfer diogel gan y gwarchodwr plant, gan gynnwys gwarchod gormod o blant a gadael plentyn ar ei ben ei hun;
- Cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni;
- Ansawdd y chwarae a ddarperid yn y gwasanaeth.

Cymerodd ASGC gamau yn sgil rhai o'r rhain. Roedd hyn yn cynnwys diddymu cofrestriad, cyflwyno llythyrau ffurfiol sy'n gosod amodau ar gofrestriad a monitro parhaus.

Atgyfeiriwyd nifer o honiadau o warchod plant heb gofrestru i ASGC, ac ymchwiliwyd i bob un ohonynt.

# GOFAL DYDD LLAWN

## ANSAWDD Y GWASANAETH



Edrychodd ASGC ar sampl o 45% o adroddiadau ar leoliadau gofal dydd llawn.

- Mae 92% o leoliadau yn darparu gofal sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn iechyd a lles plant;
- Roedd gan 93% o wasanaethau bolisi amddiffyn plant effeithiol. Roedd angen i'r gweddill ohonynt wneud gwelliannau penodol ar gyfer ymdrin â gwybodaeth a'i throsglwyddo yn briodol;
- Dangosodd 98% o'r sampl fod plant mewn lleoliadau lle'r oedd y person cofrestredig (neu'r person â gofal) yn darparu gofal dydd gyda digon o ofal, cymhwysedd a sgiliau, a hyfforddiant priodol. Er hyn, gwnaed gofynion mewn 25% o'r sampl i reolwyr ddarparu goruchwyliaeth un i un briodol a rheolaidd i'r staff;
- Mae 74% o wasanaethau yn darparu digon o wybodaeth i ASGC i fodloni'r gofynion rheoleiddiol;
- Mae 77% o leoliadau yn gweithredu mewn safleoedd lle ceir trefniadau digonol ar gyfer canfod, atal a diogelwch rhag tân.

## AMDDIFFYN PLANT A CHWYNION

Hysbyswyd ASGC am 12 o faterion amddiffyn plant. Arweiniodd un o'r rhain at atgyfeiriad i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gynnwys ar restr y Ddeddf Amddiffyn Plant.

Derbyniwyd cyfanswm o 77 o gwynion; datryswyd 21 o'r rhain yn lleol ac ymchwiliodd ASGC i'r 56 o gwynion a oedd yn weddill. Roedd y cwynion yn cynnwys:

- Materion rheoli megis lefelau staffio, ymddygiad amhroffesiynol ac agwedd y staff;
- Cadw cofnodion;
- Rheoli ymddygiad;
- Arfer gwael o ran gofal;
- Cyflwr y safle a iechyd a diogelwch (gan gynnwys pryderon difrifol ynglŷn â diogelwch plant);
- Cyfathrebu â rhieni.

Cymerodd ASGC gamau yn sgil rhai o'r rhain, a oedd yn cynnwys cyflwyno llythyrau ffurfiol, monitro a gosod amodau ar gofrestriad yn achlysurol.

# Gofal dydd sesiynol

## ANSAWDD Y GWASANAETH



Edrychodd ASGC ar sampl o 57% o adroddiadau. Cyflwynwyd diwygio rheoleiddiol i arolygu lleoliadau gofal sesiynol ym mis Medi 2006. Mae'r darparwyr yn ogystal â'u sefydliadau rhwydwaith cefnogi wedi ymateb yn dda i'r arolygiadau dirybudd yn gyffredinol.

Ceir tystiolaeth i ddangos nad oes gan nifer o leoliadau a reolir gan bwyllgor gwirfoddol drefniadau cadarn ar gyfer yr adeg y mae un pwyllgor yn trosglwyddo cyfrifoldeb i un arall. Mae'n bosibl y gall hyn effeithio ar ofal plant yn y lleoliadau hynny, a dylai'r sefydliadau rhwydwaith cefnogi a Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut y gellir gwella hyn.

- Roedd gan 91% o wasanaethau bolisi amddiffyn plant effeithiol. Mae'r angen yn parhau i fynd i'r afael â'r maes allweddol hwn yn y lleoliadau sy'n weddill i sicrhau bod y gweithdrefnau a ddilynir yn cyflawni'r canlyniadau priodol i blant;
- Roedd 87% o wasanaethau yn darparu gofal lle'r oedd anghenion iechyd a lles y plant yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn; roedd y rhan fwyaf o'r gofynion yn y gweddill ohonynt yn nodi'r angen i gael cymhwyster cymorth cyntaf cyfredol;
- Dangosodd 97% o'r sampl fod plant yn derbyn gofal mewn lleoliadau lle ceir system gwyno effeithiol;
- Cafwyd pryderon ynglŷn â rheoli'r gwasanaethau hyn. Nid oedd y personau cofrestredig mewn 56% o'r lleoliadau yn gallu dangos eu bod yn cadw gwybodaeth na dogfennau llawn a boddhaol am y staff, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae'r maes hwn yn parhau i fod angen sylw sylweddol. Mewn 42% o'r sampl, nid oedd rheolwyr yn darparu goruchwyliaeth reoli un i un briodol ar gyfer y staff;
- Mae 85% o leoliadau gofal sesiynol yn gweithredu mewn safle lle ceir trefniadau digonol ar gyfer canfod, atal a diogelwch rhag tân, ac mae hwn yn faes allweddol sydd angen sylw yn y gweddill ohonynt.

## AMDDIFFYN PLANT A CHWYNION

Hysbyswyd ASGC am dri mater amddiffyn plant y llynedd, ond nid oedd angen cymryd camau rheoleiddio pellach ynglŷn â'r rhain.

O'r 11 o gwynion a dderbyniwyd, datryswyd tair ohonynt yn lleol gan y darparwr. Ymchwiliodd ASGC i'r wyth arall a oedd yn ymwneud yn bennaf â iechyd a diogelwch, gan gynnwys diogelwch y safle ac agwedd y staff. Roedd camau gweithredu ASGC yn cynnwys cyflwyno llythyrau ffurfiol, monitro, a gosod amodau cofrestru, pan oedd angen hynny.

Cyflwynodd ASGC dri hysbysiad o fwriad i amrywio, dileu neu osod amodau cofrestru.

# Gofal y tu allan i'r ysgol

## ANSAWDD Y GWASANAETH



Edrychodd ASGC ar sampl o 60% o adroddiadau eleni.

Caiff lleoliadau gofal y tu allan i'r ysgol hefyd eu rheoli'n aml gan bwyllgor gwirfoddol, a cheir pryderon tebyg ynglŷn â'r trefniadau sy'n ymwneud â throsglwyddo cyfrifoldeb pan fo pwyllgorau yn newid.

- Dangosodd 90% o wasanaethau fod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed gan bolisi amddiffyn plant. Mae'r maes allweddol hwn yn parhau i fod angen sylw yn y lleoliadau sy'n weddill er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau yn cyflawni'r canlyniadau priodol ar gyfer plant;
- Roedd gan 97% o wasanaethau system gwynion effeithiol;
- Roedd 94% o leoliadau yn cynnal lefelau staffio digonol;
- Mae 91% o leoliadau gofal y tu allan i'r ysgol yn gweithredu mewn safle lle ceir trefniadau digonol ar gyfer canfod, atal a diogelwch rhag tân;
- Roedd pryderon ynglŷn â'r trefniadau rheoli. Mewn 51% o wasanaethau, nid oedd y personau cofrestredig yn cadw gwybodaeth na dogfennau manwl a boddhaol am y staff. Yn ogystal, roedd angen datblygu goruchwyliaeth staff un i un mewn 32% o wasanaethau. Mae'r agweddau hyn ar reoli yn parhau i fod angen sylw sylweddol.

## AMDDIFFYN PLANT A CHWYNION

Hysbyswyd ASGC am dri mater amddiffyn plant, ond nid oedd angen ymyrraeth reoleiddiol barhaus ar gyfer y rhain.

Derbyniodd ac ymchwiliodd ASGC i gyfanswm o ddeg cŵyn, a oedd yn ymwneud â materion rheoli gan gynnwys lefelau staffio ac agweddau'r staff. Cymerodd ASGC gamau gorfodi o ganlyniad i'r cwynion hyn, gan gynnwys cyflwyno llythyrau ffurfiol, monitro a gosod amodau.

Cyflwynodd ASGC bedwar hysbysiad o fwriad i amrywio, dileu neu osod amodau cofrestru.

# CRÈCHES

## ANSAWDD Y GWASANAETH



Eleni, edrychodd ASGC ar sampl o 55% o adroddiadau. Gwelwyd gwelliannau mewn rhannau o'r maes gwasanaeth hwn.

- Roedd gan 95% o wasanaethau bolisi amddiffyn plant effeithiol;
- Roedd anghenion iechyd y plant yn cael eu hyrwyddo mewn 92% o wasanaethau;
- Roedd 89% o'r crèches yr edrychwyd arnynt yn gweithredu mewn safle lle ceir trefniadau digonol ar gyfer canfod, atal a diogelwch rhag tân.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod agweddau ar y gwasanaeth wedi dirywio. Nid oes esboniad eglur am hyn, ond dylid rhoi sylw i'r meysydd hyn.

- Ni allai personau cofrestredig mewn 43% o leoliadau ddangos eu bod yn cadw gwybodaeth na dogfennau llawn a boddhaol am y staff, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae hyn wedi dirywio o 23% y llynedd;
- Nid oedd rheolwyr yn darparu goruchwyliaeth reoli un i un briodol ar gyfer y staff mewn 49% o wasanaethau;
- Bu dirywiad mewn cadw cofnodion am blant. Gwnaed gofynion mewn 24% o'r crèches yr edrychwyd arnynt o'i gymharu â 13% y llynedd. Mae angen rhoi sylw pellach i'r maes hwn.

## AMDDIFFYN PLANT A CHWYNION

Hysbyswyd ASGC am un mater amddiffyn plant a oedd angen ei fonitro'n barhaus. Ni dderbyniodd ASGC unrhyw gŵyn.

# Darpariaeth chwarae mynediad agored

## ANSAWDD Y GWASANAETH

Edrychodd ASGC ar sampl o 54% o adroddiadau. Nid yw'r gwasanaethau hyn yn ddarpariaeth 'gofal' mor amlwg, ond mae'r fframwaith rheoleiddio yn darparu strwythur a dulliau diogelu pwysig.



- Mae gan bob gwasanaeth mynediad agored weithdrefn gwyno, er bod angen cynnwys rhagor o fanylion mewn nifer fechan ohonynt;
- Mae 94% o leoliadau mynediad agored yn gweithredu mewn safle lle ceir trefniadau digonol ar gyfer canfod, atal a diogelwch rhag tân;
- Mewn 83% o leoliadau mynediad agored, mae'r plant yn elwa o gael safle sy'n ddiogel rhag mynediad heb ganiatâd.

Fodd bynnag, roedd rhai pryderon:

- Dim ond 66% o wasanaethau oedd â pholisi neu weithdrefn amddiffyn plant ddigonol wedi'i sefydlu. Mae hyn yn rhan allweddol o'r fframwaith ar gyfer amddiffyn plant a rhaid rhoi sylw iddo yn y 34% o wasanaethau sy'n weddill;
- Roedd pryderon ynglŷn â'r trefniadau rheoli staff. Mewn 29% o wasanaethau, nid oedd y personau cofrestredig yn cadw gwybodaeth na dogfennau llawn a boddhaol am y staff, ac mewn 20% o wasanaethau nid oedd y staff yn derbyn goruchwyliaeth un i un briodol gan reolwr. Mae'r meysydd hyn yn parhau i fod angen sylw;
- Mewn 54% o leoliadau mynediad agored, cedwid cofnodion allweddol y plant yn unol â'r rheoliadau. Nid yw hyn yn cymharu'n ffafriol â ffigur y llynedd o 87%, a rhaid ei wella.

## AMDDIFFYN PLANT A CHWYNION

Hysbyswyd ASGC am un mater amddiffyn plant, ond nid oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach. Ymchwiliodd ASGC i un gŵyn.

# YSGOLION A CHOLEGAU



ASGC sy'n gyfrifol am arolygu'r ddarpariaeth les mewn ysgolion preswyl, ysgolion arbennig preswyl a cholegau addysg bellach yng Nghymru.

Mae 1,666 o leoedd preswyl yn yr ysgolion hyn ar hyn o bryd, sydd dros dair gwaith yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael mewn cartrefi plant. Mae'r agweddau ar ofal preswyl yn yr ysgolion hyn yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth addysg ehangach, sy'n destun arolygiad ar wahân gan Estyn. Mae ASGC yn arolygu ysgolion yn erbyn safonau gofynnol cenedlaethol penodol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i asesu pa un a yw'r ysgolion yn diogelu ac yn hyrwyddo lles y disgyblion sy'n preswylio ynddynt yn foddhaol.

Mae ASGC wedi parhau i weithio gydag Estyn pan fo hynny'n bosibl. Mae hyn wedi cynnwys cyfnewid gwybodaeth i raddau helaeth, ond cynhaliwyd rhai arolygiadau ar yr un pryd hefyd.

Ceir 11 o ysgolion preswyl yng Nghymru sy'n darparu 1,197 o leoedd i blant dan 18 oed, a phum coleg addysg bellach sy'n darparu 194 o leoedd preswyl ar gyfer yr un grŵp oedran. Caiff y ddarpariaeth breswyl yn yr ysgolion a'r colegau hyn ei harolygu gan ASGC bob tair blynedd. Adroddwyd ar ganlyniadau'r cylch arolygu diwethaf yn adroddiad blynyddol 2004-05, ac adroddir arnynt nesaf ar ddiwedd y cylch tair blynedd presennol.

Ceir 13 o ysgolion arbennig preswyl sy'n cynnig cyfanswm o 275 o leoedd preswyl. Caiff y ddarpariaeth breswyl yn yr ysgolion hyn ei harolygu'n flynyddol gan ASGC, ac adroddir ar hyn yn yr adroddiad hwn.

# YSGOLION ARBENNIG PRESWYL



## TROSOLWG

Hon yw'r drydedd flwyddyn i ASGC gyflwyno adroddiad ar ysgolion arbennig preswyl yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae'r ysgolion hyn wedi parhau i ddarparu gofal o ansawdd da i ddisgyblion preswyl.

Gwelwyd arfer da yn y meysydd canlynol:

- Perthynas y staff â'r plant - gwelwyd brwdfrydedd, ymrwymiad ac ymroddiad y staff yn aml ar draws y sector
- Darparu ystod eang o weithgareddau hamdden
- Cysylltiad plant â'u teuluoedd/gofalwyr
- Paratoi ar gyfer annibyniaeth/trosglwyddo i wasanaethau oedolion

Mae'r meysydd sydd wedi gwella ers y llynedd yn cynnwys:

- Datganiad o ddiben a chanllaw plant
- Materion yn ymwneud â chwynion a sylwadau
- Gweithdrefnau amddiffyn plant a hyfforddiant staff yn y maes hwn
- Trefniadau ar gyfer monitro cofnodion
- Ymgynghori - mae nifer o ysgolion yn datblygu ystod eang o sgiliau cyfathrebu i wella cyfranogiad disgyblion a'r trefniadau ar gyfer ymgynghori â hwy, er bod angen i rai ysgolion ddatblygu hyn o hyd
- Y gweithdrefnau a'r prosesau ar gyfer rheoli plant sy'n mynd ar goll

Y prif feysydd sydd angen eu gwella o hyd yw:

- Rheoli ymddygiad
- Materion iechyd, gan gynnwys cynllunio iechyd a threfniadau effeithiol ar gyfer bodloni anghenion iechyd
- Asesiad risg o iechyd a diogelwch
- Prosesau ar gyfer recriwtio staff a'u cefnogi'n barhaus
- Dulliau monitro gan berchenogion a llywodraethwyr ysgol

Mae nifer y pryderon a chwynion amddiffyn plant yn parhau i fod yn isel.

## Proffil y sector

Ceir 13 o ysgolion arbennig preswyl yng Nghymru sy'n cynnig cyfanswm o 275 o leoedd; caiff 11 o'r rhain eu rhedeg gan awdurdodau lleol a dwy gan sefydliadau gwirfoddol. Maent yn amrywio o ran lleoedd sydd ar gael, gan gynnig rhwng dau a 46 o leoedd yr un. Mae nifer y plant sy'n defnyddio gwasanaethau'r ysgolion hyn yn fwy gan fod nifer ohonynt yn darparu gofal seibiant tymor byr, ac felly'n cynnig gwasanaeth i grŵp mwy o blant. Ceir nifer fechan o ysgolion sy'n cynnig llety am gyfnodau hirach. Mae'r rhain wedi'u cofrestru fel cartrefi plant, ac fe'u cynhwysir yn y bennod berthnasol o'r adroddiad hwn.

Nid yw'r sector wedi newid ers mis Ebrill 2006, er bod nifer y lleoedd preswyl sydd ar gael wedi amrywio rhywfaint mewn rhai ysgolion.

Ceir o leiaf un ysgol arbennig breswyl ym mhob rhanbarth ASGC. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u lleoli yn rhanbarthau'r Fro a'r Cymoedd a De-orllewin Cymru.

## Ansawdd y gwasanaeth

Mae ASGC wedi arolygu'r ddarpariaeth breswyl mewn ysgolion arbennig preswyl yn flynyddol ers 2003, pan gyflwynwyd y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r safonau hyn yn manylu ar y trefniadau y dylid eu sefydlu i gynorthwyo ysgolion i fodloni eu rhwymedigaethau er mwyn diogelu a hyrwyddo lles disgyblion sy'n preswylio ynddynt. Mae gan bob un o'r disgyblion hyn anghenion penodol a'u datganiad o anghenion addysgol arbennig eu hunain.

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar arolygu pob un o'r 13 o ysgolion arbennig preswyl, ac mae'n dilyn y fframwaith a ddarparwyd gan y safonau.

### *Datganiad o ddiben a chanllaw plant*

Dylai'r datganiad o ddiben fod yn ddogfen gynhwysfawr sy'n disgrifio'r hyn y mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud ar gyfer y plant sy'n derbyn llety, gan ganiatáu i bob person sydd â diddordeb asesu addasrwydd y gwasanaeth ar gyfer pob plentyn a'i anghenion penodol. Pan nad yw'n bosibl i'r plant ddarllen y datganiad hwn, dylai'r ysgol ddarparu'r wybodaeth mewn fformat mwy addas neu ddarparu canllaw plant.

Mae un ar ddeg o ysgolion bellach yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau ar gyfer datganiadau o ddiben. Mae wyth ohonynt hefyd wedi sicrhau bod y datganiad ar gael mewn fformat sy'n addas i blant/rhieni gan ddefnyddio symbolau, tapiau, lluniau a ffotograffau neu iaith wedi'i symleiddio.

## Hawliau plant

Mae'r safonau hyn yn rhoi sylw i faterion gan gynnwys ymgynghori â phlant, eu preifatrwydd, cyfrinachedd a chwynion. Mae rhai ohonynt yn fanwl iawn, gan bennu gofynion penodol, tra bod angen i ysgolion ddangos hyblygrwydd a dychymyg wrth fynd i'r afael â rhai eraill.

- Gwelwyd tystiolaeth eglur y cymerir camau pendant mewn 12 o ysgolion i hyrwyddo ymgynghori a chymryd rhan, sef cynnydd o dair ysgol ers y llynedd. Gwelwyd nifer o enghreifftiau o arfer da yn y dulliau a ddefnyddid i ganfod dymuniadau a theimladau'r plant e.e. 'cyfarfodydd tŷ';
- Gallai deg ysgol ddangos sut yr oeddynt yn rheoli ac yn parchu preifatrwydd a chyfrinachedd y plant, a darperid canllawiau eglur ar gyfer y staff. Pan oedd angen datblygu, roedd hyn yn ymwneud â darparu canllaw gweithdrefnol i'r staff, hyfforddiant staff a chofnodi cyfyngiadau cyfathrebu y cytunwyd arnynt;
- Mae'r trefniadau ar gyfer cwynion wedi gwella, ac mae deg ysgol bellach yn bodloni'r safonau gofynnol, o'i gymharu â chwech y llynedd. Mae nifer o ysgolion wedi gwneud ymdrech benodol i sicrhau bod eu gweithdrefnau ar gael yn rhwydd i'w preswylwyr e.e. dylunio gweithdrefn gwyno ddarluniadol. Mewn tair ysgol, roedd angen cynnwys gwybodaeth ychwanegol mewn polisïau a gweithdrefnau er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r safonau.

## Amddiffyn plant

Mae presenoldeb polisi amddiffyn plant cadarn, a gweithdrefnau a chanllaw cysylltiedig yn agwedd sylfaenol ar ddyletswydd ysgol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r safonau hefyd yn cynnwys y gofyniad i gael polisi gwrth-fwlio, trefniadau i reoli sefyllfaoedd pan fo plant yn mynd ar goll o'r ysgol a system ar gyfer hysbysu ASGC ac eraill am faterion penodol sy'n ymwneud â lles ac amddiffyn plant.

- Bodlonodd deg ysgol y safonau amddiffyn plant, sef tair ysgol yn fwy na'r llynedd. Roedd yn ofynnol cyflawni'r datblygiadau canlynol yn yr ysgolion sy'n weddill: sicrhau bod y gweithdrefnau yn cynnwys manylion penodol, hyfforddi staff a darparu arweiniad i aelodau staff y gwnaed honiadau yn eu herbyn;
- Roedd angen datblygu'r prosesau ar gyfer hysbysiadau mewn dwy ysgol, yn ogystal â phrosesau ar gyfer rheoli bwlio, sy'n adlewyrchu sefyllfa debyg i'r llynedd;
- Gwelwyd llawer o enghreifftiau lle'r oedd ysgolion yn rhagweithiol o ran bwlio, gan ddarparu goruchwyliaeth a monitro agos. Mae asesiadau risg wedi'u sefydlu, yn arbennig mewn ysgolion lle mae'r plant yn ymddwyn yn heriol/ag anghenion ychwanegol;
- Mae gan bob ysgol bellach weithdrefnau a phrosesau priodol ar gyfer plant sy'n mynd ar goll, sy'n welliant sylweddol ers y llynedd.

## *Gofal a rheoli*

Dylai'r berthynas rhwng y staff a'r plant fod yn seiliedig ar onestrwydd, parchu ei gilydd a dealltwriaeth, gyda ffiniau proffesiynol eglur. Ceir gweithdrefnau sy'n annog ymddygiad derbyniol yn yr ysgolion sy'n perfformio'n well, ac maent yn ymateb yn adeiladol i ymddygiad amhriodol.

Mae gan bob ysgol strwythurau wedi'u sefydlu sy'n hyrwyddo perthynas gadarnhaol ac effeithiol rhwng y staff a'r disgyblion.

Mae llawer o'r plant sy'n preswylio yn yr ysgolion hyn yn ymddwyn yn annerbyniol neu'n heriol o ganlyniad i salwch neu anabledd penodol. Maes sy'n peri pryder eleni yw'r cynnydd yn y gofynion sy'n ymwneud â rheoli ymddygiad, sydd draean yn fwy. Mae'r meysydd sydd angen eu datblygu mewn pum ysgol yn cynnwys:

- Adolygu'r arferion a ddefnyddir ar gyfer cosbau ac ataliad corfforol;
- Datblygu polisïau rheoli ymddygiad/ymyrraeth gorfforol, gan gynnwys dad-friffio;
- Canllaw a hyfforddiant ar gyfer staff mewn rheoli ymddygiad;
- Cofnodi cosbau ac ataliad.

> *"Edrychodd arolygwyr ar ystod o ddulliau ymadweithio â'r disgyblion yn y lleoliadau preswyl. Gwelwyd bod y rhain yn seiliedig ar barchu ei gilydd a dealltwriaeth."*
>
> *Arolygydd, ysgol arbennig breswyl*

## *Ansawdd y gofal*

Mae'r safonau hyn yn ymwneud â sut mae'r ddarpariaeth breswyl yn cefnogi cynnydd addysgol, gweithdrefnau derbyn a gadael, cyfleoedd hamdden ac yn hybu anghenion personol a gofal iechyd disgyblion.

Yn gyffredinol, roedd yr ysgolion yn cyflawni'n dda yn y meysydd hyn.

- Dylai'r plant brofi prosesau derbyn a gadael a gynlluniwyd, ac a gynhelir mewn modd sensitif. Gallai deuddeg o'r ysgolion ddangos tystiolaeth o hyn;
- Dylai darpariaeth breswyl yr ysgol gefnogi cynnydd addysgol y plant yn ymarferol, ac mae tystiolaeth ym mhob ysgol fod y staff yn hybu addysg y plant;
- Dylai'r plant gael digon o gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol a phleserus yn yr ysgol ac yn y gymuned leol. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau a theithiau'n cael eu trefnu er mwynhad y plant sy'n preswylio ym mhob un o'r tair ysgol ar ddeg;

- Dylai'r plant fyw mewn amgylchedd iach lle mae eu hanghenion iechyd a gofal yn cael eu canfod a'u hybu. Roedd mwyafrif yr ysgolion yn cyflawni hyn yn dda, er y nodwyd diffygion mewn pedair ysgol. Mae'r meysydd i'w datblygu yn cynnwys:
  - Trefniadau ar gyfer rhoi a storio meddyginiaeth, gan gynnwys caniatâd;
  - Arweiniad, cyngor a chefnogaeth i blant ynglŷn â materion iechyd a chymdeithasol;
  - Dewis o brydau iachus a maethlon, hyfforddiant hylendid bwyd ar gyfer staff a chysylltiadau â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd.

## *Cynllunio ar gyfer gofal*

Mae cynllunio clir ar gyfer anghenion unigol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod plant yn cael canlyniadau cadarnhaol o'u lleoliad mewn ysgol arbennig breswyl. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig y disgyblion yn darparu'r fframwaith ar gyfer y cynllunio hyn, gyda'r ysgolion yn datblygu cynlluniau lleoli manwl ar gyfer gofal o ddydd i ddydd.

- Roedd cynllun lleoli gan y plant ym mhob ysgol, ond mewn dwy ohonynt roedd angen gwella ystod y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y cynlluniau hyn. Mae hyn rhywfaint yn well na sefyllfa'r llynedd;
- Roedd y cymorth ar gyfer plant unigol wedi'i ddatblygu'n dda gyda'r mwyafrif o ysgolion yn gweithredu system gweithiwr allweddol yn ogystal â defnyddio ffynonellau cefnogaeth eraill fel gweithiwr cymdeithasol a/neu nyrs ysgol;
- Roedd y trefniadau ar gyfer hybu a chynnal cysylltiad rhwng plant a'u teuluoedd wedi'u ddatblygu'n dda;
- Dangosodd pob ysgol dystiolaeth o gyfleoedd i blant hŷn ddatblygu sgiliau gofalu amdanynt eu hunain a chymryd mwy o gyfrifoldeb i'w paratoi ar gyfer annibyniaeth/trosglwyddo i wasanaethau oedolion;
- Roedd systemau cadw cofnodion a rheoli ffeiliau wedi'u datblygu'n dda mewn dwy ran o dair o'r ysgolion; roedd angen i bedair wneud gwelliannau yn y maes hwn, sydd yn fwy na'r llynedd. Roedd angen cynnwys gwybodaeth ychwanegol mewn ffeiliau plant, cofrestrau staff a phlant a ffeiliau staff (gan gynnwys tystiolaeth o addasrwydd staff).

## *Y safle*

Mae gan blant yr hawl i fyw mewn safle dymunol a gynlluniwyd yn dda sy'n darparu digon o le a chyfleusterau i fodloni eu hanghenion ychwanegol. Dylai'r safle fod yn saff ac yn ddiogel hefyd. Gwelwyd gwelliant cyffredinol mewn safleoedd ysgolion o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Cyflawnodd pedair ysgol y safonau'n llawn.

Yn gyffredinol, cyflawnodd ysgolion y safonau o ran lleoliad a dyluniad ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u haddurno, eu dodrefnu a'u cynnal a'u cadw'n briodol. Disgrifiwyd peth o'r llety fel bod yn 'gartrefol' ac 'wedi'u cynnal a'u cadw i safon uchel.'

Pan oedd angen gwelliannau, roeddent yn ymwneud ag addasiadau ar gyfer anableddau penodol, cynnal a chadw ac addurno.

- Gwnaed gofyniad i dair ysgol wella cyfleusterau'r ystafelloedd ymolchi a'r tai bach, fel y gwnaed y llynedd;
- Gwnaed gofynion i saith ysgol mewn perthynas â iechyd, diogelwch a diogeliad; mae hyn yn welliant ar y llynedd ond mae'n parhau i fod yn faes y mae angen rhoi cryn dipyn o sylw iddo. Mae angen i'r ysgolion hyn sicrhau asesiadau risg iechyd a diogelwch, amlder archwiliadau trydanol, hyfforddiant diogelwch rhag tân ar gyfer staff ac ymgynghori â'r swyddog tân.

## Staffio

Bydd lles plant sy'n preswylio mewn ysgolion yn cael ei hybu'n ddigonol dim ond os yw sgiliau, profiad a niferoedd y staff yn bodloni anghenion yr ysgol a'i disgyblion. Mae hefyd yn hanfodol bod arferion diogel wedi'u sefydlu ar gyfer recriwtio ac archwilio cefndir staff ac, ar ôl eu penodi, bod staff yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi'n briodol i ymgymryd â'r hyn a all fod yn dasg heriol. Mae hwn yn faes allweddol ar gyfer cynnal ansawdd gwasanaethau.

Roedd adroddiadau arolygu'n tynnu sylw at ymrwymiad ac ymdoddiad staff, er gwaethaf nifer o faterion staffio o bwys yr oedd angen rhoi sylw iddynt.

Roedd nifer yr ysgolion nad oeddent wedi cyflawni'r safonau o ran archwilio cefndir staff wedi cynyddu o un i bum ysgol i gyd. Roedd y pryderon yn cynnwys:

- Staff, gan gynnwys y rheiny a oedd yn cludo plant, heb fod ganddynt yr archwiliadau manwl gofynnol gan y SCT neu nad oedd eu harchwiliadau wedi'u hadolygu bob tair blynedd;
- Nid oedd ffeiliau staff yn cynnwys tystiolaeth fod yr holl archwiliadau gofynnol wedi'u cyflawni cyn cychwyn cyflogaeth. Dylai arferion recriwtio bob amser gynnwys prawf adnabod; dau dystlythyr ysgrifenedig, y dylai un ohonynt fod oddi wrth y cyflogwr blaenorol; tystiolaeth o gymwysterau; esboniad am unrhyw fylchau mewn hanes cyflogaeth a chofnod o ganlyniad y cyfweliad am swydd.
- Roedd y lefelau staffio'n achos pryder mewn dwy ysgol;
- Nid oedd chwe ysgol yn bodloni'r gofynion yn llawn o ran goruchwylio staff a gwerthusiadau blynyddol, sef dwy yn fwy ers yr adroddiad diwethaf;
- Roedd angen rhaglen hyfforddi fwy cynhwysfawr ar gyfer datblygu staff mewn tair ysgol.

## Trefnu a rheoli

Mae plant, eu rhieni a rhan-ddeiliaid eraill yn disgwyl i uwch aelodau staff a llywodraethwyr reoli darpariaeth y llety a'r gofal ac i fonitro eu hansawdd. Yn gyffredinol, mae'r ysgolion yn

parhau i gael eu trefnu a'u rheoli'n dda, a'u staffio mewn modd sy'n cyflwyno'r gofal gorau i'r plant sy'n mynychu. Mae'r trefniadau sydd wedi'u sefydlu er mwyn i uwch aelodau staff fonitro cofnodion penodol, ac felly goruchwylio ansawdd y gofal yn briodol, wedi gwella, gydag 11 ysgol yn ymgymryd â hyn bellach fel sy'n ofynnol.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau sydd wedi'u sefydlu er mwyn i gyrff llywodraethu, ymddiriedolwyr, partneriaethau neu sefydliadau cyfrifol eraill fonitro'r ysgolion wedi dirywio, gyda phedair ysgol heb gyflawni'r gofynion o'u cymharu â dwy y flwyddyn flaenorol.

Mae'r materion rheoli y mae angen cymryd camau yn eu cylch yn cynnwys:

- Cymwysterau;
- Goruchwyliaeth gan gyrff llywodraethu;
- Staffio a chynllunio adnoddau/cynllunio wrth gefn.

## Amddiffyn plant, cwynion a gorfodi

Yn ystod 2006-07, hysbyswyd ASGC am 10 achos pryder o ran amddiffyn plant, sef pedwar yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Camdriniaeth gorfforol honedig oedd pob un o'r rhain, gyda dwy ran o dair ohonynt yn deillio o anafiadau a gafwyd yn ystod ymyrraeth gorfforol ataliol gan staff. Mewn un ardal, mae hyn wedi arwain at drafod parhaus rhwng ASGC, yr ysgol a thîm amddiffyn plant yr awdurdod lleol. Mynychodd ASGC un cyfarfod strategaeth hefyd a oedd yn ymwneud ag amddiffyn oedolion agored i niwed.

Ni hysbyswyd ASGC am unrhyw gwynion, er y dilynwyd un, a wnaed gan berson ifanc, gan yr arolygydd yn ystod yr arolygiad.

Nid oes unrhyw bwerau gorfodi uniongyrchol yn bodoli mewn perthynas ag ysgolion, ond mae penaethiaid a rheolwyr wedi gweithio'n adeiladol gyda'r arolygwyr ac, ar y cyfan, maent yn ymateb yn gadarnhaol i ofynion arolygu. Nid oedd gan chwe ysgol unrhyw ofynion heb eu bodloni o'r flwyddyn flaenorol, ac roedd gan bum ysgol arall nifer fechan iawn heb eu bodloni. O ran y gweddill, nodwyd gwelliant dros gyfnod o amser ac mae hyn yn parhau.

## GWASANAETHAU I OEDOLION



Mae ASGC yn rheoleiddio'r gwasanaethau canlynol i oedolion:

- Cartrefi gofal
- Asiantaethau gofal cartref
- Cynlluniau lleoli oedolion
- Asiantaethau nyrsys

Wrth baratoi am y cynnydd disgwyliedig yn nifer y bobl hŷn yn ystod y degawd nesaf ac ar ôl hynny, disgwylir y bydd angen rhyw fath o gefnogaeth ar lawer o bobl. Mae mwy a mwy o bobl yn dewis aros yn eu cartrefi eu hunain a bod yn annibynnol yn eu cymunedau eu hunain mor hir â phosib. Mae gan y rheiny sy'n dewis gofal preswyl ddisgwyliadau cynyddol uwch o ran y ffordd y dylid darparu hyn.

Mae angen i wasanaethau addasu ac ymateb yn briodol i anghenion a gofynion newidiol defnyddwyr gwasanaeth. Mae ASGC yn ymrwymedig i weithio gyda darparwyr i wella gwasanaethau a safonau'n barhaus. Ein swyddogaeth ni yw sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gofal o ansawdd da sy'n bodloni eu hanghenion unigol eu hunain, naill ai yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau preswyl.

Mae ymagwedd ASGC at reoleiddio, sef trwy arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth o nifer o ffynonellau, yn ei gwneud yn haws i arolygu mewn ffordd fwy cyfannol. Mae barn defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i'r broses hon, ond mae barn gofalwyr, perthnasau a'r staff sy'n darparu'r gwasanaeth yr un mor bwysig. Mae hyn yn creu darlun mwy cywir o sut mae'r defnyddwyr yn gweld y gwasanaeth.

# CARTREFI GOFAL I OEDOLION



## TROSOLWG

Mae'r sector cartrefi gofal, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt mewn dwylo preifat, yn fawr, yn amrywiol ac yn gyfnewidiol. Mae nifer o gartrefi gofal wedi cau, ond pan ystyrir cofrestriadau a cheisiadau newydd, mae'n debygol y bydd nifer y lleoedd sydd ar gael wedi cynyddu.

Mae cynnydd o ran newid perchenogaeth cartrefi sydd eisoes yn bodoli a nifer y ceisiadau i amrywio amodau cofrestriad, yn pwysleisio natur gyfnewidiol y gwasanaethau hyn.

Ceir enghreifftiau o ddarparu gwasanaethau o ansawdd da ledled Cymru. Mae tystiolaeth o welliant o ran ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i unigolion a systemau sicrhau ansawdd. Mae angen gwella o hyd mewn sawl maes craidd sydd wedi bod yn achos pryder yn y gorffennol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adolygu cynlluniau gofal i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn lefelau priodol o ofal;
- Rhai agweddau ar iechyd, lles a diogelwch defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys rheoli meddyginiaeth ac asesiadau risg;
- Arferion cadarn ar gyfer recriwtio ac archwilio cefndir staff;
- Hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer staff er mwyn datblygu gweithlu medrus sy'n allweddol i gyflwyno gofal o ansawdd da;
- Lefelau staffio;
- Cynnal a chadw safleoedd.

Mae ASGC wedi ymchwilio i lai o gwynion eleni o ganlyniad i gynnydd yn y nifer ohonynt yr ymdrinnir â hwy erbyn hyn gan y darparwr gwasanaeth. Mae nifer yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion wedi cynyddu er bod ASGC wedi bod yn ymwneud â llai o ymchwiliadau.

## Proffil y sector

Mae dosraniad y farchnad rhwng y sectorau annibynnol ac awdurdodau lleol yn parhau i fod yn sefydlog, gyda'r sector annibynnol yn cynrychioli 86% ac awdurdodau lleol yn cynrychioli 14%.

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y lleoliadau a'r lleoedd mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn ac oedolion iau; y rheiny sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gofal personol a gofal nyrsio a'r rheiny sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gofal personol yn unig, ar 31 Mawrth 2007.

| Rhanbarth/ awdurdod lleol | Cyfanswm nifer y cartrefi gofal | | Nifer a gofrestrwyd i ddarparu gofal nyrsio | | Nifer a gofrestrwyd i ddarparu gofal personol yn unig | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cartrefi | Lleoedd | Cartrefi | Lleoedd | Cartrefi | Lleoedd |
| **Gogledd-orllewin** | **204** | **3909** | **48** | **1561** | **156** | **2348** |
| Conwy | 97 | 1897 | 30 | 848 | 67 | 1049 |
| Gwynedd | 64 | 1309 | 13 | 509 | 51 | 800 |
| Ynys Môn | 43 | 703 | 5 | 204 | 38 | 499 |
| **Gogledd-ddwyrain** | **162** | **3965** | **41** | **1596** | **121** | **2369** |
| Sir Ddinbych | 83 | 1687 | 18 | 626 | 65 | 1061 |
| Sir y Fflint | 37 | 974 | 11 | 425 | 26 | 549 |
| Wrecsam | 42 | 1304 | 12 | 545 | 30 | 759 |
| **Y Canolbarth** | **84** | **1875** | **16** | **756** | **68** | **1119** |
| Powys | 56 | 1238 | 11 | 520 | 45 | 718 |
| Ceredigion | 28 | 637 | 5 | 236 | 23 | 401 |
| **De-ddwyrain** | **187** | **4164** | **56** | **2113** | **131** | **2051** |
| Blaenau Gwent | 29 | 707 | 9 | 338 | 20 | 369 |
| Caerffili | 57 | 1117 | 11 | 478 | 46 | 639 |
| Sir Fynwy | 29 | 646 | 11 | 397 | 18 | 249 |
| Casnewydd | 46 | 986 | 14 | 521 | 32 | 465 |
| Tor-faen | 26 | 708 | 11 | 379 | 15 | 329 |
| **Caerdydd** | **89** | **1949** | **15** | **901** | **74** | **1048** |
| **Y Fro a'r Cymoedd** | **113** | **3031** | **30** | **1514** | **83** | **1517** |
| Merthyr Tudful | 17 | 304 | 2 | 80 | 15 | 224 |
| Rhondda Cynon Taf | 57 | 1647 | 19 | 948 | 38 | 699 |
| Bro Morgannwg | 39 | 1080 | 9 | 486 | 30 | 594 |
| **De-orllewin** | **201** | **4453** | **64** | **2521** | **137** | **1932** |
| Castell-Nedd Port Talbot | 53 | 1132 | 16 | 571 | 37 | 561 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 37 | 1055 | 10 | 492 | 27 | 563 |
| Abertawe | 111 | 2266 | 38 | 1458 | 73 | 808 |
| **Gorllewin** | **163** | **3321** | **30** | **1343** | **133** | **1978** |
| Sir Benfro | 72 | 1253 | 14 | 571 | 58 | 682 |
| Sir Gaerfyrddin | 91 | 2068 | 16 | 772 | 75 | 1296 |
| **CYFANSWM** | **1203** | **26667** | **300** | **12305** | **903** | **14362** |

Ar hyn o bryd, mae 25% o'r holl gartrefi gofal wedi'u cofrestru i ddarparu gofal nyrsio. Mae natur y categorïau cofrestru cyfredol yn golygu bod hawl gan bob un o'r 300 o gartrefi gofal hyn i ddarparu unrhyw nifer o leoedd yn amrywio o un hyd at eu huchafswm lleoedd.

Yn ystod 2006-07 collwyd 15 cartref gofal, er y gwrthbwyswyd hyn gan gynnydd yn nifer y cofrestriadau, sy'n golygu mai dim ond 12 lle yn llai oedd ar gael o'i gymharu â'r llynedd. Mae'n bosibl bod y gostyngiad hwn yn adlewyrchu'r ffaith fod nifer o gartrefi gofal nad oedd rheidrwydd arnynt bellach i gael eu cofrestru fel cartrefi gofal, yn cael eu rheoleiddio erbyn hyn fel asiantaethau lleoli oedolion neu ofal cartref.


Mae'r gostyngiad yn nifer y cartrefi gofal wedi arafu eleni gyda gostyngiad o 1% yn unig mewn cartrefi a gostyngiad o 0.05% mewn lleoedd. Mae hyn yn golygu bod y duedd tuag at i lawr o ran y gostyngiad yn nifer y cartrefi a'r lleoedd yn parhau.

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm nifer y cartrefi gofal cofrestredig a'r lleoedd ledled Cymru ar 31 Mawrth 2007.

| **Rhanbarth** | **Nifer y cartrefi gofal cofrestredig** | **Cyfran y cartrefi gofal cofrestredig** | **Nifer y lleoedd cofrestredig** | **Cyfran y lleoedd cofrestredig** |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd-orllewin | 204 | 17% | 3909 | 15% |
| Gogledd-ddwyrain | 162 | 13% | 3965 | 15% |
| Y Canolbarth | 84 | 7% | 1875 | 7% |
| De-ddwyrain | 187 | 16% | 4164 | 16% |
| Caerdydd | 89 | 7% | 1949 | 7% |
| Y Fro a'r Cymoedd | 113 | 9% | 3031 | 11% |
| De-orllewin | 201 | 17% | 4453 | 17% |
| Gorllewin | 163 | 14% | 3321 | 12% |
| **CYFANSWM** | **1203** | **100%** | **26667** | **100%** |

Mae cynnydd o 1% yn rhanbarth y De-orllewin eleni wedi'i wrthbwyso gan ostyngiad o 1% yn rhanbarth Caerdydd. Mae canran gyffredinol y cartrefi gofal a'r lleoedd mewn ardaloedd eraill yr un fath â'r llynedd.

> *Roedd yr arolygydd yn rhoi cymaint o sylw i'r defnyddwyr gwasanaeth â phosibl, gyda llawer ohonynt yn mwynhau ei hymweliad.'*
>
> *Darparwr/rheolwr, cartref preswyl i oedolion iau*




Mae'r siart flaenorol yn dangos yr amrywiad o ran nifer y lleoedd drwy gydol y flwyddyn. Bu gostyngiad yn y lleoedd rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2006 oherwydd bod cartrefi un ai wedi cau'n wirfoddol, am fod eu cofrestriad wedi ei ddiddymu neu am eu bod yn ceisio amrywio eu hamodau i leihau nifer y gwelyau. Caeodd pum cartref yn ardal y De-ddwyrain ym mis Medi 2006. Caeodd tri o'r rhain yn wirfoddol. Caeodd y ddau arall, a oedd yn darparu gofal nyrsio, o ganlyniad i wrandawiad Tribiwnlys Deddf Safonau Gofal 2000 a arweiniodd at ddiddymu cofrestriad y darparwr.

Mae ceisiadau i amrywio amodau i leihau nifer y gwelyau'n adlewyrchu'n rhannol y paratoadau sy'n cael eu gwneud gan ddarparwyr i fodloni'r gofyniad i ddarparu 80% o leoedd mewn ystafelloedd sengl erbyn mis Ebrill 2007. Roedd yr ymatebion i'r gofyniad newydd hwn yn amrywio. Derbyniodd ASGC geisiadau i gynyddu nifer y gwelyau lle yr oedd cartrefi wedi'u hymestyn, neu i'w lleihau pan oedd ystafelloedd a rennir yn newid i fod yn rhai sengl.

Cafwyd cynnydd yn nifer y gwelyau o fis Rhagfyr 2006 i fis Mawrth 2007. Roedd hyn o ganlyniad i amrywiadau i gynyddu nifer y gwelyau a phenderfynu ar geisiadau newydd ar draws pob rhanbarth.

Eleni, caeodd 33 cartref yn wirfoddol o'i gymharu â 49 y llynedd, fel y dangosir yn y tabl canlynol:

| | Blwyddyn | Gogledd-orllewin | Gogledd-ddwyrain | Y Canolbarth | De-ddwyrain | Caerdydd | Y Fro a'r Cymoedd | De-orllewin | Gorllewin | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cau gwirfoddol | 2005-06 | 10 | 4 | 3 | 14 | 8 | 1 | 3 | 6 | **49** |
| | 2006-07 | 5 | 4 | 4 | 6 | 6 | 1 | 1 | 6 | **33** |

Nid oedd rheidrwydd ar saith cartref i oedolion iau gael eu cofrestru bellach fel cartrefi gofal. Fe'u rheoleiddir erbyn hyn fel asiantaethau lleoli oedolion neu ofal cartref.

Eleni derbyniodd ASGC 185 o geisiadau am leoliadau gofal newydd. Er bod hyn yn dangos bod nifer y ceisiadau wedi lleihau ers 2005-06, unionwyd hyn gan y cynnydd yn nifer y cartrefi gofal a gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn.

Cafwyd cynnydd o 23% o ran newid perchenogaeth neu statws cyfreithiol cwmnïau sydd wedi'u cofrestru fel darparwyr gwasanaeth cartrefi sydd eisoes yn bodoli.

Derbyniodd ASGC 283 o geisiadau i gofrestru rheolwyr eleni. Er bod pedair ardal wedi nodi cynnydd yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, mae'r ffigurau cyffredinol yn gymharol â'r llynedd (281). Cafwyd cynnydd hefyd yn nifer y rheolwyr sy'n symud i leoliadau eraill o fewn yr un sefydliad darparu gofal. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd y ffaith fod costau cofrestru wedi'u dileu.

Roedd nifer y ceisiadau gan ddarparwyr i amrywio amodau 28% yn fwy eleni, yn rhannol o ganlyniad i ymrwymiad darparwyr i fodloni'r gofyniad o ran ystafelloedd sengl. Mae'r cynnydd hefyd yn darparu tystiolaeth o sut mae'r sector yn ymateb i anghenion newidiol defnyddwyr gwasanaeth yng Nghymru.

Fe all fod nifer o resymau dros amrywio amodau cofrestriad. Eleni, mae'r rhain wedi cynnwys newid o ran oedran a chategorïau'r defnyddwyr gwasanaeth mewn cartref. Mae nifer o ardaloedd wedi adrodd bod ceisiadau wedi'u gwneud i amrywio amodau mewn cartrefi gofal ar gyfer oedolion iau, i ddarparu gofal ar gyfer categorïau arbenigol fel awtistiaeth. Yn ogystal â hyn, mae'r prinder lleoedd a ddarperir ar gyfer dementia wedi arwain at gynnydd mewn ceisiadau ledled Cymru. Cyfrannodd darparu mwy o leoedd gofal nyrsio a'r angen am fwy o leoedd i bobl o dan 65 oed mewn cartrefi gofal i bobl hŷn a chartrefi gofal gyda nyrsio, hefyd at y cynnydd mewn ceisiadau i amrywio. O ran bob cais, mae'n ofynnol i ASGC geisio sicrwydd gan y darparwyr fod gan y gwasanaeth ddigon o staff sydd â'r sgiliau a'r galluoedd sy'n angenrheidiol i ddarparu gofal ar lefel uwch.

Er yr ystyrir priodoldeb pob cais yn unigol, fe all hyn amlygu tuedd y mae angen ei hystyried o ddifrif gan yr awdurdodau lleol a'r rheiny sy'n llunio polisïau.

Cafwyd rhywfaint o gynnydd yn nifer y cartrefi gofal bach (cartrefi gofal sydd â thri lle neu lai) ledled Cymru eleni. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y cartrefi gofal bach ar 31 Mawrth 2007 o'i gymharu â'r llynedd.

| Rhanbarth | Cyfanswm ar 31/03/06 | Cyfanswm ar 31/03/07 | Oedolion iau ar 31/03/07 | Oedolion hŷn ar 31/03/07 |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd-orllewin | 31 | 32 | 29 | 3 |
| Gogledd-ddwyrain | 16 | 16 | 14 | 2 |
| Y Canolbarth | 22 | 17 | 14 | 3 |
| De-ddwyrain | 33 | 32 | 32 | 0 |
| Caerdydd | 27 | 27 | 21 | 6 |
| Y Fro a'r Cymoedd | 16 | 17 | 16 | 1 |
| De-orllewin | 29 | 40 | 38 | 2 |
| Gorllewin | 26 | 28 | 24 | 4 |
| **CYFANSWM** | **200** | **209** | **188** | **21** |

Mae'r tabl yn dangos darlun lled sefydlog mewn pum rhanbarth, gostyngiad yng nghanolbarth Cymru a chynnydd sylweddol yn rhanbarth y De-orllewin. Derbyniodd rhanbarth y De-orllewin fwy o geisiadau am gofrestru cartrefi ar gyfer oedolion iau ag anabledd dysgu neu broblemau iechyd meddwl nag unrhyw ranbarth arall. Caeodd nifer o gartrefi bach yn wirfoddol yng Nghanolbarth Cymru, yn rhannol oherwydd ymddeoliad y darparwyr.

## Ansawdd y gwasanaeth

Eleni ystyriodd ASGC 86% o'r adroddiadau arolygu a oedd yn cyflwyno darlun cynhwysfawr o'r sector cartrefi gofal ledled Cymru. Mae'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol yn cwmpasu amrywiaeth o faterion sy'n sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gofal o ansawdd da sy'n briodol i anghenion pob unigolyn.

## *Diben y gwasanaeth*

Mae'n ofynnol i'r person cofrestredig gynhyrchu datganiad o ddiben a chanllaw defnyddwyr gwasanaeth priodol a chywir. Mae'r rhain yn ddogfennau pwysig sy'n nodi'r hyn y bydd y cartref yn ei gyflwyno, ac felly maent yn darparu fframwaith ar gyfer sut y bydd y cartref yn bodloni anghenion y defnyddwyr gwasanaeth. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth am addasrwydd y gwasanaeth o ran bodloni anghenion penodol ac yn esbonio'r hyn y bydd y cartref yn ei ddarparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth i'w cynorthwyo i wneud dewis cytbwys ynglŷn â gwasanaeth. Mae'n rhaid adolygu a diweddaru'r ddwy ddogfen hyn yn rheolaidd.

Mae canran gyffredinol y gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben a'r canllaw defnyddwyr gwasanaeth yn welliant sylweddol ar y llynedd. Fodd bynnag, dangosodd y dadansoddiad o'r adroddiadau y gwnaed gofynion mewn mwy na 30% o'r lleoliadau. Er bod rhai gofynion yn nodi un esgeulustod neu fethiant i ddarparu copi i ASGC a/neu ddefnyddwyr gwasanaeth, nodwyd esgeulustod sylweddol yn y ddwy ddogfen mewn rhai lleoliadau:

- Roedd 34% o'r adroddiadau'n nodi diffygion yn y datganiad o ddiben a oedd yn ymwneud â gwybodaeth graidd fel nodau ac amcanion y cartref gofal a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir;
- Roedd 20% o'r adroddiadau'n cynnwys gofynion mewn perthynas â chanllawiau'r defnyddwyr gwasanaeth. Roedd y rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar delerau ac amodau, talu ffïoedd, contractau a darparu crynodeb o'r adroddiad arolygu diweddaraf.

## *Bodloni anghenion unigol*

Mae angen i bob defnyddiwr gwasanaeth gael gofal personol sy'n bodloni ei anghenion unigol. Wrth i'r anghenion hynny newid, mae'n bwysig bod cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a'u diwygio pan fo hynny'n briodol. Mae darparwyr wedi gwella, ond mae angen mwy o waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn yn gyson:

- Bodlonodd 63% o gartrefi y gofyniad hwn, sydd ychydig yn well na'r llynedd. Mae angen o hyd i sicrhau'r eglurder a'r manylion sy'n angenrheidiol er mwyn darparu ar gyfer anghenion defnyddwyr gwasanaeth a'u bodloni yn gyson;
- Mae anghenion yn newid yn gyflym iawn a nododd 30% o'r adroddiadau fod angen gwella'r gwaith adolygu cynlluniau gofal y dylid ei wneud mewn ymgynghoriad â'r defnyddiwr gwasanaeth. Er bod ychydig o welliant ers y llynedd, mae'r rhain yn ofynion craidd ac felly maent yn parhau i fod yn bwysig.

Cafwyd gwelliant cyffredinol yn y ffordd y bodlonwyd anghenion iechyd a lles defnyddwyr gwasanaeth, gan arwain at lai o ofynion eleni. Mae'r meysydd hyn o'r rheoliadau â'u gwreiddiau ym mhrofiadau'r defnyddwyr gwasanaeth. Wrth ystyried cydymffurfiaeth, bydd arolygwyr wedi gosod gofynion am amryw o resymau, weithiau oherwydd materion o bwys ac weithiau oherwydd pryderon llai pwysig. Felly mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r casgliadau ar lefel Cymru gyfan.

O'u hystyried gyda'i gilydd, maent yn dangos y bu gwelliant parhaus yn y ffordd y bodlonwyd anghenion iechyd a lles defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Bodlonir y rheoliad sy'n ymwneud â chyfrifoldeb cyffredinol y darparwr i gynnal y cartref mewn ffordd sy'n bodloni anghenion cyffredinol mewn ychydig dros hanner y cartrefi.

Mae dadansoddi mwy manwl yn awgrymu darlun mwy cadarnhaol. Bodlonwyd y rheoliadau sy'n ymwneud â chynnwys defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau mewn 85% o'r adroddiadau a welwyd, a'r rhai sy'n ymwneud â sicrhau bod gwasanaethau'n ystyried eu dymuniadau a'u teimladau mewn 88% o'r adroddiadau a welwyd. Mewn 79% o'r cartrefi, roedd yr arolygwyr yn fodlon bod y cartref yn cael ei gynnal mewn ffordd a oedd yn parchu preifatrwydd ac urddas y defnyddwyr gwasanaeth. Dim ond mewn 1% o'r achosion yr oedd yr arolygwyr yn teimlo bod angen gwneud gofynion ynghylch yr angen am gael perthynas broffesiynol dda yn y cartrefi.

Ystyriwyd sampl fechan o adroddiadau er mwyn cyfrannu at ddadansoddi yn y dyfodol. Roeddent yn dangos enghreifftiau cadarnhaol o fodloni anghenion iechyd newidiol, a bod offer a chyngor priodol ar gael i reoli hyfywedd meinwe, iechyd maethol a gofal iechyd cyffredinol. Roedd hefyd yn rhoi enghreifftiau o ddefnyddwyr gwasanaeth yn gwneud dewisiadau gwirioneddol am arferion bob dydd fel amser prydau bwyd a'r dewis o fwyd.

Roedd dadansoddiad eleni hefyd yn awgrymu y gall ansawdd gwasanaethau amrywio ar draws Cymru. Bydd AGGCC yn cychwyn gwaith pellach i ganfod a oes patrwm i'r amrywiadau hyn.

Mae'r darlun cyffredinol yn dangos bod tystiolaeth o ofal personol o ansawdd da sy'n bodloni disgwyliadau'r rheoliadau ar gael ledled Cymru. Mae'n amlwg bod y fframwaith rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol a sefydlwyd wedi cael effaith gadarnhaol. Mae angen gwneud mwy o waith i gyflawni hyn yn gyson.

## *Rheoli'r gwasanaeth*

Cyfrifoldeb y darparwr a'u rheolwr yw ansawdd y gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal. Mae'n bwysig felly eu bod wedi sefydlu eu systemau adolygu ansawdd eu hunain, ac roedd 94% o'r cartrefi gofal yn y sampl yn bodloni'r gofyniad hwn. Mae hyn yn welliant sylweddol ers y llynedd.

Mae adolygu a gwella lefelau ansawdd ar ysbeidiau priodol yn bwysig hefyd, ond nid yw hyn yn digwydd ym mhob achos. Gwnaed gofyniad ynghylch amlder adolygiadau ansawdd mewn adroddiadau ym mhob rhanbarth ac eithrio'r Gogledd-ddwyrain.

O'r adroddiadau a welwyd, roedd 85% o'r gwasanaethau yn cael ymweliad gan y darparwr cofrestredig (pan nad ydynt yn rheoli'r cartref gofal) bob tri mis o leiaf. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad bychan ers y llynedd. Mae'r ymweliad yn rhoi cyfle i'r darparwr asesu safon y gofal, gweld cofnod o ddigwyddiadau a chwynion ac archwilio'r safle. Mae'n ofynnol i ddarparwyr baratoi adroddiad ar yr ymweliad hefyd.

Mae arferion da o ran cadw cofnodion yn hanfodol ac yn cyfrannu at gysondeb gofal. Mae cofnodion cywir a dibynadwy nid yn unig yn darparu tystiolaeth o ddarparu gwasanaeth o ansawdd da ym myd cymhleth gofal cymdeithasol, ond maent hefyd yn hanfodol i gyflwyno hynny. Mae'r rheoliadau'n benodol iawn ynghylch pa gofnodion y dylid eu cynnal a sut y dylid eu cadw. Dylai cofnodion defnyddwyr gwasanaeth gynnwys asesiad a chynllun unigol ynghyd â chofnodion sy'n ymwneud ag anghenion iechyd a lles a darparu gofal. O'r sampl a ddadansoddwyd, roedd 69% yn bodloni'r gofyniad hwn, sef gwelliant o 26% ers y llynedd.

## *Staffio a chefnogi staff*

Mae gofal o ansawdd da yn dibynnu ar gael gweithlu gofal a nyrsio ymroddedig a medrus sydd â'r cymwysterau priodol, sy'n cael eu rheoli, eu cefnogi a'u hyfforddi'n gywir ac sy'n addas i weithio gyda phobl agored i niwed.

- Roedd 45% o'r adroddiadau'n cynnwys gofynion mewn perthynas ag addasrwydd staff i weithio gyda phobl agored i niwed. Dylai fod gweithdrefnau recriwtio a chyflogi cadarn ar waith ac mae'n ofynnol i ddarparwyr gynnal cofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth lawn a boddhaol am y staff. Mae'n rhaid i hyn gynnwys tystiolaeth o hanes cyflogaeth, tystlythyrau, archwiliadau'r swyddfa cofnodion troseddol (SCT) a chymwysterau. Cafwyd y nifer mwyaf o ofynion o ran y materion hyn yn rhanbarthau Caerdydd, y Fro a'r Cymoedd, Canolbarth Cymru a Gorllewin Cymru. Roedd yr adroddiadau'n dangos nad oedd digon o fanylion o ran hanes cyflogaeth, tystlythyrau a phrawf adnabod;
- Roedd 50% o'r adroddiadau'n cyfeirio'n benodol at archwiliadau'r swyddfa cofnodion troseddol. Roedd rhywfaint o hyn yn ymwneud â'r prosesau sy'n gysylltiedig ag archwiliadau'r SCT a threfniadau 'POVAFirst'. Mae'n ofynnol i ddarparwyr adnewyddu archwiliadau'r SCT bob tair blynedd a chadw'r rhain tan yr ymweliad arolygu nesaf. Nid oedd hyn i'w weld ym mhob achos;
- Nodwyd lefelau staffio anghyson a diffyg cefnogaeth ar gyfer staff mewn 45% o'r adroddiadau. Mae hyn yn ddirywiad ers y llynedd. Mae nifer annigonol o staff ar ddyletswydd a staff nad oes ganddynt y sgiliau i ddarparu'r gofal angenrheidiol, yn gosod defnyddwyr gwasanaeth mewn perygl a, phan fo'r rheiny'n dibynnu ar gymorth gan staff, yn golygu eu bod yn agored iawn i niwed;
- Gwnaed gofynion mewn perthynas â goruchwylio staff yn briodol mewn 50% o'r adroddiadau. Mae hyn yn ddirywiad ers y llynedd;
- Roedd y nifer uchaf o ofynion, sef 66%, yn ymwneud â hyfforddiant. Mae hyn yn cynrychioli dirywiad sylweddol ers y llynedd pan oedd hyn yn wir mewn 31% o'r adroddiadau;
- Mae 86% o'r rheolwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal ar gyfer oedolion naill ai wedi cyflawni neu'n gweithio tuag at NVQ priodol mewn rheoli. Mae hyn yn gyson â'r niferoedd a gofnodwyd y llynedd. Mae'n siomedig na chyflawnwyd gwelliant pellach.

Nid yw'r pryderon staffio hyn yn ymwneud â diffyg polisïau neu fframweithiau sydd, ar y cyfan, wedi'u sefydlu. Mater ydyw sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaeth yn ei hanfod. Er bod yr adroddiad hwn yn amlygu gwelliannau mewn cartrefi gofal yng Nghymru, bydd yn anodd iawn cynnal hyn a darparu gwasanaeth cyson ledled Cymru heb fynd i'r afael â'r materion craidd hyn yn ymwneud â'r gweithlu.

## *Diogelwch a diogeliad*

Mae gan bob defnyddiwr gwasanaeth yr hawl i fyw mewn amgylchedd saff a diogel, lle yr anogir hwy i fod mor annibynnol â phosibl. Ers gweithredu'r Gorchymyn Diogelwch Tân ym mis Hydref 2006, y Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n bennaf gyfrifol am ddiogelwch rhag tân. Mae'r ddeddfwriaeth newydd hon wedi gosod cyfrifoldeb ar y darparwr i gynnal asesiad risg tân. Pan nodir pryderon yn ystod arolygiad, bydd ASGC yn hysbysu'r Gwasanaeth Tân amdanynt.

- Yn ystod y cyfnod o fis Ebrill i fis Hydref 2006, pan oedd ASGC yn gyfrifol am sicrhau bod gofynion diogelwch rhag tân yn cael eu bodloni, gwnaed gofynion mewn 26% o'r adroddiadau. Roedd y rhain yn ymwneud â chynnal a chadw offer tân, adolygu rhagofalon tân a hyfforddi staff mewn atal tân, ymarferion tân a gweithdrefnau pe byddai tân;
- Yn ôl y rheoliadau, mae'n ofynnol i berchenogion a rheolwyr cartrefi gofal sicrhau nad oes peryglon mewn unrhyw ran o'r cartref, a bod risgiau diangen i ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu canfod a'u dileu lle y bo hynny'n bosibl. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod systemau diogel ar waith ar gyfer symud a thrafod defnyddwyr gwasanaeth, asesiadau risg a chynnal a chadw offer. Roedd hyn yn achos pryder mewn mwy na 50% o'r adroddiadau;
- Mae rheoli meddyginiaeth yn dal i achosi problemau gyda gofynion yn cael eu gwneud yn hanner yr adroddiadau a welwyd, sef cynnydd o 6% ers y llynedd gyda'r nifer uchaf yn rhanbarthau'r Gogledd-orllewin, Canolbarth Cymru a Chaerdydd.

## *Y safle, cyfleusterau a gwasanaethau*

Mae'n bwysig bod y cartref y mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn byw ynddo'n gartrefol, yn ddiogel ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ei fod heb beryglon a'i fod yn bodloni anghenion unigol a chyffredinol.

- Roedd dyluniad, cynllun a chyfleusterau'r mwyafrif helaeth o gartrefi'n briodol ac yn bodloni'r safon ofynnol ar adeg cofrestru. Fel ag yn y ddwy flynedd ddiwethaf, gwnaed gofynion mewn 50% o'r adroddiadau ynghylch cyflwr adeiladau, glendid, addurno a chynnal a chadw offer yn dda;
- Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth hawl sylfaenol i breswylio mewn ystafell sengl oni bai eu bod yn dewis rhannu. Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol yn nodi ymagwedd fesul cam mewn cartrefi gofal sydd eisoes yn bodoli ar gyfer oedolion hŷn sydd â phedwar lle neu fwy. Mae darparwyr wedi gweithio'n galed i fodloni'r gofyniad penodol hwn, gyda thua 90% ohonynt wedi gwneud hynny'n llwyddiannus. Mae ASGC yn mynnu bod cynllun ar waith mewn cartrefi gofal unigol sy'n nodi'r camau y bydd y darparwr yn eu cymryd i gyflawni'r safon bwysig hon.

## Amddiffyn oedolion

Mae amddiffyn pobl agored i niwed yn agwedd allweddol ar waith ASGC. Mae'r arolygiaeth yn parhau i weithio gyda phartneriaid statudol i ddiogelu pobl agored i niwed. Mae protocol ar waith gydag awdurdodau lleol sydd â swyddogaeth arweiniol mewn amddiffyn oedolion. Mae ASGC yn canolbwyntio ar faterion rheoleiddiol sy'n deillio o ymchwiliadau.


Eleni mae ASGC wedi derbyn mwy o atgyfeiriadau amddiffyn oedolion. O'r rhain, arweiniodd 41% (347) ohonynt at ymchwiliad gan ASGC yn unig neu ymchwiliad ar y cyd gydag asiantaethau partner. Ymchwiliwyd i weddill yr atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill.

Cynhaliodd ASGC gyfanswm o 347 o ymchwiliadau yn ymwneud â 354 o ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws pob categori o gamdriniaeth. Mae'r rhain yn cynnwys camdriniaeth gorfforol, rhywiol, emosiynol neu seicolegol, ariannol ac esgeulustod. Roedd y nifer uchaf yn ymwneud ag esgeulustod a chamdriniaeth gorfforol ac roedd y nifer lleiaf yn ymwneud â chamdriniaeth ariannol a rhywiol. Mae hyn yn llai na'r 475 o ymchwiliadau a gynhaliwyd y llynedd, er y cafwyd amrywiadau sylweddol ar draws Cymru fel a gafwyd y llynedd.

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr achosion amddiffyn oedolion yn 2006-07.

| **Rhanbarth** | **Nifer yr ymchwiliadau amddiffyn yr oedd ASGC yn ymwneud â hwy** |
|---|---|
| Gogledd-orllewin | 14 |
| Gogledd-ddwyrain | 21 |
| Y Canolbarth | 4 |
| De-ddwyrain | 57 |
| Caerdydd | 62 |
| Y Fro a'r Cymoedd | 52 |
| De-orllewin | 106 |
| Gorllewin | 31 |
| **CYFANSWM** | **347** |

Nid yw'r achosion amddiffyn oedolion wedi'u gwasgaru'n gyfartal ar draws Cymru. Mae'r siart ganlynol yn dangos hyn. Mae'n annhebygol bod y patrwm hwn yn deillio o angen yn unig. Fe allai ddangos gwahaniaeth mewn ymwybyddiaeth ac ymatebolrwydd yn y system amddiffyn oedolion. Rydym o'r farn fod sail i ymchwilio i hyn ymhellach.



Mae'n nodedig y cynhaliwyd 61% (210) o'r holl ymchwiliadau amddiffyn oedolion mewn cartrefi gofal gyda nyrsio, er mai dim ond 25% o'r sector cyfan mae'r rhain yn ei gynrychioli. Roedd y pryderon eleni'n ymwneud â chamdriniaeth gorfforol, esgeulustod a chamdriniaeth emosiynol. Mae'r ffigur ychydig yn llai na'r llynedd, sef 64% (305), ond mae'n dal i fod yn achos pryder.

## Canlyniad ymchwiliadau

Mae ymchwiliadau amddiffyn oedolion yn aml yn gymhleth ac yn cynnwys ASGC ac asiantaethau partner. O ganlyniad i gymhlethdodau'r materion sy'n gysylltiedig, fe all gymryd amser hir i gael canlyniad i ymchwiliad, gyda nifer o asiantaethau'n gyfrifol am gymryd y camau angenrheidiol. Roedd ymchwiliadau i 264 o bryderon wedi'u cwblhau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Dangosir y math o gamdriniaeth a'r canlyniad yn y tabl canlynol.

| **Categori** | **Cadarnhawyd** | **Amhendant** | **Di-sail** | **Penderfynwyd nad yw'n fater amddiffyn oedolion** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|
| Corfforol | 31 | 44 | 13 | 10 | 98 |
| Rhywiol | 2 | 8 | 0 | 0 | 10 |
| Emosiynol | 11 | 18 | 4 | 6 | 39 |
| Esgeulustod | 26 | 41 | 20 | 8 | 95 |
| Ariannol | 3 | 14 | 2 | 3 | 22 |
| **CYFANSWM** | **73** | **125** | **39** | **27** | **264** |

Roedd ystod y camau a gymerwyd gan ASGC mewn ymateb i'r canlyniadau yn cynnwys:

- Gwneud gofynion rheoleiddiol, gydag amserlenni ar gyfer cydymffurfio o ran polisïau a gweithdrefnau, lefelau staffio a sgiliau'r staff, goruchwylio staff ac asesu a chynllunio gofal. Roedd y mwyafrif o'r gofynion a wnaed yn ymwneud â materion staffio. Gwnaed atgyfeiriad at restr POVA mewn tri achos;
- Monitro'r sefyllfa;
- Gwneud argymhellion i'r darparwr.

## Cwynion

Mae canllaw newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Gwrando a Dysgu* yn datgan yn glir y dylid datrys cwynion yn gyflym ac yn foddhaol ym man cyflwyno'r gwasanaeth lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'n ofynnol i bob gwasanaeth sefydlu gweithdrefn gwyno gadarn ac mae'n rhaid iddi fod yn briodol i'w hanghenion penodol hwy. Mae ASGC yn dilyn gweithdrefn

sefydledig er mwyn sicrhau ymateb prydlon i gwynion a wneir i'r arolygiaeth am gartrefi gofal cofrestredig.

Cafwyd gostyngiad yn nifer y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt gan ASGC eleni ynglŷn â chartrefi gofal. Derbyniodd ASGC 214 o gwynion gan achwynwyr unigol, sef gostyngiad o 2% ers y llynedd, sy'n parhau â'r duedd a ddechreuodd yn 2005-06. O'r rhain, atgyfeiriwyd 94 cŵyn i'r darparwr i'w datrys.

Mae rhai rhanbarthau yn ymwneud â mwy o ymchwiliadau i gwynion nag eraill. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr ymchwiliadau i gwynion fel cyfran o'r lleoedd cofrestredig:

| Rhanbarth | Nifer y cwynion | Cwynion fel canran o'r lleoedd |
|---|---|---|
| Gogledd-orllewin | 51 | 1.1% |
| Gogledd-ddwyrain | 44 | 1.3% |
| Y Canolbarth | 14 | 0.7% |
| De-ddwyrain | 27 | 0.6% |
| Caerdydd | 24 | 1.2% |
| Y Fro a'r Cymoedd | 16 | 0.5% |
| De-orllewin | 17 | 0.4% |
| Gorllewin | 21 | 0.6% |
| **CYFANSWM** | **214** | **0.8%** |

Roedd y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â phob agwedd ar ofal yn y cartref ac roedd llawer ohonynt yn gymhleth ac yn cynnwys nifer o bryderon. Ymchwiliwyd i bob mater yn unigol. Dosbarthwyd y cwynion a dderbyniwyd i gategorïau bras fel y dangosir yn y tabl canlynol:

| Categorïau bras | Nifer y cwynion |
|---|---|
| Arferion gofal - gofal personol ac ymateb i anghenion iechyd | 90 |
| Staffio a rheoli | 77 |
| Gofal nyrsio | 33 |
| Safleoedd | 30 |
| Arferion gofal - cynllunio gofal, meddyginiaeth | 12 |
| Bwyd | 11 |
| Proses dderbyn a chadw cofnodion | 9 |
| Gweithgareddau | 3 |

Yn yr un modd ag mewn amddiffyn oedolion, roedd y mwyafrif o'r cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â chartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn mewn lleoliadau sy'n darparu gofal nyrsio. Roedd natur y cwynion hyn yn gymhleth. Mae hyn yn achos pryder gan fod preswylwyr yn y cartrefi hyn yn agored iawn i niwed.

Derbyniodd pob ardal gwynion yn ymwneud â staffio a rheoli gwasanaethau. Roedd y nifer fwyaf o bryderon yn ymwneud â lefelau staffio, methiant i gyflwyno gofal yn unol â chynllun gofal y defnyddiwr gwasanaeth, agwedd y staff, a sgiliau a gallu'r staff i gyflwyno'r gofal a ddarperir.

Cafwyd y nifer fwyaf o gwynion am arferion gofal yn rhanbarthau'r Gogledd-orllewin, y Gogledd-ddwyrain a'r De-ddwyrain. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â materion gofal personol gan gynnwys hylendid, anghenion iechyd, meddyginiaeth, goruchwylio defnyddwyr gwasanaeth a chysylltu a chyfathrebu â theulu, ffrindiau ac eraill. Cafwyd y nifer fwyaf o gwynion mewn cartrefi gofal gyda nyrsio yn rhanbarth Caerdydd. Roedd y rhain yn ymwneud â safon y gofal nyrsio, meddyginiaeth, gofal briwiau pwyso, rheoli ymataliaeth a bodloni anghenion maethol.

Derbyniwyd cwynion am lendid y safleoedd mewn pum rhanbarth a derbyniwyd cwynion am safon y cyfleusterau a'r offer mewn tri rhanbarth.

Mae cydberthynas glir rhwng y categorïau cwynion â'r gofynion rheoleiddiol a wnaed mewn adroddiadau arolygu eleni.

Cwblhawyd 59% o'r ymchwiliadau yn ystod 2006-07 gyda 45% o'r cwynion yn cael eu cadarnhau, gan arwain at gamau'n cael eu cymryd gan ASGC.

## CYDWEITHIO I GYFLAWNI NEWID

*Mynegwyd pryderon gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol am ansawdd y gofal yn y cartref. Roedd y cartref yn rhan bwysig o'r gymuned ac yr oedd parch mawr wedi bod iddo ers blynyddoedd lawer. Roedd perchenogaeth y cartref wedi newid, roedd y rheolwr a fu yno ers sawl blwyddyn wedi gadael, ac felly hefyd nifer o'r staff. Cynhaliodd yr arolygydd ymweliad dirybudd yn gynnar un bore a chanfod problemau sylweddol. Cysylltwyd â'r perchennog a nododd yr arolygydd ddisgwyliadau clir ar gyfer newid, gan gynnwys amserlen.*

*Recriwtiodd y perchennog reolwr newydd yn gyflym. Sicrhaodd y rheolwr fod pawb yn ymwybodol o'i chynlluniau a gweithiodd yn agos â'r staff. Cyflwynodd gefnogaeth eglur a chynlluniau hyfforddi. Wrth i'r newidiadau ddechrau dwyn ffrwyth, roedd eraill yn dymuno gweithio yn y cartref.*

*Ymwelodd yr arolygydd â'r cartref yn rheolaidd gan ddiweddu gydag arolygiad llawn. O fewn pedwar mis roedd y cartref wedi gwella ac roedd unwaith eto'n darparu gofal o ansawdd da.*

## Goblygiadau

Mae'r casgliadau hyn yn dangos bod tystiolaeth o welliant mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn gyffredinol, er bod cryn dipyn o waith i'w wneud eto i ddarparu lefel gyson o wasanaethau priodol. Nid yw rhai gwasanaethau o safon dderbyniol.

Mae'r fframwaith rheoliadau a safonau wedi cael effaith, gan roi mwy o ffurfioldeb a strwythur i wasanaethau a chefnogi gwelliannau sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw. Gwnaed newidiadau pwysig i arfer rheoleiddiol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys cyflwyno dulliau sy'n canolbwyntio ar agweddau penodol. Mae'r rheoliadau newydd yn nodi'n glir mai'r darparwr sy'n gyfrifol am ansawdd eu gwasanaeth, ac mae'r rheoliadau newydd yn cyfeirio at yr angen i ddarparwyr gael eu cynlluniau sicrhau ansawdd cynhwysfawr eu hunain. Rhoddwyd pwyslais cryfach ar gydymffurfiaeth, gyda rheoliadau newydd ynglŷn â hysbysiadau cydymffurfio. Mae mwy o gamau gorfodi ffurfiol wedi eu cymryd a symleiddiwyd y gweithdrefnau gorfodi. Er y bydd yn cymryd amser i'r newidiadau hyn gael effaith, byddant yn cael dylanwad sylweddol yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf.

Nid rheoleiddio mwy llym yw'r unig ateb. Mae rhai o'r materion yn arwydd o broblemau ehangach sy'n ymwneud â systemau. Oni bai yr eir i'r afael â'r rhain, bydd darparwr gwael heddiw yn cael ei ddisodli gan ddarparwr gwael yfory. Awgrymasom yn adroddiad y llynedd, fod angen trafod yn awr i benderfynu sut y gellir cyflawni mwy o gysondeb, a chanfod y ffordd orau o ymdrin â'r cartrefi lle yr oedd safon y gwasanaethau ymhell islaw'r lefelau derbyniol. Mae angen i hyn hefyd fynd i'r afael â sut y bydd cartrefi gofal yn ymateb i ddisgwyliadau cynyddol y cyhoedd o ran gofal unigol. Bydd angen i'r drafodaeth hon ystyried sut i reoli'r newid hwn o fewn cyd-destun lle y darperir gwasanaethau gan nifer fawr iawn o ddarparwyr preifat.

Y llynedd, awgrymasom fod angen aildrefnu swyddogaeth y comisiynydd, y darparwr a'r rheoleiddiwr. Yn *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* rhoddwyd blaenoriaeth ganolog i gryfhau comisiynu a chontractio. Mae hon yn elfen hanfodol o'r aildrefnu hwnnw. Ni fydd y newidiadau y mae eu hangen yn digwydd heb gomisiynu a chontractio o ansawdd uchel.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth o ansawdd da hefyd yn ganolog i'r strategaeth ddeng mlynedd a amlinellwyd yn yr adroddiad hwnnw. Mae'n hanfodol bod darparwyr cartrefi gofal yn rhan o'r rhaglen ddatblygu hon. Mae mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu hefyd yn ganolog i'r newid hwn.

Efallai bydd rhai pobl yn herio'r model gofal, gan fynegi amheuon ynglŷn â gallu gwasanaethau mawr iawn i gyflwyno gofal unigol. Mae'r drafodaeth hon yn allweddol wrth i gartrefi gofal barhau i dyfu.

Fodd bynnag, wrth wraidd yr holl waith gwella a datblygu rhaid bod gwell gwerthfawrogiad o bobl hŷn. Heb gyflawni hyn, ni welir yr urddas cyson sy'n angenrheidiol fel sail i'r ffordd y cyflwynir gwasanaethau.

# GOFAL CARTREF



## TROSOLWG

Cafwyd cynnydd bychan yn nifer y darparwyr mewn rhai rhannau o Gymru.

Derbyniwyd nifer sylweddol o geisiadau rheolwr newydd, yn enwedig yn rhanbarthau'r Gogledd-orllewin a'r De-orllewin.

Gwelodd ASGC dystiolaeth o welliannau parhaus o ran:

- Gwybodaeth a'r modd y mae'r canllaw defnyddiwr gwasanaeth ar gael
- Gweithdrefnau cwyno
- Systemau ar gyfer adolygu ansawdd y gofal a ddarperir
- Storio cofnodion

Mae'r cynnydd tuag at gyflawni NVQ lefel 4 o ran rheolwyr yn parhau i wella.

Mae safonau'n dirywio mewn nifer o asiantaethau, gan gynnwys:

- Anghysondeb o ran cynllunio gofal, gan gynnwys darparu manylion penodol ac adolygiadau rheolaidd
- Lefel/diffyg cyfleoedd hyfforddi staff
- Mae gwerthuso yn y sector yn annerbyniol gyda'r rhan fwyaf o adroddiadau'n cynnwys hyn fel gofyniad

Mae angen parhau i roi sylw i rai arferion sy'n ymwneud ag egwyddorion sylfaenol gofal o ansawdd da, gan gynnwys:

- Gofynion o ran rheoli meddyginiaeth sydd wedi dyblu
- Symud a thrafod
- Goruchwyliaeth briodol ar gyfer staff

Nid yw arferion recriwtio sylfaenol yn cael eu dilyn yn llawn mewn nifer sylweddol o asiantaethau.

Mae ASGC wedi bod yn rhan o nifer o ymchwiliadau a chwynion yn ymwneud ag amddiffyn oedolion.

## Proffil y sector

Adroddodd ASGC fod 346 o asiantaethau gofal cartref wedi'u cofrestru ar 31 Mawrth 2007 o'i gymharu â 330 y llynedd, sef cynnydd o 5%. Mae'r cynnydd hwn wedi bod yn arbennig o amlwg yn rhanbarthau'r Dde-ddwyrain a'r De-orllewin gyda naw asiantaeth newydd yn gweithredu.

Mae'r math o ddarparwr yn dangos symudiad bychan tuag at y sector annibynnol gyda chynnydd o 3% yn y rhan honno o'r farchnad eleni o 84% i 87%. Mae darpariaeth awdurdodau lleol yn gweithredu ar 13% ar hyn o bryd. Nid yw'r canrannau hyn yn adlewyrchu gwir lefel y gwasanaeth a gyflwynir gan y sector cyhoeddus, gan mai maint asiantaeth yn unig y mae ASGC yn ei gofnodi yn hytrach na chwmpas cyffredinol y ddarpariaeth.

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr asiantaethau gofal cartref cofrestredig yn ôl awdurdod lleol ar 31 Mawrth 2007.

| **Rhanbarth/ awdurdod lleol** | **Cyfran yr asiantaethau gofal cartref cofrestredig yn ôl rhanbarth ac awdurdod lleol** | **Nifer yr asiantaethau gofal cartref yn ôl rhanbarth ac awdurdod lleol** |
|---|---|---|
| **Gogledd-orllewin** | **9%** | **30** |
| Conwy | 4% | 14 |
| Gwynedd | 3% | 12 |
| Ynys Môn | 2% | 4 |
| **Gogledd-ddwyrain** | **15%** | **54** |
| Sir Ddinbych | 6% | 21 |
| Sir y Fflint | 5% | 19 |
| Wrecsam | 4% | 14 |
| **Y Canolbarth** | **6%** | **20** |
| Powys | 3% | 12 |
| Ceredigion | 3% | 8 |
| **De-ddwyrain** | **21%** | **73** |
| Blaenau Gwent | 2% | 8 |
| Caerffili | 5% | 18 |
| Sir Fynwy | 4% | 13 |
| Casnewydd | 5% | 17 |
| Tor-faen | 5% | 17 |
| **Caerdydd** | **12%** | **40** |
| **Y Fro a'r Cymoedd** | **11%** | **39** |
| Merthyr Tudful | 1% | 4 |
| Rhondda Cynon Taf | 5% | 18 |
| Bro Morgannwg | 5% | 17 |
| **De-orllewin** | **17%** | **60** |
| Castell-Nedd Port Talbot | 4% | 14 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4% | 13 |
| Abertawe | 9% | 33 |
| **Gorllewin** | **9%** | **30** |
| Sir Benfro | 5% | 17 |
| Sir Gaerfyrddin | 4% | 13 |
| **CYFANSWM** | **100%** | **346** |

Nid yw dosbarthiad asiantaethau ar draws Cymru wedi newid. Mae asiantaethau mawr yn parhau i fod yn flaenllaw yn y farchnad ar gymhareb o ddwy i un.

Cafwyd 109 o geisiadau rheolwr newydd eleni. Daeth mwy na 40% o'r rhain o ardaloedd y De-ddwyrain a'r De-orllewin. Mae'n ymddangos bod rhai o'r sefydliadau mwy wedi bod yn gwneud mwy o symud rheolwyr o fewn y sefydliad. Mae'n bosib bod dileu ffïoedd ar gyfer ceisiadau newydd wedi cyfrannu at hyn hefyd.

O ran unrhyw gais i amrywio amodau, mae'n ofynnol i'r darparwr ddangos tystiolaeth y bydd perfformiad yr asiantaeth yn bodloni'r safonau ansawdd a nodwyd yn y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Yn ogystal â hyn, mae angen iddo gyflawni nodau ac amcanion yr asiantaeth ei hun yn llawn. Derbyniodd ASGC 51 cais i amrywio amodau cofrestru eleni. Daeth bron i hanner y rhain o ranbarthau'r Gogledd-ddwyrain a'r De-ddwyrain.

Roedd nifer sylweddol ohonynt yn geisiadau i newid neu ehangu categorïau gofal mewn ymateb i amodau'r farchnad yn lleol. Yn ogystal â hyn, mae rhai asiantaethau bach wedi ehangu eu darpariaeth a newid eu cofrestriad i fod yn asiantaethau gofal cartref mawr.

## Ansawdd y gwasanaeth

> *Gall arolygiadau fod yn eithaf brawychus. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ffordd y cynhaliwyd hwn, nid yw'r rheiny a fu'n gysylltiedig yn poeni bellach am unrhyw arolygiadau yn y dyfodol. Mae lle i wella bob amser, ond fel y rheolwr cofrestredig roeddwn yn teimlo petai problemau'n codi, byddai y ASGC yno i'n cefnogi.*
>
> *Uwch reolwr ardal, awdurdod lleol*

Ystyriodd ASGC 294 o adroddiadau arolygu, sy'n cynrychioli 85% o gyfanswm nifer yr asiantaethau gofal cartref sydd wedi'u cofrestru. Mae hyn o'i gymharu â'r sampl o 20% a ddadansoddwyd y llynedd. Mae hyn yn darparu dadansoddiad mwy manwl a thrylwyr o ansawdd y ddarpariaeth ar draws Cymru. Yn ogystal â hyn, mae'r ymagwedd newydd at reoleiddio wedi rhoi safbwynt systemau cyfan i ASGC, sy'n ei gwneud yn gynyddol bosibl i roi tystiolaeth at ei gilydd o nifer o ffynonellau, yn enwedig barn y defnyddwyr gwasanaeth ynglŷn â sut y cyflwynir y gwasanaeth iddynt hwy fel unigolion. Adlewyrchir eu barn yn yr adroddiad arolygu.

## *Bodloni anghenion y defnyddwyr gwasanaeth*

Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adroddiad am y cynnydd a wnaed hyd yma o ran y *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn* a lansiwyd yn 2003, gan wneud argymhellion allweddol ar gyfer y cam datblygu nesaf yn y sector hwn. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr amcan strategol canlynol:

*Hybu a datblygu amrywiaeth o wasanaethau gofal cartref, cefnogi ac ymgynghorol yng Nghymru er mwyn cynnig dewisiadau i bobl hŷn o ran cael cefnogaeth effeithiol i gynnal eu hannibyniaeth.*

*Ewch i http://new.wales.gov.uk/topics/olderpeople/publications/strategy*

Mae ASGC yn rheoleiddio pob asiantaeth gofal cartref yn gyffredinol, ac nid darpariaeth gwasanaethau unigol. Ein nod ar gyfer y maes rheoleiddio cymharol newydd hwn yw cefnogi darparwyr i sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer darparu'r gwasanaeth o ran cynllunio a chyflwyno. Bydd hyn yn helpu i sicrhau mwy o gysondeb o ran y gwasanaethau gofal cymdeithasol sydd ar gael ac ansawdd y gwasanaethau hynny. Mae adroddiad eleni'n amlygu nifer o ddiffygion lle y mae angen cyflawni gwelliannau o hyd, ac mewn rhai achosion, lle mae'r safonau sylfaenol wedi dirywio ers y llynedd.

Mae materion sy'n ymwneud â'r trefniadau manwl ar gyfer darparu gofal personol a chynllunio ac adolygu unigol yn dal i achosi pryder. Yn benodol:

- Nododd 43%, sef cynnydd o 18% ar ffigur y llynedd, y diffyg cydymffurfiad rhwng cynllun cyflwyno gwasanaeth yr asiantaeth a chynlluniau gofal yr awdurdod lleol. Mae hyn yn arwain at oblygiadau o ran cysondeb y gwasanaeth a ddarperir i'r unigolyn. Mae rhai wedi dadlau bod hwn yn gamwahaniaeth a bod angen newid y polisi o'r herwydd;
- Ni chafwyd gwelliant ers y llynedd o ran darparu manylion penodol am anghenion defnyddwyr gwasanaeth na sut y dylid bodloni'r anghenion hyn gan yr asiantaeth;
- Nododd 29% nad oedd cynlluniau cyflwyno gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae hyn yn peri gofid arbennig am ei bod yn ofynnol i ddarparwyr ymateb i anghenion newidiol yr unigolyn, yn enwedig pan ddisgwylir i ddefnyddwyr gwasanaeth fod yn fwy annibynnol.

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl risgiau posibl yn cael eu hasesu. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo pobl i reoli risgiau heb gyfyngu ar eu rhyddid i wneud eu dewisiadau eu hunain. Roedd y gofynion a nodwyd yn cynnwys materion yn ymwneud â diogelwch cyffredinol defnyddwyr gwasanaeth a diogelu defnyddwyr gwasanaeth yn eu cartrefi eu hunain, e.e. gweithiwr gofal naill ai ddim yn dod neu'n cyrraedd yn hwyr. Mae cynnydd o 36% i 48% yn nadansoddiad adroddiadau eleni'n dangos bod angen gwneud gwaith pellach ynglŷn â hyn.

Disgwylir i bob asiantaeth gael polisi a gweithdrefn ar gyfer rhoi meddyginiaeth, ac y mae'n rhaid eu dilyn yn ddiwyd.

- Amlygodd 37% o'r adroddiadau arolygu fylchau o ran gweithwyr gofal yn dilyn gweithdrefnau sylfaenol. Mae'r ffigur hwn wedi dyblu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y materion yn cynnwys cadarnhau bod meddyginiaeth wedi'i rhoi, cofnodi pan oedd defnyddwyr gwasanaeth yn gwrthod cymryd eu meddyginiaeth a'r rhesymau am hynny;
- Nododd 31% o'r adroddiadau fod asesiadau risg ar gyfer symud a thrafod yn faes y mae angen ei wella.

Mae tueddiadau cyffredinol mewn perthynas â'r canllaw defnyddiwr gwasanaeth yn awgrymu gwelliannau sylweddol, yn enwedig o ran y wybodaeth graidd sydd ar gael i'r rheiny sy'n derbyn y gwasanaeth.

- Mae 92% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael gafael ar y canllaw cyfredol o'i gymharu â 75% y llynedd;
- Roedd 95% o'r canllawiau defnyddiwr yn cynnwys canllawiau clir ar ganslo ymweliadau, sef gwelliant o 19% ers yr adroddiad blaenorol a gyhoeddwyd;
- Ni fu newid o ran eglurder y ffordd yr hysbysir defnyddwyr gwasanaeth am delerau ac amodau'r asiantaethau ers adroddiad y llynedd, sef 23%. Mae angen gwella'r sefyllfa hon.

Cafwyd gwelliant eleni o ran cynnal a storio cofnodion o fewn asiantaethau, gydag 84% o ddarparwyr yn bodloni'r gofyniad hwn, sef gwelliant o 11% ers y llynedd, sy'n gadarnhaol.

## Staffio a chefnogi staff

Mae recriwtio a chadw staff yn dipyn o her ym maes gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, ni ddylid gochel nac osgoi gweithdrefnau recriwtio er mwyn cyflymu'r broses. Mae'n rhaid i ddarparwyr fodloni eu hunain yn llwyr fod pob archwiliad wedi'i wneud cyn i'r gweithiwr gofal ddechrau yn ei swydd. Mae agweddau amrywiol ar hanfodion sylfaenol arferion recriwtio yn nadansoddiad eleni'n achos pryder difrifol i ASGC. Lle na ddilynwyd y broses hon yn llawn, mae arolygwyr wedi mynnu bod darparwyr yn mynd i'r afael â hyn fel mater o frys. Bydd y Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed (2006) newydd yn ei gwneud yn drosedd i ddarparwyr recriwtio gweithwyr heb gynnal archwiliadau llawn.

- Roedd mwyafrif helaeth (91%) yr adroddiadau arolygu a ystyriwyd yn dangos diffygion o ran y wybodaeth a'r dogfennau perthnasol a oedd ar gael ynglŷn â gweithwyr gofal. Roedd hyn yn cynnwys yr angen am ddau dystlythyr ysgrifenedig a ddilyswyd, a darparu prawf adnabod priodol. Roedd tystiolaeth fod archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) heb eu cwblhau mewn nifer fechan o adroddiadau.
- Rhoddwyd gofyniad ar 29% o ddarparwyr i sicrhau eu bod yn bodloni eu hunain bod pob gweithiwr gofal yn profi ei hanes cyflogaeth ac yn cadarnhau pam y daeth ei swydd flaenorol i ben.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cynrychiolwyr, trwy'r Grŵp Cyswllt Darparwyr Cenedlaethol (NPLG), wedi mynegi pryderon ynglŷn â materion recriwtio a chadw staff yn y sector. Yn arbennig, pa un a fyddai llacio archwiliadau'r SCT mewn gofal cartref yn lliniaru'r broblem. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymarfer ymgynghori ar raddfa fechan gyda nifer o ran-ddeiliaid allweddol a oedd yn teimlo y dylai'r sefyllfa bresennol barhau, er mwyn diogelu pobl agored i niwed. Mae ffyrdd eraill o gyflymu'r prosesau gweinyddol yn cael eu trafod ar hyn o bryd.

Mae rheolaeth dda yn gwneud gwahaniaeth, ac mae gwasanaethau gofal sy'n bodloni safonau rheoli yn fwy tebygol o lawer o fodloni safonau eraill hefyd.

Mae'r sector yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol o ran bodloni'r gofynion hyfforddi ar gyfer rheolwyr cofrestredig. Y llynedd, cyflawnodd 41% y cymwysterau priodol o'i gymharu â 67% eleni. Mae hyn yn dangos bod rheolwyr cofrestredig ar y trywydd iawn i gyflawni NVQ Lefel 4 erbyn 2009. Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar wybodaeth gan 341 o asiantaethau o'r 346 sydd eisoes wedi'u cofrestru, ac maent yn cynrychioli asiantaethau mawr a bach a darparwyr tai â chymorth. Mae hefyd yn bosibl bod gan nifer fechan o asiantaethau fwy nag un rheolwr cofrestredig, ac o ganlyniad mae'r ffigurau a ddangosir yn fwy na 100%.

Cymwysterau cyrhaeddiad rheolwyr cofrestredig ar 31/03/07

| **Cyfran y rheolwyr cofrestredig sydd:** | |
|---|---|
| Eisoes wedi cwblhau'r cymhwyster priodol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd | 67% |
| Wedi cofrestru ar gwrs ac yn ei fynychu ar hyn o bryd er mwyn cael eu cymhwyster | 26% |
| Yn y broses o gofrestru | 4% |
| Heb amserlen ar gyfer cwblhau'r cymhwyster | 7% |

Mae prinder staff neu weithlu heb ei hyfforddi'n briodol yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd y gofal a gynigir. Mae'n bwysig bod y gweithlu'n teimlo'n gymwys yn yr hyn y mae'n ei wneud a bod ansawdd y gofal a ddarperir gan asiantaeth yn gwella o flwyddyn i flwyddyn.

- Roedd 80% o'r sampl o adroddiadau arolygu'n cyfeirio at y ffaith fod gan staff asiantaethau y sgiliau i gyflawni eu gwaith, sef gwelliant ers y llynedd. Fodd bynnag, mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau bod gan bob gweithiwr gofal y wybodaeth arbenigol sy'n angenrheidiol i ddarparu'r math perthnasol o ofal. Fel rhan o'r arolygiad, olrheinir achos nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn canfod y gofal a ddarperir ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys ystyried a yw staff medrus yn cael eu paru yn briodol i anghenion y defnyddiwr gwasanaeth; a chodir hyn gyda'r darparwr os nad yw'n digwydd;
- Roedd 39% o'r adroddiadau'n cynnwys gofyniad a oedd yn ymwneud â gweithwyr gofal yn derbyn goruchwyliaeth briodol gan eu rheolwr, sef gwelliant o 10% ers y llynedd. Mae'n bwysig bod staff yn cael amser i ystyried a thrafod eu harfer er mwyn ychwanegu at eu datblygiad proffesiynol parhaus yn ogystal â theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion o fewn y sefydliad.

Mae darparu gofal cartref yn unigryw am ei fod yn faes amrywiol iawn ac yn cynnwys pob grŵp oedran a gwahanol lefelau o ofal, y gall fod angen gwahanol sgiliau ar eu cyfer. Mae hyfforddiant a gwerthuso parhaus yn allweddol i alluogi asiantaeth i gyflwyno gwasanaethau o ansawdd sy'n bodloni anghenion grŵp amrywiol. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y diffyg cyfleoedd hyfforddi a gwerthuso ar gyfer staff. Amlygodd y rhan fwyaf o'r adroddiadau yr angen i'r staff gael hyfforddiant priodol er mwyn medru bodloni anghenion y rheiny y maent yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer. Cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd staff yn derbyn yr hyfforddiant priodol o ran amddiffyn plant ac oedolion mewn 33% o'r adroddiadau.

## *Sicrhau ansawdd*

Mae'r rheoliadau ym maes gofal cartref yn cynnwys disgwyliadau penodol o ran darparu gwasanaethau o ansawdd a gweithdrefnau cwyno. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn o ran y ddau reoliad hyn yn ymwneud â dadansoddi adroddiadau dros naw mis, oherwydd ym mis Ionawr 2007, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru reoliadau mwy cadarn mewn perthynas â systemau sicrhau ansawdd a chwyno.


Mae ASGC yn monitro ac yn sicrhau bod gan ddarparwyr gofal systemau priodol a hygyrch ar waith lle y gall defnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr gyflwyno sylwadau i'r asiantaeth am unrhyw agwedd ar y gwasanaeth y maent yn anfodlon â hi. Roedd y prosesau hyn wedi'u sefydlu mewn 99% o'r sampl.

O ran adolygu ansawdd y gofal, y llynedd roedd darparwyr wedi gwneud dechrau addawol i gyflawni hyn gydag 85% ohonynt yn bodloni'r gofyniad. Eleni mae'r dadansoddiad yn dangos y bu gostyngiad o 6% o ran prosesau sicrhau ansawdd. Mae'n siomedig na chynhaliwyd y cynnydd hwn, yn enwedig gan fod y ffigurau hyn yn cynrychioli dadansoddiad dros gyfnod o naw mis yn unig. Bydd ASGC mewn sefyllfa well i wneud sylwadau manylach o lawer o ran sicrhau ansawdd a chwynion mewn adroddiadau blynyddol dilynol.

## Amddiffyn oedolion/plant

Mae sylfaen yr ymagwedd at waith amddiffyn yn seiliedig ar waith amlasiantaethol a chydweithio da. Mae ASGC yn cyflawni swyddogaeth allweddol gydag asiantaethau partner fel awdurdodau lleol a'r heddlu, mewn ymchwiliadau i gamdriniaeth a gofal amhriodol. Eleni roeddem yn ymwneud â chyfanswm o 38 ymchwiliad naill ai fel yr unig ymchwiliwr neu ar y cyd gydag asiantaethau eraill. Mae'r ffigur hwn yn gynnydd ers y llynedd.


Nifer yr achosion amddiffyn oedolion yr ymchwiliwyd iddynt yn ôl rhanbarth ar 31/03/07



Nid oedd dosbarthiad yr ymchwiliadau'n gyfartal ar draws Cymru. Ymdriniodd rhanbarth y De-orllewin â 42% o'r holl ymchwiliadau, tra na chafwyd unrhyw ymchwiliadau yn rhanbarthau Canolbarth a Gogledd-orllewin Cymru. Mae'n annhebygol bod hyn yn adlewyrchu gwahaniaethau o ran angen. Fe all fod o ganlyniad i wahanol ymagweddau yn y ffordd y mae systemau amddiffyn oedolion yn gweithio mewn gwahanol ardaloedd.

Gellir gweld y math o ymchwiliad yn y siart ganlynol.

Cyfran yr ymchwiliadau amddiffyn oedolion yn ôl math ar 31/03/07




O'r ymchwiliadau amddiffyn oedolion/plant, roedd 32 yn ymwneud ag asiantaethau mawr a chwech yn ymwneud â thai â chymorth. Ni chofnodwyd unrhyw ymchwiliadau yn ymwneud ag asiantaethau gofal cartref sy'n darparu llai na 200 o oriau o ofal personol yr wythnos.

## Cwynion

Yn ystod 2006-07, gwnaed cyfanswm o 44 cŵyn. O'r rhain, cyfeiriwyd 12 i'w datrys yn lleol gan y gwasanaeth. Mae hyn ychydig yn fwy na ffigur y llynedd, er bod cynnydd yn nifer yr asiantaethau a gofrestrwyd eleni. Roedd y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt yn bennaf gysylltiedig â'r meysydd canlynol:

- Rheoli/gweithredu yr asiantaeth;
- Arferion gofal, yn enwedig materion sy'n ymwneud â chysondeb gofal, ymatebolrwydd y gwasanaeth a chyflwyno gofal personol;
- Recriwtio staff;
- Anallu'r gwasanaeth i gyflwyno gofal priodol;
- Agwedd y staff.

Mae'r tabl canlynol yn dangos dosbarthiad cwynion yn ôl rhanbarth.

| Rhanbarth | Gogledd-orllewin | Gogledd-ddwyrain | Y Canolbarth | De-ddwyrain | Caerdydd | Y Fro a'r Cymoedd | De-orllewin | Gorllewin | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwynion | 7 | 9 | 1 | 12 | 4 | 4 | 5 | 2 | **44** |

Ymdriniodd dau ranbarth, sef y Gogledd-ddwyrain a'r De-ddwyrain, â 48% o'r cwynion yr ymchwiliwyd iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r ganran hon yn gymesur â nifer yr asiantaethau sydd yn y rhanbarthau penodol hyn. Ymdriniodd Canolbarth a Gorllewin Cymru â'r nifer lleiaf o gwynion, gan gynrychioli 7% o'r cwynion a wnaed.

# CYNLLUNIAU LLEOLI OEDOLION



## TROSOLWG

Eleni, gwelwyd twf sylweddol yn y sector lleoli oedolion.

Yn gyffredinol, cynhaliwyd ansawdd y gofal ers y llynedd gyda gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud.

- Roedd dau gynllun yn bodloni gofynion y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol yn llawn eleni;
- Mae'r ymweliadau bob chwe mis gan y darparwr cofrestredig wedi gwella;
- Mae angen o hyd i'r sector fynd i'r afael â rhai materion sy'n ymwneud â hyfforddiant a datblygiad ar gyfer gofalwyr lleoli oedolion er mwyn sicrhau bod anghenion unigol defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i gynllunio a chyflwyno gwasanaeth;
- Mae angen i ddefnyddwyr gwasanaeth gael sicrwydd bod manylion y gofal sydd i'w ddarparu yn benodol iddynt hwy, yn dilyn asesiad o'u hanghenion;
- Mae angen parhau i adolygu'r datganiad o ddiben a'r canllaw lleoli oedolion.

## Proffil y sector

Cafwyd rhai newidiadau eleni ym mhatrwm y sector lleoli oedolion gydag un cynllun newydd wedi'i gofrestru yng Ngorllewin Cymru ac un cynllun wedi'i ddarparu'n allanol gan awdurdod lleol i ddarparwr sector annibynnol cyfredol. Mae cyfanswm o ddeg cynllun lleoli oedolion yn dal i weithredu, ond mae nifer y lleoliadau wedi cynyddu i 283 eleni. Mae cynlluniau lleoli oedolion ar waith mewn pum rhanbarth erbyn hyn, o'i gymharu â phedwar rhanbarth y llynedd, ac mae mwy o ardaloedd wedi'u cynnwys.

Ceir wyth cynllun awdurdod lleol a dau sydd â statws elusennol yn y sector annibynnol.

Mae cynllun arall yn y broses o'i gofrestru yn rhanbarth y Gogledd-ddwyrain, ond ar 31 Mawrth 2007, nid oedd hyn wedi'i benderfynu arno. Caerdydd a Canolbarth Cymru yw'r unig ddau ranbarth sydd naill ai heb gynlluniau ar waith neu heb fwriad o ddatblygu cynlluniau yn y dyfodol agos.

Nifer y lleoliadau ym mhob cynllun lleoli oedolion ar 31/03/07

| **Rhanbarth** | **Y cynllun a'r ardal dan sylw** | **Nifer y lleoliadau ym mhob cynllun** | **%** |
|---|---|---|---|
| Gogledd-orllewin | Cyngor Gwynedd yn cynnwys Ynys Môn hefyd | 37 | 13% |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (PSS) Conwy | 28 | 10% |
| De-ddwyrain | Sir Fynwy a Chasnewydd | 39 | 14% |
| | Caerffili | 34 | 12% |
| Y Fro a'r Cymoedd | Ategi, yn cynnwys Caerdydd, Tor-faen, Rhondda Cynon Taf | 45 | 16% |
| | Bro Morgannwg | 32 | 11% |
| De-orllewin | Castell-nedd a Phort Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe | 50 | 18% |
| Gorllewin | Sir Gaerfyrddin gan gynnwys Sir Benfro a Cheredigion | 18 | 6% |
| **CYFANSWM** | | **283** | **100%** |

## Ansawdd y gwasanaeth

Dyma'r ail flwyddyn o arolygu cynlluniau lleoli oedolion, ac felly gellir cymharu ag ansawdd gwasanaeth y llynedd. Mae dadansoddiad y gwasanaeth yn seiliedig ar fwy na hanner y gwasanaeth, sy'n debyg i'r llynedd.

Cynlluniau sy'n cael eu rhedeg yn lleol yw cynlluniau lleoli oedolion sy'n galluogi hyd at ddau berson ag anghenion gofal a chymorth i fyw mewn amgylchedd cartref teuluol. Gall hyn amrywio o leoliad tymor hir parhaol i leoliadau tymor byr. Fe all hefyd gynnwys cyfnodau o ofal seibiant a gynlluniwyd yn benodol i fodloni anghenion defnyddiwr gwasanaeth unigol. Er y datblygwyd y gwasanaeth yn wreiddiol i fodloni anghenion pobl ag anableddau dysgu yn bennaf, mae hefyd yn darparu ar gyfer anghenion eraill defnyddwyr gwasanaeth megis anabledd corfforol, problemau iechyd meddwl a'r rheiny ag anghenion gofal sy'n deillio o henoed.

- Gwnaed 18 gofyniad ar y chwe chynllun a ystyriwyd eleni. Mae hyn yn gynnydd bychan o'i gymharu â sampl y llynedd;
- Yn gyffredinol, mae'r sector wedi cydweithio â'r arolygiaeth i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion o ran darparu gwasanaeth. Er gwaethaf y cynnydd bychan o 5% yn y gofynion pro rata, mae tystiolaeth o welliannau a datblygiadau parhaus mewn cynlluniau unigol. Mae angen ailadrodd y duedd hon ar draws y sector.

## Bodloni anghenion unigol

- Mae barn defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i effeithiolrwydd arolygiadau. Mae ein harolygwyr yn defnyddio nifer o wahanol ddulliau i ganfod barn defnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr. Gall y rhain gynnwys mynychu gwahanol gyfarfodydd gofalwyr lleoli oedolion; cyfarfodydd defnyddwyr gwasanaeth; trafod wyneb yn wyneb â rheolwyr cynlluniau a'r staff a thrafod yn unigol gyda'r defnyddwyr gwasanaeth. Cafwyd ymateb da i'r holiaduron a anfonwyd drwy'r post at ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr hefyd. Mae adborth cyffredinol wedi dangos bod defnyddwyr gwasanaeth yn ystyried lleoli oedolion fel profiad cadarnhaol ar y cyfan.

> *Rwy'n hapus gyda fy ngofalwr lleoli oedolion ac yn mwynhau bod yn rhan o'i theulu. Rwyf hefyd yn mwynhau medru gwneud pethau drosof fy hun.*
>
> *Defnyddiwr gwasanaeth*

## Cynllunio ar gyfer gofal

O safbwynt y rheoleiddiwr, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ddiffyg unrhyw welliant sylweddol o ran y wybodaeth sylfaenol sydd ar gael sy'n galluogi defnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr i wneud penderfyniad cytbwys ynglŷn â natur y gwasanaeth a ddarperir gan y cynllun.

- Roedd hanner yr adroddiadau arolygu a ystyriwyd yn cynnwys gofynion ynghylch manylion y gofal i'w ddarparu. Gan ein bod yn nesáu at y drydedd flwyddyn arolygu yn y maes rheoleiddio hwn, dylai gwybodaeth safonol o'r fath fodloni gofynion sylfaenol y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol;
- Mae angen adolygu'r datganiad o ddiben a'r canllaw lleoli oedolion a'u cadw'n gyfredol. Roedd hyn yn ofyniad mewn dau adroddiad arolygu ac mae'n hanfodol er mwyn gwneud penderfyniad cytbwys am drefniadau lleoli oedolion.

Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth yr hawl i ddisgwyl i'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio fodloni eu hanghenion penodol a bod dull cyflwyno'r gwasanaeth yn adlewyrchu hyn. Mae Rheoliad 13 yn gosod manylion yr hyn a ddisgwylir gan y darparwr a'r gofalwr lleoli oedolion o ran datblygu cytundebau ar gyfer unigolion.

- Amlygwyd hyn fel maes i'w wella yn hanner yr adroddiadau, er y bu rhywfaint o welliant ers y llynedd.

Amlygodd tri adroddiad arolygu ddiffyg manylion yn y telerau a'r amodau o ran y gwasanaethau i'w darparu, gan gynnwys y weithdrefn i'w dilyn:

- Roedd angen mwy o fanylion mewn un adroddiad ynglŷn â phryd y bydd gofalwr yn gweithredu fel person penodedig ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth, er mwyn bodloni'r rheoliad yn llawn;
- Nododd un adroddiad fylchau o ran rhoi meddyginiaeth;
- Gwelwyd mewn un adroddiad nad oedd y cytundeb lleoli'n nodi'r ystafell a oedd i'w defnyddio gan y defnyddiwr gwasanaeth yng nghartref y gofalydd lleoli oedolion.

## Materion rheoli

Mae rheolaeth dda yn gwneud gwahaniaeth i ansawdd y ffordd y mae gwasanaeth lleoli oedolion yn cael ei gyflwyno. Mae hyn yn amlwg yn sgil absenoldeb gofynion o ran agweddau ar recriwtio a datblygiad parhaus ar gyfer y rheolwr cofrestredig.

- Ni osododd yr arolygiaeth unrhyw ofynion ar ddau gynllun. Mae hyn yn welliant sylweddol;
- Roedd nifer y darparwyr cofrestredig a oedd yn ymweld â chynlluniau bob chwe mis yn amlwg yn hanner y sampl. Mae hyn yn welliant. Mae'r ymweliadau hyn yn sicrhau bod ansawdd cyflwyno gwasanaeth yn cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd. Maent hefyd yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth, eu cynrychiolwyr a gofalwyr lleoli oedolion leisio'u barn, yn gyfrinachol, i berson annibynnol nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau bob dydd y cynllun.

## Hyfforddiant a datblygiad personol staff

Yn dilyn cofrestru cynlluniau i ddechrau, addawodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r safonau gofynnol cenedlaethol a'r rheoliadau yn dilyn y flwyddyn gyntaf o arolygiadau. Mae'r adolygiad hwn wedi cychwyn erbyn hyn a bydd yn cynnwys trafodaethau gyda'r Gymdeithas Cynlluniau Lleoli Oedolion Genedlaethol (NAAPS) ar bob agwedd ar y gwasanaeth, gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad ar gyfer gofalwyr lleoli oedolion, er mwyn sicrhau bod y rheiny sy'n darparu'r gofal yn gymwys ac yn meddu ar y sgiliau priodol.

- Amlygodd dau adroddiad yr angen i gynlluniau ymgymryd â dadansoddiad o anghenion hyfforddi gofalwyr ac i roi rhaglen hyfforddi ar waith sy'n bodloni anghenion canfyddedig y defnyddwyr gwasanaeth unigol. Yn arbennig, nododd un adroddiad fater hyfforddiant penodol mewn perthynas â meddyginiaeth ac epilepsi.

## Amddiffyn oedolion a chwynion

Ymdriniodd ASGC ag un gŵyn ac un ymchwiliad amddiffyn oedolion eleni.

# ASIANTAETHAU NYRSYS



## TROSOLWG

Roedd yn ofynnol i asiantaethau nyrsys yng Nghymru gofrestru gyda'r Cynulliad ym mis Hydref 2003 ac fe'u harolygwyd gan ASGC ers mis Ebrill 2004. Yn ystod y cyfnod arolygu tair blynedd ers hynny, bu gostyngiad sylweddol yn y gofynion rheoleiddiol a wnaed.

Gwnaed gwelliannau sylweddol mewn sawl maes, gan gynnwys:

- Rhaglenni hyfforddi staff;
- Goruchwylio a gwerthuso;
- Cofnodion staff mwy cyflawn;
- Prosesau recriwtio.

## Proffil y sector

Rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2007 caeodd dau leoliad a chofrestrodd dau leoliad o'r newydd, gan gynnal cyfanswm o 34 asiantaeth. Mae nifer o'r asiantaethau hyn wedi'u cofrestru i ddarparu gofal cartref hefyd, ac felly maent yn destun dau fframwaith rheoleiddiol sydd ychydig yn wahanol i'w gilydd.

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr asiantaethau nyrsys corfrestredig o 2005-07.

| Rhanbarth | Nifer wedi'u cofrestru ar 31/03/05 | Nifer wedi'u cofrestru ar 31/03/06 | Nifer wedi'u cofrestru ar 31/03/07 |
|---|---|---|---|
| Gogledd-orllewin | 1 | 2 | 2 |
| Gogledd-ddwyrain | 5 | 5 | 4 |
| Y Canolbarth | 0 | 1 | 1 |
| De-ddwyrain | 3 | 5 | 5 |
| Caerdydd | 6 | 6 | 7 |
| Y Fro a'r Cymoedd | 5 | 4 | 3 |
| De-orllewin | 6 | 6 | 7 |
| Gorllewin | 6 | 5 | 5 |
| **CYFANSWM** | **32** | **34** | **34** |

## Ansawdd y gwasanaeth

Caeodd nifer o wasanaethau yn ystod 2006-07 ac felly ni chawsant eu harolygu. Cofrestrwyd nifer fechan o asiantaethau newydd. Mae'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol yn arwain y broses arolygu ac adrodd, gan ddarparu tystiolaeth lle y cânt eu bodloni trwy drafod gyda'r staff, ac archwilio trefniadau, cofnodion, systemau sicrhau ansawdd a pholisïau'r asiantaeth.

Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y gofynion rheoleiddiol a wnaed yn ystod y tair blynedd o arolygu. Yn ystod 2004-05, gwnaed 195 o ofynion; yn ystod 2005-06 gwnaed 61 gofyniad, ac yn ystod 2006-07, dim ond 34 gofyniad a wnaed.

Y llynedd, gwnaethom sylwadau ar ddiffygion mewn datganiadau o ddiben, llawlyfrau staff, goruchwylio a hyfforddi staff a chofnodion staffio. Gwnaed cryn dipyn o gynnydd ym mhob un o'r meysydd hyn, a chafwyd gwelliant amlwg gyda systemau cwynion ac adrodd mwy cadarn.

Pan wnaed gofynion, roeddent yn dueddol o adlewyrchu meysydd tebyg i'r rheiny a ddangoswyd yn adroddiad y llynedd. Fodd bynnag, gwnaed llai o ofynion o lawer, ac mae'r rhan fwyaf o ofynion a wnaed yn flaenorol wedi'u bodloni erbyn hyn.

Roedd systemau cynhwysfawr ar gyfer arfer recriwtio a hyfforddi staff wedi'u sefydlu yn y rhan fwyaf o asiantaethau.

> *"Mae'r asiantaeth nyrsys hon.....yn hwyluso diwrnodau hyfforddi ac astudio, nid yn unig ar gyfer ei haelodau ond hefyd ar gyfer staff nyrsio a gyflogir yn y sector annibynnol, ac felly'n rhoi cyfle i aelodau rwydweithio â'u cydweithwyr sy'n gweithio yn yr un meysydd gofal."*
>
> *Arolygydd ASGC*

## Amddiffyn, cwynion a gorfodi

Ymchwiliwyd i ddwy gŵyn gan ASGC. Yn y ddau achos, roedd y rhain yn ymwneud ag elfen gofal cartref yr asiantaethau. Roedd tystiolaeth hefyd fod cwynion a wnaed yn uniongyrchol i'r asiantaethau'n cael eu datrys yn llwyddiannus yn lleol. Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau na materion gorfodi o ran amddiffyn oedolion.

# PENNOD TRI

## SUT Y CYFLAWNODD ASGC EI HAMCANION YN YSTOD 2006-07



Gosododd ASGC naw amcan craidd iddi'i hun ar gyfer 2006-07. Mae'r bennod hon yn nodi ein perfformiad yn ôl yr amcanion hyn.

### *AMCAN UN*

*Cyflwyno cyfrifoldebau statudol ASGC o ran cofrestru, arolygu, cwynion, cydymffurfio a gorfodi (RICCE) yn unol â'n cyfrifoldebau a'n cyllideb statudol a pholisïau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chryfhau ein system sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad.*


Yn ystod y flwyddyn, ymgymerodd ASGC â'i chyfrifoldebau rheoleiddiol ym meysydd allweddol cofrestru, arolygu, cwynion, cydymffurfio a gorfodi. O ystyried hyn yn gyffredinol, mae'n glir bod cyflwyno fframwaith rheoleiddiol ar gyfer gofal cymdeithasol wedi cefnogi gwelliant yn y gwasanaethau hyn ledled Cymru. Mae'r rhaglen bwysig hon i ddiwygio rheoleiddio hefyd yn peri i ddarparwyr ganolbwyntio'n fwy ar eu cyfrifoldebau ac yn caniatáu i'r rheoleiddiwr ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae arfer yn anghyson neu'n wael.

Mae gan ASGC raglen barhaus i werthuso ei pherfformiad ei hun. Cynhaliwyd gwerthusiad y llynedd ar draws pedwar rhanbarth, i ystyried sut yr oeddem yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Bydd hyn yn helpu i gyfeirio gwaith y sefydliad ar gydymffurfio a gorfodi yn y dyfodol.

## Cofrestru

Yn ystod 2006-07, ymdriniodd ASGC â 1,132 o geisiadau i gofrestru. Cofrestru yw un o'n swyddogaethau allweddol fel corff rheoleiddiol, ac mae'r ffigur hwn yn dangos ein bod yn ymdrin â nifer fawr o geisiadau. Mae angen i bron pob gwasanaeth gofrestru gydag

ASGC cyn dechrau gweithredu. Ein swyddogaeth yw sicrhau y byddant yn darparu ansawdd y gwasanaeth a fynnir gan y rheoliadau. Mae'r siart ganlynol yn dangos nifer y ceisiadau i gofrestru yn ôl y math o wasanaeth.




Mae proffil cofrestriadau eleni'n debyg i geisiadau'r llynedd, gyda'r mwyafrif, fel ag yn flaenorol, yn cael eu derbyn oddi wrth wasanaethau gofal dydd i blant. Cafwyd cynnydd o 2% mewn ceisiadau am gofrestru cartrefi gofal yn y sector. Cartrefi gofal mawr oedd y rhain yn bennaf a oedd yn cynnig amrywiaeth o anghenion gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn ogystal â hyn, mae tystiolaeth o nifer o ddarpariaethau arbenigol ar raddfa fechan, yn enwedig yn rhanbarthau'r De-orllewin a Chaerdydd. Mae gostyngiad o 1% mewn gwasanaethau gofal dydd i blant, tra bod lefel y cofrestriadau ar gyfer cartrefi plant wedi aros yr un fath.

## Arolygu

Cwblhaodd ASGC 4,208 o ymweliadau arolygu y llynedd. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd ac arolygiadau dirybudd. Cynhaliwyd 1,305 o arolygiadau ar gyfer gwasanaethau oedolion a 2,903 ar gyfer gwasanaethau plant. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad sylweddol o 2,265 o arolygiadau yr ymgymerwyd â hwy ar draws pob gwasanaeth, sy'n adlewyrchu ein hymagwedd newydd, gymesur yn y meysydd rheoleiddio a ddiwygiwyd gennym a'r lleihad o ran amlder arolygu gwarchodwyr plant ers mis Ebrill 2006.

Cynhaliodd ASGC 2,611 o ymweliadau monitro ychwanegol yn ystod 2006-07. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad sylweddol ers adroddiad y llynedd ac yn adlewyrchu mwy o eglurder ynglŷn â swyddogaeth ASGC. Roedd nifer fawr o'r ymweliadau ychwanegol hyn a gofnodwyd yn gysylltiedig ag olrhain achosion. Yn hyn o beth, gallant fod wedi cynnwys ymweliadau â

theulu a gofalwyr yn ogystal â'r defnyddwyr gwasanaeth eu hunain. Roedd rhai ymweliadau'n angenrheidiol er mwyn archwilio materion cydymffurfiaeth a monitro'r lleoliadau hynny a oedd yn achosi pryder penodol.

Mae ein holl adroddiadau arolygu, ac eithrio'r rhai hynny nad ydynt ar gael i'r cyhoedd, am resymau cyfrinachedd, e.e. meysydd penodol o fewn gwasanaethau plant, ar gael i'r cyhoedd.

Ein nod yw cyhoeddi adroddiadau o fewn cyfnod penodol i ddyddiad yr arolygiad. Cyflawnwyd y targed hwn mewn 75% o achosion, sy'n welliant ar y llynedd. Gallai hyn fod yn rhannol o ganlyniad i fformat newydd yr adroddiadau arolygu a gyflwynwyd gan ASGC yn ystod 2005-06, sy'n fwy syml ac yn canolbwyntio mwy ar y defnyddiwr gwasanaeth.

## Amddiffyn plant ac oedolion

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr hysbysiadau amddiffyn oedolion a phlant o 2005-07.

| | 2005-06 | 2006-07 |
|---|---|---|
| Amddiffyn oedolion | 475 | 386 |
| Amddiffyn plant | 169 | 222 |
| **CYFANSWM** | **644** | **608** |

Mae'n ofynnol i lawer o wasanaethau plant rheoledig hysbysu ASGC am faterion amddiffyn plant sy'n codi waeth beth fo natur neu achos y pryder. Dim ond os yw'r pryder yn cynnwys goblygiadau ar gyfer diogelwch plant neu reolaeth y gwasanaeth y bydd ASGC yn gweithredu. Paratowyd y ffigurau uchod o'r hysbysiadau y mae ASGC yn eu derbyn. Mae'r nifer sydd angen sylw a gweithredu rheoleiddiol yn is na hyn.

Mae'r ffigurau ar gyfer amddiffyn plant yn dangos cynnydd cyffredinol. Yn y ddau adroddiad diwethaf mae ASGC wedi nodi nad oedd pob gwasanaeth yn cyflwyno'r hysbysiadau hyn fel sy'n ofynnol, ac rydym wedi bod yn gweithio gyda darparwyr ac asiantaethau statudol i ddatrys hyn. Mae'r cynnydd mewn hysbysiadau ar gyfer cartrefi plant a gwasanaethau maethu. Mae'n bur debyg bod y cynnydd mewn ffigurau amddiffyn plant yn gysylltiedig â gwell trefniadau ar gyfer ein hysbysu ynglŷn â'r rhain. Mae lefel achosion amddiffyn plant mewn gofal dydd plant wedi gostwng unwaith eto eleni.

Er y cafwyd cynnydd mewn atgyfeiriadau amddiffyn oedolion, bu ASGC yn ymwneud â llai o ymchwiliadau mewn cartrefi gofal oedolion. Mae hyn yn adlewyrchu gwell dealltwriaeth o swyddogaeth ASGC gan sefydliadau allweddol eraill sydd bellach yn cydnabod mai ein cylch gwaith yw canolbwyntio ar agweddau rheoleiddiol ehangach yn hytrach nag achosion unigol o reoli gofal.

## Cwynion

Cafwyd 261 o gwynion ar draws ystod y gwasanaethau oedolion, o'u cymharu â'r 258 a gofnodwyd yn ein hadroddiad blynyddol 2005-06, a 165 o gwynion mewn perthynas â gwasanaethau plant o'i gymharu â 156 y llynedd.

Er yr ymdrinnir yn briodol â'r rhan fwyaf o gwynion ar lefel leol, mae sawl dewis ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth os oes angen iddynt wneud cŵyn. Gallant gwyno i ddarparwr neu brynwr y gwasanaeth, i ASGC fel y corff rheoleiddiol, neu i unrhyw gyfuniad o'r tri. Yn y gorffennol, gallai hyn arwain at sefyllfa ddryslyd ar gyfer yr achwynwr a dyblygu amser ac adnoddau pan fyddai sawl sefydliad yn ymchwilio i'r un mater.

Mae canllaw cwynion newydd y gwasanaethau cymdeithasol *Gwrando a Dysgu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006) bellach yn cael ei gefnogi hefyd gan reoliadau newydd ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir. Mae hyn wedi sicrhau cysondeb ar gyfer yr holl brosesau cwyno ac wedi symleiddio gweithdrefnau cwyno yn sylweddol.

Eleni cyflawnwyd datrysiad lleol mewn 106 o'r 258 o gwynion am y gwasanaethau oedolion ac mewn 48 o'r 168 o gwynion am y gwasanaethau plant. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyder cynyddol mewn darparwyr yn datrys materion yn lleol yn ogystal â chydnabod y swyddogaeth allweddol y maent bellach yn ei chyflawni mewn ymchwiliadau i gwynion. Mae'r lefel hon o ymchwilio gan ddarparwyr i faterion sy'n ymwneud â'u gwasanaeth eu hunain yn debyg i ffigurau'r llynedd.

## Cydymffurfio

Mae ASGC yn ymateb i dor-rheoliadau mewn sawl ffordd. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, yr hyn sydd ei angen yw gosod gofynion ar y darparwr, sy'n gyfreithiol atebol am ansawdd y gwasanaeth. Mae ASGC wedi bod yn datblygu ymagweddau mwy soffistigedig at gydymffurfio, gan ganolbwyntio ei hymdrechion dros gyfnod byrrach er mwyn datrys anawsterau. Daeth rheoliadau newydd i rym ym mis Ionawr 2007, sy'n mynnu bod darparwyr yn cynhyrchu cynlluniau cydymffurfiaeth a dogfennau hunanasesu, er mwyn darparu sylfaen gyfreithiol fwy cadarn ar gyfer y gweithredu hyn. Mae ASGC hefyd yn trafod gyda pherchenogion corfforaethol pan fydd anawsterau'n profi i fod yn anodd eu datrys. Mae'r ymagwedd hon wedi arwain at newidiadau sylweddol.

Ni all rheoleiddio ar ei ben ei hun sicrhau gwelliant. Mae contractwyr a chomisiynwyr yn gyfrifol am sicrhau gofal addas ar gyfer y rheiny y maent yn gwneud trefniadau ar eu cyfer. Mae AGCC wedi bod yn arwain gwaith i atgyfnerthu arweiniad ar fynd i'r afael â phryderon sy'n dwysáu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu cyhoeddi arweiniad ffurfiol ynglŷn â hyn. Bydd hyn yn egluro swyddogaethau ac yn amlinellu disgwyliadau.

Mae darparwyr yn gyfreithiol atebol am y gwasanaeth y maent yn berchen arno ac yn ei ddarparu. Mae rheoliadau a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2007 yn mynnu bod gan ddarparwyr gynlluniau sicrhau ansawdd a'u bod yn eu rhoi ar waith mewn ffyrdd penodol. Mae canllaw gorfodi sy'n seiliedig ar brofiadau ac sy'n cynnwys y rheoliadau y cyfeiriwyd atynt uchod wrthi'n cael ei baratoi. Mae'r canllaw yn symleiddio prosesau gorfodi.

Bu angen cymryd camau gorfodi ffurfiol mewn rhai achosion. Mae penderfyniad diweddar gan dribiwnlys wedi egluro'r hyn y dylid ei ystyried wrth wneud penderfyniadau o'r fath, yn enwedig wrth asesu'r prawf lles y cyhoedd. Mae hyn yn pwysleisio bod yn rhaid ymateb i'r tor-rheoliad yn ogystal â bodloni prawf lles y cyhoedd eang ei gwmpas. Mae profiad ASGC yn dangos y dylai gwaith ganolbwyntio'n gyffredinol ar wella, a bod gweithredu'n gadarn yn briodol mewn rhai amgylchiadau. Oherwydd natur systematig llawer o fethiannau gwasanaeth, mae angen ymateb ar draws y gwasanaeth er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Fel y nodwyd yn y bennod ar gartrefi gofal, heb hyn bydd darparwr gwael heddiw yn cael ei ddisodli gan ddarparwr gwael yfory.

## *AMCAN DAU*

*Rheoli'r rhaglen newid ar gyfer rheoleiddio yng Nghymru: Diwygio Rheoleiddio a chyflwyno meysydd rheoleiddio newydd neu ddiwygiedig gan ddefnyddio'r egwyddorion diwygio a amlinellir yn Adroddiad Hampton.**

*(*Reducing administrative burdens, effective inspection and enforcement - Philip Hampton, Mawrth 2005)*

Yn dilyn cyfarfodydd ymgynghori, grwpiau peilot a rhaglen ymwybyddiaeth helaeth gyda grwpiau perthnasol o ddarparwyr, cyflwynodd ASGC gam cyntaf ei dulliau newydd o reoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru, ym mis Ebrill 2006.

Roedd cam cyntaf y diwygio'n canolbwyntio'n bennaf ar weithdrefnau arolygu newydd sydd bellach yn fwy cymesur a dirybudd. Mae hyn yn galluogi ASGC i ganolbwyntio adnoddau ar y meysydd hynny lle mae'r angen mwyaf amdanynt, gyda phrosesau symlach sy'n lleihau baich rheoleiddio, ar yr un pryd â chanolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae ein hangen ni fwyaf ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

Gwarchod plant, cartrefi gofal i oedolion, gofal preswyl i blant a gofal cartref oedd y sectorau cyntaf i elwa ar hyn. Mae'r pedwar sector hyn yn cynrychioli cyfran fawr o waith rheoleiddiol ASGC.

Yn yr hydref 2006, ehangwyd y diwygio i arolygu gofal sesiynol (cylchoedd chwarae) a gwasanaethau oedolion iau. Gwnaed newidiadau i ofal y tu allan i'r ysgol a gwasanaethau maethu o fis Ebrill 2007.

Daeth rheoliadau newydd i rym ym mis Ionawr 2007 sy'n cefnogi'r rhaglen ddiwygio.
Mae'r rhain yn ymwneud â phedwar prif faes: adolygu ansawdd gofal, asesiad y darparwyr eu hunain o'u gwasanaeth; hysbysu am gydymffurfiaeth a gweithdrefnau cwyno.

Yn unol â nodau *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru a Chyflawni'r Cysylltiadau* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005), roedd y cynllun gweithredu, a oedd yn mynd i'r afael â diwygio gwasanaethau cyhoeddus, a swyddogaeth reoleiddio ac arolygu ASGC, yn allweddol wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn atebol, yn effeithiol ac yn effeithlon a'u bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd a oedd yn gymesur â'r angen.

## *AMCAN TRI*

*Ailgynllunio'r prosesau trefniadaethol a gweinyddol o fewn ASGC, gan leihau nifer y dogfennau sy'n ofynnol gennym gan ddarparwyr, a sicrhau bod yr holl ddogfennau allweddol ar gael yn electronig.*

Mae ASGC wedi sicrhau bod nifer o ddogfennau allweddol ar gael yn electronig. Mae'r ffurflen hunanasesu ar gael yn electronig ar gais erbyn hyn. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at leihau nifer y dogfennau a symleiddio systemau gweinyddol.

Amlygodd archwiliad mewnol o'n busnes fod angen sicrhau bod yr holl ddogfennau allweddol ar gael trwy ein gwefan er mwyn iddynt fod yn hawdd eu gweld a'u defnyddio. Bellach gellir lawrlwytho rhai o'n dogfennau rheoleiddiol, e.e. ceisiadau i amrywio a hysbysiadau am ddigwyddiadau o bwys, o'n gwefan www.cssiw.org.uk.

Un o amcanion allweddol yr arolygiaeth newydd fydd hwyluso rheoleiddio trwy well ddefnydd o dechnoleg. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi cofrestru a hunanasesu ar-lein.

## *AMCAN PEDWAR*

*Sicrhau bod cefnogaeth, cymysgedd sgiliau, dosbarthiad a rheolaeth staff yn briodol er mwyn cyflwyno ymagwedd ddatblygol ASGC at reoleiddio.*

Mae 345 o aelodau staff wedi'u lleoli ar draws wyth rhanbarth ac yn ein swyddfa genedlaethol. Mae'r grŵp mwyaf yn cynnwys arolygwyr, ac yna staff gweinyddol a rheolwyr. Mae 38 aelod o staff ym mhob rhanbarth ar gyfartaledd. Mae grŵp gweithredu hyfforddiant a datblygiad ASGC yn goruchwylio'r rhaglen datblygu staff. Canfyddir anghenion datblygu staff trwy gynlluniau perfformiad unigol ac mae'r rhaglen hyfforddi'n ceisio bodloni anghenion pob grŵp o staff.

Mae trigain arolygydd wedi cofrestru ar yr RCSA (Dyfarniad Rheoleiddio Gwasanaethau Gofal) ers i'r cwrs ddechrau yn 2004 ac mae 30 wedi cwblhau'r Dyfarniad. Mae hon yn rhaglen arloesol ar gyfer Cymru gyfan a gyflwynir mewn partneriaeth ag UWIC (Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd).

Gall arolygwyr ddewis 'ychwanegu' at y cymhwyster hwn drwy gyflawni BSc (Anrh) neu MSc. Mae deunaw aelod o staff naill ai wedi ennill eu gradd neu'n gweithio tuag at hynny. Mae'r ddau gymhwyster hyn yn cynnwys prosiect ymchwil a thraethawd estynedig, sy'n ymholi'n wrthrychol am faterion rheoleiddiol yng Nghymru.

Mae darparwr hyfforddiant corfforaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno rhan o'r hyfforddiant ar gyfer staff ASGC. Darperir hyfforddiant arbenigol ar gofrestru, arolygu, cwynion, cydymffurfio a gorfodi naill ai'n 'fewnol' neu gyda chefnogaeth darparwyr hyfforddiant allanol. Mae ASGC yn annog ac yn cefnogi staff i ddilyn hyfforddiant lleol yn yr iaith Gymraeg pan fo angen hynny.

Cyflwynwyd sawl digwyddiad i gefnogi diwygio rheoleiddio ac i alluogi staff arolygu a gweinyddol i ddeall y methodolegau newydd. Datblygir hyfforddiant hefyd mewn ymateb i reoliadau newydd sy'n dod i rym neu pan nodir angen trwy ganfyddiadau ein hadroddiadau blynyddol. Mae rheoli meddyginiaeth mewn cartrefi gofal a materion amddiffyn plant ac oedolion yn enghraifft o hyn.

## *AMCAN PUMP*

*Galluogi ein staff i fod yn rhan o ddylanwadu ar strategaethau a pholisïau ASGC, helpu i ddatrys heriau gweithredol a diweddaru polisïau a chanllawiau ar gyfer cyflawni rheoleiddio.*

Sefydlwyd pum rhwydwaith datblygu ar draws y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant. Mae'r rhain wedi gweithio ar faterion polisi a gweithredol sy'n gysylltiedig â maethu a mabwysiadu; ysgolion; fferyllfeydd; cwynion ac amddiffyn; a gofal dydd llawn. Mynychwyd y grwpiau hyn gan drawstoriad o uwch arolygwyr, arolygwyr a staff cymorth o bob rhan o Gymru.

Fel rhan o'n rhaglen datblygu staff fewnol, cynhaliodd staff arolygu rhanbarthau'r Gogledd-orllewin a'r Gogledd-ddwyrain weithdy ar y cyd i nodi cyfleoedd ar gyfer adolygu a gwella arfer sy'n gysylltiedig â diwygio.

Wrth baratoi am integreiddio, bu nifer o aelodau staff yn rhan o ffrydiau gwaith a sefydlwyd yn benodol i baratoi am y newid pan fyddai ASGC ac AGCC yn gweithio gyda'i gilydd fel un arolygiaeth gyfunedig.

Roedd cryn dipyn o waith yn gysylltiedig â pharatoi ar gyfer gweithredu'r newidiadau i'r rheoliadau cartrefi plant a gynhwyswyd yn y ddogfen bolisi *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Medi 2006). Yn ogystal â hyn, ymgymerodd ASGC â gwaith datblygu i gefnogi'r arolygwyr hynny a oedd yn gyfrifol am arolygu llety diogel.

## *AMCAN CHWECH*

*Cyfrannu at lunio polisïau, a datblygu a gweithredu papur cyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.*

Mae ein hadroddiad blynyddol yn gwneud cyfraniad allweddol at gynyddu ymwybyddiaeth a sicrhau dealltwriaeth o ansawdd gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

Cyhoeddodd ASGC ei phedwerydd adroddiad blynyddol statudol ar gyfer 2005-06, gan ddarparu trosolwg cynhwysfawr o fwy na 6,000 o leoliadau gofal. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r casgliadau o holl weithgareddau rheoleiddiol ASGC yn ogystal â nodi patrymau, tueddiadau ac ansawdd y gwasanaeth. Croesawyd yr adroddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn allanol, ac fe'i canmolwyd wyd am ei gynnwys manwl a'i fformat hawdd ei ddeall.

Ynghyd â rhaglen gynlluniedig o gyfarfodydd rheolaidd gyda sefydliadau partner a rhan-ddeiliaid, arweiniodd ein hadroddiad at ymgynghori pellach ynghylch rheoliadau allweddol. Mae enghraifft o hyn yn cynnwys y newidiadau a wnaed i reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) a nodwyd yn *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell*. Dylanwadodd yr adroddiad ar y strategaeth a'r polisïau a ddatblygwyd gan sefydliadau gofal cymdeithasol allweddol eraill hefyd, gan gynnwys darparwyr.

Mae'r adroddiad hefyd yn cyfrannu at brosesau llunio polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac roedd ein casgliadau rheoleiddiol yn ddylanwad allweddol wrth helpu i ffurfio'r strategaeth a nodwyd yn *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* - gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y deng mlynedd nesaf. Cyfrannodd y casgliadau a nodwyd yn adroddiad blynyddol ASGC at yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, sy'n ceisio gweddnewid y ffordd y cyflwynir gwasanaethau cymdeithasol er mwyn darparu gofal mwy modern, hygyrch ac unigol ar gyfer pobl.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, byrddau iechyd lleol a rhan-ddeiliaid allweddol eraill o'r sectorau cyhoeddus ac annibynnol, yn ogystal â chydweithwyr polisi a phwyllgorau a chyfarfodydd llawn perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## *AMCAN SAITH*

*Darparu gwybodaeth ddiweddar sy'n hawdd ei defnyddio.*

Codwyd ein proffil fel rheoleiddiwr gweladwy a hygyrch y mae ei waith yn cael ei gydnabod a'i barchu. Roedd ein strategaeth gyfathrebu strategol yn cynnwys cynnal gwasanaeth cadarnhaol ac ymatebol i'r cyhoedd a'r cyfryngau.

Cynhyrchwyd dau gylchlythyr gennym a anfonwyd bob chwe mis at fwy na 6,000 o ddarparwyr a rhan-ddeiliaid. Darperir holl ddogfennau ASGC yn Gymraeg a Saesneg. Cynhaliwyd nifer o arolygiadau, yn arbennig yn rhanbarthau'r Gogledd-orllewin, Canolbarth a Gorllewin Cymru, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ystod 2006-07 darparwyd dogfennau neu wybodaeth gennym hefyd mewn Arabeg, Hindŵ, Bengaleg, Pwyleg a Phortiwgaleg.

Cyhoeddwyd canllaw newydd ar ddiwygio rheoleiddio gennym ar gyfer darparwyr gofal dydd, i gyd-fynd â'r gweithdrefnau arolygu diwygiedig, yn ogystal â thaflen wybodaeth newydd ar gyfer gofal cartref.

Gohiriwyd cynigion i gyhoeddi amrywiaeth gynhwysfawr o ddeunyddiau gwybodaeth gyffredinol newydd i'r cyhoedd oherwydd y cynlluniau i integreiddio ASGC ac AGCC a'r ail-frandio cysylltiedig.

Wrth baratoi at integreiddio ASGC ac AGCC ar 1 Ebrill 2007, cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu proffil uchel gennym, yn fewnol ac yn allanol. Cyfeiriwyd hyn at sawl gwahanol gynulleidfa gan gynnwys staff, cydweithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, darparwyr, sefydliadau rhan-ddeiliaid a'r cyhoedd, i gynyddu ymwybyddiaeth o swyddogaeth a chylch gwaith y sefydliad cyfunedig. Cynhyrchwyd amrywiaeth o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd gennym i hybu ymwybyddiaeth o'r arolygiaeth newydd a'i brand, yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys taflen wybodaeth i'r cyhoedd.

Cyhoeddodd ASGC nifer o erthyglau a oedd yn ymwneud â sectorau penodol mewn cyfnodolion proffesiynol arbenigol wrth baratoi at integreiddio.

Roeddem yn bresennol mewn digwyddiadau allanol gan gynnwys: Influencing for Action (Coleg Brenhinol y Nyrsys); Speaking up for our Age (Age Concern); Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol De Cymru y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol; Cynhadledd Genedlaethol Gwasanaethau Oedolion a Phlant, Brighton; Cynhadledd Flynyddol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; y Gymdeithas Gofal Cartref Genedlaethol; Cynhadledd Fforwm Gofal Cymru; Diogelwch Rhag Tân (rhaglen o gynadleddau rhanbarthol); Cynhadledd y Rhwydwaith Rhannu Gofal; Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru; a fforwm y Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd Genedlaethol.

Y llynedd, trefnodd swyddfeydd rhanbarthol ASGC nifer o ddigwyddiadau cynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer darparwyr ynglŷn â diwygio rheoleiddio. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar y meysydd hynny a fu'n destun diwygio o fewn y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys plant dan wyth mlwydd oed, gofal dydd sesiynol, gofal y tu allan i'r ysgol, oedolion iau, gwasanaethau maethu a'r weithdrefn gwyno newydd.

Roeddem yn rhan o sawl digwyddiad a drefnwyd yn allanol hefyd, yn benodol i godi proffil diwygio rheoleiddio a'r rheoliadau newydd sy'n cefnogi hyn, gan ddarparu siaradwyr a hwyluswyr ar gyfer gweithdai. Roedd ein partneriaid yn cynnwys Fforwm Gofal Cymru, y Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd Genedlaethol, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru (WPPA) a'r Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA).

## *AMCAN WYTH*

*Sicrhau bod comisiynwyr gwasanaethau yn cael eu hysbysu am ganlyniadau rheoleiddio.*

Rydym wedi sefydlu sawl protocol i sicrhau bod comisiynwyr yn cael eu hysbysu am ganlyniad ein gweithgaredd rheoleiddiol.

Yn unol â diwygio rheoleiddio, archwiliwyd y ffyrdd yr ydym yn gweithio gyda chomisiynwyr er mwyn sicrhau ymagwedd o gydweithredu, sy'n lleihau'r baich gweinyddol ar gyfer darparwyr. Mae'r rheoliadau newydd a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2007 yn sicrhau nad oes rhaid i ddarparwyr ailgyflwyno yr un wybodaeth i reoleiddwyr a chomisiynwyr.

Mae'r ymagwedd hon hefyd yn galluogi ASGC i rannu gwybodaeth a allai fod o fudd i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaeth, e.e. os oes pryderon sy'n dwysáu mewn lleoliad neu os yw darparwyr wedi rhoi'r gorau i weithredu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n gweithio ar brosiect i ddatblygu canllawiau statudol ar ymdrin â chau cartrefi. Mae hyn yn cynnwys rhan-ddeiliaid comisiynu a chontractio, cynrychiolwyr darparwyr, grwpiau eiriolaeth gwirfoddol, ynghyd â sefydliadau cynrychioliadol ym maes gofal cymdeithasol a iechyd.

Cyfarfu ASGC â grwpiau lleol o staff comisiynu i roi cyflwyniad ar y ffyrdd y gall ein swyddogaethau rheoleiddiol a chontractio unigol weithio gyda'i gilydd i leihau'r baich rheoleiddio ar ddarparwyr, yn y gynhadledd Cymru Gyfan a gynhaliwyd yn Llandudno.

## *AMCAN NAW*

*Cryfhau'r berthynas rhwng ASGC a rheoleiddwyr, arolygiaethau a chyrff cyhoeddus eraill.*

Mae ASGC wedi treulio cryn dipyn o amser yn cryfhau ei pherthynas â rheoleiddwyr, arolygiaethau a chyrff cyhoeddus eraill gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau.

- **Protocolau**

Mae gan ASGC nifer o brotocolau gyda sefydliadau eraill sy'n sicrhau cyfathrebu parhaus ynglŷn â materion sydd o ddiddordeb cyffredin iddynt. Mae hyn yn amrywio o rannu gwybodaeth gyda rheoleiddwyr eraill e.e. rhannu gwybodaeth am y gweithlu gofal cymdeithasol gyda Chyngor Gofal Cymru (CGC), i rannu gwybodaeth am ganlyniadau gweithgaredd rheoleiddiol gyda byrddau iechyd lleol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

Llofnododd ASGC brotocol gyda rheoleiddwyr gofal dydd y blynyddoedd cynnar ar draws y DU er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth ac ystyried ceisiadau'n gyflym pan fydd darparwyr yn symud i rannau eraill o'r wlad.

Yn dilyn gweithredu'r ddeddfwriaeth diogelwch rhag tân newydd ym mis Hydref 2006, datblygwyd protocol gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n amlinellu ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau newydd.

Roedd ASGC yn bartner allweddol mewn sefydlu a datblygu'r *Concordat rhwng Partïon sy'n Arolygu, Rheoleiddio ac Archwilio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru* - cytundeb gweithio ar y cyd a lofnodwyd gan nifer o sefydliadau a rhan-ddeiliaid allweddol yn 2005 - ac mae'n ymroddedig i'r gwaith partneriaeth cydweithrediadol parhaus sydd wedi cychwyn erbyn hyn.

Am wybodaeth bellach ynglŷn â'r rhain a phrotocolau eraill ewch i www.cssiw.org.uk

- **Rhan-ddeiliaid**

Mae ASGC yn cwrdd yn rheolaidd â nifer o arolygiaethau a sefydliadau allweddol ledled Cymru i sicrhau cydgysylltu a chydweithredu o'r safon orau bosibl.

Mae hyn wedi ein galluogi i ddechrau cynllunio i leihau baich rheoleiddio ar ddarparwyr drwy osgoi dyblygu ymdrechion ac adnoddau, ar yr un pryd â gwella arferion gwaith o ddydd i ddydd. Mae arolygiadau cyfunol eisoes yn lleihau'r baich rheoleiddiol ar gyfer rhai darparwyr. Gweithiodd ASGC yn agos ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) ac Estyn.

Ymunodd ASGC â'r Rhwydwaith Celtaidd, gan gwrdd â chydweithwyr o'r Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar yr ymagwedd newydd at reoleiddio a rhannu arfer gorau. Arweiniodd aelodaeth o'r rhwydwaith at ddatblygu dulliau penodol o ddatblygu arfer da ar draws y grŵp, gan weithio gyda'i gilydd ar themâu trawsffiniol yng nghyd-destun diwygio gwasanaeth cyhoeddus ehangach fel y nodwyd yn *Creu'r Cysylltiadau, Cyflawni ar Draws Ffiniau*.

Cyfarfu ASGC yn rheolaidd â grwpiau rhan-ddeiliaid darparwyr yn lleol ac yn genedlaethol e.e. gyda Fforwm Gofal Cymru, y Grŵp Cyswllt Darparwyr Cenedlaethol, y Gymdeithas Cynlluniau Lleoli Oedolion Genedlaethol, y Rhwydwaith Maethu a grwpiau ambarél gofal dydd y blynyddoedd cynnar. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod cyfle i drafod, ac felly'n hwyluso gwaith parhaus effeithiol a datblygu arfer gorau.

Eleni gweithiodd ASGC yn agos ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), a gynhaliodd adolygiad o ddarpariaeth y GIG yn y sector anabledd dysgu mewn perthynas â phobl ifanc ac oedolion yng Nghymru. Roedd hyn mewn ymateb i gamdriniaeth sefydliadol helaeth o bobl ag anableddau dysgu mewn ymddiriedolaeth y GIG yng Nghernyw (adroddiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gofal Iechyd a'r Comisiwn ar gyfer Arolygu Gofal Cymdeithasol, 2006). Nid yw canlyniad yr adolygiad wedi ei gyhoeddi hyd yma.

## Swyddfeydd Rhanbarthol AGGCC

### Swyddfa Ranbarthol Gogledd-orllewin Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Ffordd Dinerth
Llandrillo-yn-Rhos
Bae Colwyn LL28 4UL
**Ffôn:** 01492 542580 **Ffacs:** 01492 542569
**E-bost:** cssiw.nw@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol Gogledd-ddwyrain Cymru
Tŷ Broncoed
Parc Busnes Broncoed
Ffordd Wrexham
Yr Wyddgrug CH7 1HP
**Ffôn:** 01352 707900 **Ffacs:** 01352 707905
**E-bost:** cssiw.ne@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol Canolbarth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod LD1 5HA
**Ffôn:** 01597 829319 **Ffacs:** 01597 824375
**E-bost:** cssiw.mid@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol De-ddwyrain Cymru
6ed Llawr
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pwl
Tor-faen NP4 6YB
**Ffôn:** 01495 761200 **Ffacs:** 01495 761239
**E-bost:** cssiw.se@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol Caerdydd
1 Alexandra Gate
Ffordd Pengam
Tremorfa
Caerdydd CF24 2SA
**Ffôn:** 029 2047 8600 **Ffacs:** 029 2047 8614
**E-bost:** cssiw.cdf@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol Y Fro a'r Cymoedd
4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw CF15 7QZ
**Ffôn:** 01443 848527/28/29
**Ffacs:** 01443 848526
**E-bost:** cssiw.vv@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol De-orllewin Cymru
Uned C, Cam 3,
Pentref Busnes Tawe
Ffordd Phoenix
Parc Menter Abertawe
Abertawe SA7 9LA
**Ffôn:** 01792 310420 **Ffacs:** 01792 313038
**E-bost:** cssiw.sw@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol Gorllewin Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin SA31 3BT
**Ffôn:** 01267 223402 **Ffacs:** 01267 242924
**E-bost:** cssiw.ww@wales.gsi.gov.uk

## Swyddfeydd Lleol AGGCC

### Swyddfa Leol Gogledd-orllewin Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Penrallt
Caernarfon
Gwynedd LL55 1EP
**Ffôn:** 01286 662300 **Ffacs:** 01286 662301
**E-bost:** cssiw.nw@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Leol Canolbarth Cymru
Adeiladau'r Goron
Stryd Northgate
Aberystwyth SY23 2JS
**Ffôn:** 01970 653860 **Ffacs:** 01970 653869
**E-bost:** cssiw.mid@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Leol Gorllewin Cymru
Llawr 1af
Tŷ Winchway
Lôn Winch
Hwlffordd SA61 1RS
**Ffôn** 01437 761300 **Ffacs:** 01437 768388
**E-bost:** cssiw.ww@wales.gsi.gov.uk

## Swyddfeydd Cenedlaethol AGGCC

**AGGCC**
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
**Ffôn:** 01443 848450 **Ffacs:** 029 2082 3417
**E-bost:** aggcc@cymru.gsi.gov.uk

**AGGCC**
4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw CF15 7QZ
**Ffôn:** 01443 848450 **Ffacs:** 01443 848472
**E-bost:** aggcc@cymru.gsi.gov.uk

## Copïau ychwanegol

Mae copïau ychwanegol o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu fformatau eraill pe byddai angen. Mae fersiynau sain o'r adroddiad a data sy'n ymwneud â'r graffiau a'r siartiau hefyd ar gael.

Cysylltwch ag:

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw
CF15 7QZ

Ffôn: 01443 848450
Ffacs: 01443 848472
E-bost: aggcc@cymru.gsi.gov.uk

## Cyfeiriad gwefan

www.aggcc@cymru.gsi.gov.uk